RHONDDA CYNON TAF

# Adroddiad Perfformiad Corfforaethol y Cyngor 2021-22

*Mae'r ddogfen hon yn cynnwys blaenoriaethau'r Cyngor sef yr Amcanion Gwella fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a hefyd amcanion Llesiant y Cyngor fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. I bob pwrpas, gellir trin amcanion Llesiant ac Amcanion Gwella fel yr un peth. Felly, trwy integreiddio prosesau ar gyfer gosod ac adrodd ar yr amcanion allweddol hyn, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan ddau faes deddfwriaeth.*

***Mae'r ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.***

## Cynnwys


| Rhif | Adrannau | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cynnwys | 2 |
| 2. | Cysylltiadau | 3 |
| 3. | Neges yr Arweinydd | 4 |
| 4. | Parhau i gyflenwi | 7 |
| 5. | Sut rydym yn perfformio | 9 |
| 6. | Cyflenwi ein Blaenoriaethau yn 2020/21 | 12 |
| 7. | • Pobl | 17 |
| 8. | • Lleoedd | 27 |
| 9. | • Ffyniant | 37 |
| 10. | Cyllideb | 47 |
| 11. | Bwrdeistref Sirol Deg a Chyfartal | 50 |
| 12. | Yr Iaith Gymraeg - cyflenwi gwasanaethau yn eich dewis iaith | 58 |
| 13. | Newid yn yr Hinsawdd | 64 |
| 14. | Bioamrywiaeth | 70 |
| 15. | Cynnwys pobl a chymunedau | 73 |
| 16. | Gwrando ar eich adborth a dysgu ohono | 76 |
| 17. | Rhoi yn Ôl | 78 |
| 18. | Gweithio nawr er Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 81 |
| 19. | Matrics Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 88 |

## Gwneud Gwahaniaeth

**Dyma Adroddiad Perfformiad Corfforaethol blynyddol y Cyngor. Mae'n dweud wrthych am sut gwnaethon ni berfformio yn 2020/21 a'n blaenoriaethau newydd ar gyfer 2021/22.**

**Rydym yn croesawu eich barn ar yr adroddiad hwn, ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol a sut y gwnaethom ni y llynedd. Hoffem hefyd wybod sut mae ein gwaith i wella gwasanaethau wedi effeithio arnoch chi, eich teulu a'ch cymuned.**

**Gallwch gysylltu â ni:**

| | |
|---|---|
| Dros y we | www.rctcbc.gov.uk/CY/Contactus/Sayit<br>www.rctcbc.gov.uk/CY/Contactus/Reportit |
| Drwy Twitter | @rctcouncil neu @Lets_Talk_Rct |
| Drwy Facebook | www.facebook.com/RCTCouncil |
| Drwy Flog yr Arweinydd | www.rctcbc.gov.uk/CY/TheLeadersBlog |
| Helpwch ni i wella trwy ddarparu'ch sylwadau, eich canmoliaeth a'ch cwynion | www.rctcbc.gov.uk/feedback |
| Ymunwch â'r Panel Dinasyddion | www.rctcbc.gov.uk/jointhepanel |
| Cymerwch ran yn ein Sgyrsiau | https://dewch-i-siarad.rctcbc.gov.uk/ |
| Tîm Ymgynghori | mailto:ymgynghori@rctcbc.gov.uk |
| Hwb Ymgysylltu Cwm Taf | http://www.eincwmtaf.cymru/ |
| Eich Cynghorydd | Dewch o hyd i fanylion cyswllt eich Cynghorydd lleol<br>https://www.rctcbc.gov.uk/ |
| Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd drosodd a rhedeg adeilad neu wasanaeth sy'n cael ei redeg gan y Cyngor ar hyn o bryd | www.rctcbc.gov.uk/rcttogether |

## Neges gan Arweinydd y Cyngor - Y Cynghorydd Andrew Morgan

Croeso i Adroddiad Perfformiad Corfforaethol Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2021.

Mae'r adroddiad yn ein helpu i fodloni llawer o ofynion adrodd cyfreithiol y Cyngor, ond yn bennaf mae'n rhoi cyfrif agored i'r darllenydd o sut rydym yn perfformio ac yn cyflenwi ar gyfer trigolion Rhondda Cynon Taf. Fel yr ydym wedi ei wneud yn ein hadroddiadau blynyddol blaenorol, rydym wedi dwyn ynghyd wybodaeth o bob rhan o wasanaethau'r Cyngor gan fyfyrio ar ba mor dda y gwnaethom gyflenwi ein blaenoriaethau, lle gallwn wneud yn well a'n cynlluniau i gyflenwi ein huchelgeisiau yn y flwyddyn i ddod a'r heriau sy'n ein hwynebu.

Eleni, mae'r adroddiad yn ymwneud â’n gwaith yn ystod y cyfnod mwyaf heriol erioed. Parhaodd y coronafeirws Covid-19, a ddechreuodd ar ei daith farwol ar draws y byd yn gynnar yn 2020, ei daith ddidrugaredd trwy gydol 2020/21, gan gyffwrdd â phob un ohonom mewn rhyw ffordd.

Ar 23 Mawrth 2021, fe wnaethon ni ymuno â’r Diwrnod Myfyrio cenedlaethol, i nodi pen-blwydd y Cyfnod Clo Cenedlaethol cyntaf. Yma yn y Cyngor, fe wnaethon ni ymuno â'r distawrwydd a goleuo ein hadeiladau mwyaf nodedig, gan farcio a chofio am y bobl hynny a gollodd eu bywydau trwy'r feirws, a thalu teyrnged i'r rhai a oedd yn gofalu amdanom ac yn ein cadw'n ddiogel a rhannu'r gobaith am ddyfodol mwy disglair. Collwyd llawer o fywydau eraill i'r feirws ers y diwrnod hwnnw, a thu ôl i bob bywyd a gollwyd mae teulu, ffrindiau, cydweithwyr a chymunedau sy'n galaru, ac y newidiwyd eu bywydau. Mae yna lawer o bobl eraill yn ein cymuned hefyd lle mae'r feirws yn parhau i effeithio ar eu hiechyd. Mae ein meddyliau gyda nhw, a hefyd mae'r modd y gallwn helpu pobl, cymunedau a'r economi leol i wella o'r pandemig yn flaenllaw yn ein meddyliau.

Fel pob sefydliad cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, rhoddwyd yr her fwyaf erioed i’r Cyngor.. Daeth pob un ohonom yn gyfarwydd â geiriau a ffyrdd o weithio na allem erioed fod wedi'u dychmygu. Trwy gydol yr adroddiad hwn, fe welwch sut roedd ein cyfraniad yn allweddol i sefydlu a rhedeg Canolfannau Profi Covid, Trefniadau Profi Cymunedol, Tracio, Olrhain Diogelu a Chanolfan Brechu Torfol yn ogystal â gwaith pwysig arall i gadw pobl yn ddiogel tra’n parhau i ddarparu gwasanaethau allweddol a chefnogi busnesau yn ystod yr amseroedd mwyaf heriol hyn. Rydym hefyd wedi gweithio'n agosach nag erioed gyda phartneriaid gan gynnwys y Bwrdd Iechyd, Heddlu De Cymru a'r trydydd sector i ddod o hyd i ffyrdd gwell o gyflawni pethau. Rydym wedi ymateb yn gyflym iawn i'r her ddigynsail hon, megis cyflwyno cymorth busnes, er budd gorau'r trigolion ac iechyd ein cymunedau.

Er gwaethaf effaith Covid, rydym wedi parhau i gyflenwi prosiectau mawr a'n rhaglen waith uchelgeisiol lle roeddem yn gallu gwneud hynny. Er enghraifft:

- Parhau â'r gwaith lliniaru llifogydd ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Cadw i fyny gyda'n rhaglen o ddatblygiadau Canol y Dref ym Mhontypridd, Porth, Aberdâr ac Aberpennar.
- Cwblhau atgyweiriadau Pontydd yn Nhrehopcyn a Heol Berw, Pontypridd a Threherbert
- Cyflenwi Cynllun Ffordd Gyswllt ar draws y Cwm Aberpennar a chwblhau'r datblygiad Llys Cadwyn ym Mhontypridd sydd wedi ennill dwy wobr.
- Cwblhau atgyweiriadau i Lido Ponty a ddifrodwyd gan lifogydd yn 2020.

- Parhau â'n rhaglen adeiladu a gwella ysgolion yn yr 21ain Ganrif a chytuno i symud yr adeilad ysgol newydd ymlaen ar safle newydd ar gyfer YGG Llyn-y-Forwyn.
- Agor llety byw'n annibynnol newydd a gwneud cynnydd da yn ein trydydd cyfleuster Gofal Ychwanegol, Cwrt yr Orsaf Pontypridd fel ei fod yn parhau i fod ar darged i groesawu preswylwyr yn ddiweddarach eleni a datblygu ein cynlluniau ar gyfer cyfleuster Gofal Ychwanegol newydd fel rhan o ailddatblygiad Dan y Mynydd yn y Porth.
- Adeiladu unedau diwydiannol carbon uchel newydd o ansawdd uchel yng Nghoed-elái a Thresalem i gefnogi busnesau newydd a sefydledig i dyfu.
- Cyflogi mwy o bobl ifanc nag erioed o'r blaen ar ein Cynlluniau Graddedigion a Phrentisiaethau , gan fynd tu draw i'n targed recriwtio.
- Parhau i ddatblygu ein gwaith gyda golwg ar leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd

Ar y cyfan, o'r dystiolaeth a gyflwynwyd gennym yn yr adroddiad hwn, credwn fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da trwy gydol blwyddyn pryd yr oedd rhaid i ni ymateb yn barhaus i ddigwyddiadau newydd a oedd yn symud yn gyflym, ac a oedd y tu hwnt i'n rheolaeth. Mae llwyddiant y rhaglen frechlyn yn caniatáu inni ddychwelyd yn araf at y 'normal newydd', i achub ar y cyfleoedd a chwrdd â'r heriau hynny a ddaeth i'r amlwg dros y deunaw mis diwethaf, yn ogystal â rhai eraill fel Newid yn yr Hinsawdd.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i fod yn gadarnhaol ac yn uchelgeisiol ac wrth i'n gwasanaethau ailgychwyn yn ddiogel, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wneud RhCT y lle gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus.

Mae'r Adroddiad Perfformiad Corfforaethol hwn yn cynnwys llawer o enghreifftiau o sut mae'r Cyngor yn gweithio i wella llesiant Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol trigolion a chymunedau Rhondda Cynon Taf. Mae hefyd yn dangos yr hyn a ddywedodd Archwilwyr Annibynnol y Cyngor am ein gwaith a'n cynnydd.

Rydym yn hynod falch o'r ffordd y mae staff a Chynghorwyr wedi ymateb i'r heriau digynsail dros y flwyddyn ddiwethaf i gefnogi'r bobl hynny sydd â'r angen mwyaf ac i gadw trigolion yn ddiogel ac yn iach. Mae staff wedi mynd y tu hwnt i alwad dyletswydd ac wedi rhagori ar y disgwyliadau yn barhaus. Maent wedi ymgymryd â swyddi newydd ac anghyfarwydd, dod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau hirsefydlog, yn enwedig i'r rhai mwyaf anghenus, ac ar yr un pryd addasu'n gyflym i'r angen i feistroli sgiliau TG newydd i'w helpu i barhau â'u gwaith gartref. Hyn i gyd a mwy yn ystod yr amgylchiadau proffesiynol a phersonol mwyaf heriol. Rwyf yn rhyfeddu ac yn ddiolchgar iawn am y gwytnwch a ddangoswyd gan staff, preswylwyr a chymunedau, gan gynnwys y cannoedd o wirfoddolwyr, a oedd gyda'i gilydd yn hanfodol i gadw ein trigolion bregus yn ddiogel.


Yr ymrwymiad hwn i'n cymuned, a sut rydym yn ymdrechu i fod y gorau, yw pam fod Rhondda Cynon Taf yn parhau i fod yn un o'r Cynghorau mwyaf llwyddiannus yng Nghymru, gan osod bar uchel i ni'n hunain ac i eraill.

Wrth i ni ddechrau dod allan o'r amseroedd gwaethaf, gwyddom bod gennym ni amseroedd anoddach o'n blaenau, lle bydd uchelgais i'n cymunedau yn bwysicach nag erioed os ydym am barhau â chyflymder y newid rydyn ni wedi'i gyflawni yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn awyddus i ailedrych ar yr hen heriau a wynebu'n ddiwyro y rheini sy'n fwy diweddar. Rydym am achub ar y cyfleoedd a gyflwynodd eu hunain yn ystod y pandemig. Rydym hefyd eisiau dychwelyd i'r trywydd iawn a chyflawni'r holl uchelgeisiau a osodasom i ni'n hunain, a'r rhai rydych chi wedi

dweud wrthym sy'n bwysig i chi. Gobeithio y gallwn wneud hyn i gyd eleni, heb hualau'r pandemig i'n dal yn ôl.

Rwy'n gobeithio y bydd yr Adroddiad hwn yn eich helpu i ddeall sut mae'r Cyngor wedi parhau i ddarparu gwasanaethau dan amgylchiadau eithriadol yn 2020/21 a sut rydym yn mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd yn 2021/22 a thu hwnt. Rhowch wybod i ni beth yw eich barn am ein cynnydd, a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Dywedwch wrthym beth sy'n bwysig i chi, a rhowch eich syniadau inni, a dywedwch wrthym beth allwn ei wneud i hyrwyddo effaith gadarnhaol gwaith y Cyngor ar eich cymuned, eich teulu ac arnoch chi.

Diolch am eich diddordeb parhaus yn y Cyngor.



Y Cynghorydd Andrew Morgan

Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

## Parhau i Gyflenwi

Roedd 2020/21 yn flwyddyn eithriadol; ni welwyd ei thebyg o'r blaen. Ar draws gwasanaethau'r Cyngor, addaswyd ein gweithrediadau i ymateb i'r 'cyfnod clo' cychwynnol gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020, ailagor rhai gwasanaethau yn raddol yn haf 2020, y 'cyfnod atal byr' ym mis Hydref 2020, ac yn olaf yr ail gyfnod clo estynedig a ddechreuodd ym mis Rhagfyr 2020. Rhoddwyd yr holl gamau hyn ar waith i atal feirws Covid-19 rhag lledaenu ledled cymunedau yng Nghymru a thu hwnt. Yn ystod yr amser hwn, parhaodd y Cyngor i gefnogi a diogelu trigolion, yn enwedig y rhai a oedd fwyaf agored i niwed, cefnogi busnesau a chadw staff yn ddiogel, yn enwedig y rhai oedd yn gweithio ar y 'rheng flaen'.

Gyda'r ffocws ar gadw ein holl drigolion yn ddiogel, rydym wedi gweithio'n agosach nag erioed gyda'n partneriaid gan gynnwys *Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg* a'r trydydd sector. Roedd llawer o staff y Cyngor yn ymwneud yn helaeth â threfnu, rheoli a chefnogi gwaith hanfodol yn gysylltiedig â Covid-19, yn amrywio o'r galwadau Tracio ac Olrhain cychwynnol a Chanolfannau Profi Cymunedol Covid i gyflwyno brechiadau. Roedd ein staff yn allweddol i lwyddiant y gwaith ar y cyd hwn ond yr un allweddol oedd ein hadeiladau, ein systemau TG a'n hoffer.

Effeithiwyd ar holl wasanaethau'r Cyngor a byddwch yn gweld trwy'r adroddiad hwn lawer o'r ffyrdd y mae staff a gwasanaethau wedi ymateb. Er enghraifft:

**I gefnogi pobl agored i niwed, gwnaethom y canlynol**

- Gweithio gyda'r trydydd sector i ddosbarthu parseli bwyd a chysylltu â dros 11,000 o drigolion a oedd yn gwarchod, cysylltu dros y ffôn neu drwy guro'n ddiogel ar ddrysau. Derbyniodd 3,393 o'r trigolion a oedd yn gwarchod gymorth mwy uniongyrchol, gan gynnwys gyda siopa, danfon presgripsiynau a pharseli bwyd, cyngor budd-daliadau a cherdded cŵn.
- Gwneud yn siŵr bod rhieni a gofalwyr plant a fyddai fel arfer yn derbyn prydau ysgol am ddim yn cael arian i sicrhau bod y plant yn cael bwyd gartref
- Cefnogi busnesau â thaliadau grant ac yng Nghanol Trefi, darparu cefnogaeth a chyngor pellter cymdeithasol a sicrhau mynediad diogel i doiledau cyhoeddus.
- Gwneud yn siŵr bod gan bobl ddigartref fynediad at lety dros dro fel eu bod yn ddiogel.
- Delio â sgamwyr a oedd yn cam-drin pobl ar eu mwyaf bregus.
- Parhau i ddarparu cefnogaeth i bobl oedd yn profi Cam-drin Domestig.

**I ddod o hyd i ffyrdd newydd a gwahanol o gadw gwasanaethau a digwyddiadau i fynd, gwnaethom y canlynol**

- Cyfuno dysgu wyneb yn wyneb â dysgu ar-lein a dysgu o bell i ddisgyblion o bob oed yn ein hysgolion.
- Cyflwyno gwasanaethau 'archebu a chasglu' yn rhai o'n llyfrgelloedd yn ogystal â rhai danfoniadau cartref.
- Rhoi Cofrestriadau Geni ar waith ar-lein.
- Rhoi rhai o'n dosbarthiadau Hamdden ac Addysg Oedolion ar-lein.
- Cynnal ein Ffair Yrfaoedd Rithwir gyntaf, 'Once Upon a Panto' Rhithwir a Gwreiddiol a hefyd Nos Galan Rithwir.

**I helpu'r bobl hynny a oedd yn dibynnu ar wasanaethau sy'n llai gweladwy, gwnaethom y canlynol**

- Parhau i gefnogi pobl a chymunedau y mae llifogydd yn effeithio arnynt.
- Cadw dysgwyr agored i niwed yn ddiogel trwy agor Hybiau Dysgu.
- Dod o hyd i wahanol ffyrdd o gefnogi'r plant a'r teuluoedd sydd angen help ychwanegol.
- Darparu llety i gadw pobl ddigartref yn ddiogel ac oddi ar y strydoedd.
- Parhau i ddarparu help i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau.
- Rhoi llety sydd ei angen ar gyfer Troseddwyr ar ôl eu rhyddhau.

Yn ogystal â dod o hyd i ffyrdd newydd a gwahanol o gyflenwi busnes fel rhywbeth 'anarferol', ni wnaethom golli golwg ar ein huchelgeisiau a'n rhaglen fuddsoddi o ran gwaith, gan barhau i fodloni gofynion Covid-19 o ran cadw pellter cymdeithasol.

- Gwnaethom agor Ffordd Gyswllt ar draws y Cwm Aberpennar i fodurwyr, beicwyr a cherddwyr ym mis Hydref 2020.
- Gwnaethom symud ymlaen â'r gwaith ar Hyb Trafnidiaeth Porth a fydd yn dod â theithiau rheilffordd a bws ynghyd, ac y bwriedir ei agor yn 2022.
- Cwblhaodd y contractwr Willmott Dixon Llys Cadwyn ym Mhontypridd, sydd wedi ennill dwy wobr, gan ddarparu gwasanaethau i fusnes, gwasanaethau i breswylwyr a chyfleusterau hamdden. Dechreuodd busnesau a sefydliadau agor o'r tri adeilad fel yr oedd y cyfyngiadau yn caniatáu. Mae taith rithwir hefyd ar gael. Hefyd, cwblhaodd y contractwr Knights Brow y gwaith ar bont newydd Llys Cadwyn i Barc Ynysangharad sydd hefyd yn estyniad i rodfa Cwm Taf ar hyd Afon Taf.
- Gwnaethom gwblhau adeiladau ysgol newydd a gwelliannau mewn ysgolion ledled Bwrdeistref y Sir, gan gynnwys agor adeilad ysgol gynradd carbon isel yn Hirwaun.
- Symudwyd ymlaen â'n rhaglen o waith atal llifogydd.
- Gwnaethom barhau â'n gwasanaethau casglu gwastraff ac ailgylchu trwy gydol y pandemig a pharhau i gynyddu faint o wastraff a ailgylchwyd - 66.74%, gan wneud cynnydd tuag at ein targed ailgylchu uchelgeisiol o 80% erbyn 2025, ac anfon llai o wastraff i'w dirlenwi na'r llynedd, 5,151 tunnell.
- Gwnaethom barhau â'r gwaith adeiladu ar gyfer Cwrt yr Orsaf, y cyfleuster Gofal Ychwanegol newydd ym Mhontypridd.
- Cafodd Lido Ponty ei adfer i'w hen ogoniant gyda rhai gwelliannau ychwanegol yn dilyn y difrod a achoswyd gan y Storm Dennis ddinistriol ym mis Chwefror 2020, ac a ailagorodd ym mis Mai 2021. Er gwaethaf y cyfyngiadau cynnar ar niferoedd oherwydd rheolau Covid, mae wedi profi mor boblogaidd ag erioed gydag ymwelwyr.

Wrth i gyfyngiadau godi ac wrth i fwy o'n trigolion gael eu hamddiffyn rhag y feirws gan frechiadau, gallwn ddechrau dychwelyd yn ddiogel i ailafael yn ein rhaglen uchelgeisiol ar gyfer gwella, gan ddarparu'r ystod a'r lefelau gwasanaeth y mae ein trigolion yn eu disgwyl, gan gadw y goreuon o'r ffyrdd newydd o weithio yr ydym wedi'u dysgu trwy gydol y deuddeg mis diwethaf.

## Sut rydym yn perfformio

Mae llawer o'r data a gyflwynwyd gennym trwy'r adroddiad hwn yn gysylltiedig â Covid. Nid ydym wedi bod angen casglu hyn o'r blaen. Yn genedlaethol, daethom yn gyfarwydd â graffiau a thueddiadau haint Covid-19, pobl yn gorfod mynd i'r ysbyty ac, yn anffodus, marwolaethau. O fewn y Cyngor, mae casglu a defnyddio data perthnasol hefyd wedi ein helpu i gyfeirio adnoddau at y bobl sydd eu hangen fwyaf ac i ddangos maint yr her a wynebwyd gennym gyda'n partneriaid i gadw pobl yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys data am nifer ein trigolion oedd yn gwarchod ac angen help, data ceisiadau am barseli bwyd a'r brechlynnau a roddwyd.

Mae'r pandemig wedi effeithio ar wasanaethau’r Cyngor mewn gwahanol ffyrdd a chafodd hyn sgil-effaith ar y data sydd gennym. Er enghraifft, gallwn ddangos data ar gyfer y gwasanaethau hynny a barhaodd yn ddigyfnewid i bob pwrpas trwy gydol y pandemig e.e., faint o eiddo gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd a faint o wastraff ailgylchu a gasglwyd. Fodd bynnag, bu ein Canolfannau Hamdden ar gau am gyfran fawr o'r flwyddyn ac yn fwy diweddar fe'u defnyddiwyd fel Canolfannau Brechu Torfol felly mae'r nifer arferol o bobl sy'n ymweld â chanolfannau ar gyfer gweithgaredd corfforol yn ddiystyr eleni. Mae hefyd yn anodd cymharu rhywfaint o'r data dros amser, er enghraifft mae cau ysgolion a mesurau hunan-ynysu wedi effeithio'n sylweddol ar bresenoldeb ysgol.

Mae'r casgliadau data cenedlaethol arferol ar gyfer 2020/21 wedi bod yn dameidiog ac efallai na fydd rhywfaint o'r data a gasglwyd mor gadarn ag arfer neu'n dangos yn gywir y cynnydd a fu eleni. Oherwydd hyn nid oes gennym lawer o ddata i'w gymharu. Fodd bynnag, rydym wedi parhau i gyflwyno data allweddol i Lywodraeth Cymru e.e. Ffurflenni wythnosol Oedolion a Phlant i nodi unrhyw faterion capasiti, a ddefnyddiwyd i gynllunio a gweithredu yn ystod y pandemig ac rydym wedi parhau i fonitro ein cynnydd yn erbyn y targed cenedlaethol e.e. gwnaethom ailgylchu 66.74% o'n gwastraff, sydd eisoes bron â chyrraedd targed Llywodraeth Cymru o 70% erbyn 2025 ac yn dod â ni'n agosach at ein targed uchelgeisiol ein hunain o 80% erbyn yr un dyddiad.

Rydym yn awyddus i ailgychwyn casgliadau data cenedlaethol llawn cyn gynted â phosibl. Gall cymharu ein perfformiad â chynghorau eraill godi mwy o gwestiynau nag atebion. Mae hyn yn gadarnhaol oherwydd gall ein helpu i ddeall yn well yr hyn a wnawn, dysgu o arfer gwell yn ogystal â rhoi syniad inni o ba mor dda yr ydym yn perfformio a lle y gallwn osod targedau mwy uchelgeisiol i ni’n hunain. Os gallwn weld nad yw ein perfformiad yn gwella dros amser a'i fod yn parhau i fod yn is na Chyfartaledd Cymru heb reswm da, gallwn wedyn ganolbwyntio ar yr hyn sydd angen i ni ei wneud i wella.

Os hoffech weld gwybodaeth am Rhondda Cynon Taf a Chynghorau eraill ledled Cymru ar gyfer y swm cyfyngedig o wybodaeth a gesglir mewn fformat hawdd ei ddarllen, gallwch ddod o hyd iddi yn Fy Nghyngor Lleol ac Infobase Cymru.

Rydym hefyd yn cryfhau ein defnydd o ddata sy'n edrych ymlaen, gan ddefnyddio hwn i'n helpu i baratoi ar gyfer y dyfodol e.e. effaith tywydd eithafol oherwydd Newid yn yr Hinsawdd a sut orau y gallwn gefnogi poblogaeth sy'n heneiddio.

Nid dangosyddion perfformiad a data yw'r unig fesurau o ran pa mor dda y mae gwasanaethau'n perfformio, ac nid ydynt ychwaith yn adrodd y stori gyfan, ond gallant helpu. Rydym hefyd yn edrych ar farn trigolion, ymatebion i’r arolwg a’r sylwadau, y ganmoliaeth a’r cwynion a dderbyniwn

trwy ein system Rheoli Perthynas Cwsmer (CRM) ac o sianeli cyfryngau cymdeithasol i helpu i gwblhau llun o'n perfformiad; gweler Adrannau 15 ac 16.

Trwy gydol yr adroddiad hwn, fe welwch lawer o enghreifftiau o sut rydym yn ceisio ac yn defnyddio adborth i lunio a gwella ein gwasanaethau. Rydym wedi dysgu llawer o'n gwaith i fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig ac rydym yn gwybod bod gennym fwy i'w wneud os ydym am adeiladu ar hyn a deall mwy am ein cymunedau ar gyfer cynllunio gwasanaeth yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn awyddus i ddysgu gan Gynghorau a sefydliadau eraill fel ein bod yn cadw i fyny ag arfer gorau sy'n gweithio i RhCT, yn dysgu ohono ac yn ei gymhwyso, o ble bynnag y daw.

Mae ein rheolyddion yn adrodd yn rheolaidd ar ein gwaith ac yn darparu adborth annibynnol ynghylch ble rydym yn gwneud yn dda a ble y gallwn wella. Mae ein rheolyddion yn cynnwys:

- Archwilio Cymru am sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario a'i reoli'n ddoeth.
- Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant EM yng Nghymru (ESTYN) am ansawdd a safonau mewn addysg a darparwyr hyfforddiant yng Nghymru.
- Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) am ofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.

Darperir yr adroddiadau gan ein rheolyddion i Gynghorwyr er mwyn eu craffu a'u gwirio ac rydym hefyd yn sicrhau bod adroddiadau ar gael i bawb eu gweld mewn un man ar ein Gwefan.

Mae angen i ni hefyd gyfrannu at y saith nod Llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a ddisgrifir yn fanylach yn Adran 18. Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei phedwerydd adroddiad, 'Llesiant Cymru 2020' sy'n nodi crynodeb o'r cynnydd a wneir ar draws 44 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, i gyflawni'r saith nod cenedlaethol hyn, gan ddefnyddio 46 o ddangosyddion cenedlaethol. Er nad yw'r adroddiad diweddaru yn ymwneud â Rhondda Cynon Taf a'i fod yn dadansoddi'r data ar gyfer 2019, gallwn ystyried sut yr ydym yn cyfrannu a sut y gallwn gyfrannu at y 7 nod cenedlaethol yn ogystal â defnyddio'r canfyddiadau i herio ein hunain.

Mae'r pwyntiau o'r adroddiad cenedlaethol hwn sy'n darparu tueddiadau cenedlaethol yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | *"Mae natur cyflogaeth yn y sectorau sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan y pandemig yn golygu y bydd effeithiau'n tueddu i waethygu anghydraddoldebau. Mae'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf yn tueddu i fod yn bobl â chyflog isel, mewn cyflogaeth ansicr, a phobl ifanc."* |
| **Cymru gydnerth** | *"Mae llygredd aer yn parhau i fod yn broblem iechyd sylweddol, gyda chynnydd yn lefelau dau o'r prif lygryddion aer rhwng 2017 a 2018."* |
| **Cymru iachach** | *"Ychydig o newid a fu mewn ymddygiadau ffordd o fyw iach ymysg oedolion yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae ymddygiadau afiach yn gyffredinol yn llai cyffredin ymhlith y rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig."* |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | *"Mae effeithiau mwy anuniongyrchol niweidiau economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o gael eu teimlo gan bobl ifanc, menywod, pobl anabl a grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Disgwyliwn i hyn gael effaith ar lawer o'r dangosyddion cenedlaethol yn ystod 2020/21."* |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | *"Mae data o Arolwg Cenedlaethol misol Cymru yn dangos bod pobl sy'n teimlo ymdeimlad o gymuned wedi cynyddu'n sylweddol, o 52% yn 2018-19 i 75% ym mis Medi 2020."* |

| | |
|---|---|
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | *"Mae'r dangosyddion cenedlaethol ar y Gymraeg yn gyson ar y cyfan â'r blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, bu gostyngiad bach yng nghanran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol, a'r bobl sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg."* |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | *"Yn Ebrill a Mai 2020 cafwyd gostyngiadau sylweddol mewn rhai lefelau llygryddion (er enghraifft, ocsidau nitrogen), yn gyson â lefelau traffig is. Fodd bynnag, cynyddodd lefelau llygryddion eraill, fel deunydd gronynnol mân ac osôn."* |

Mae Llefydd Llewyrchus Cymru 2020 yn mesur llawer o wahanol wasanaethau a gwahanol ddarparwyr wedi'u categoreiddio yn ôl Lle a'r Amgylchedd, Iechyd Meddyliol a Chorfforol, Addysg a Dysgu, Gwaith a'r Economi Leol, Pobl a'r Gymuned. Ar draws pob categori, mae data 2020 yn rhoi graddfa gyffredinol i RhCT o 4.43 allan o 10. Mae hyn yn gynnydd bach ers 2019. Y categori graddio uchaf yn 2020 oedd 5.56 ar gyfer Lle a'r Amgylchedd a'r isaf oedd 3.58 ar gyfer iechyd meddyliol a chorfforol.

## Cyflenwi ein Blaenoriaethau yn 2020/21

Cyflwynodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol '*Y Ffordd Ymlaen*' cyntaf yn 2016. Gosododd y Cynllun hwn y cyfeiriad ar gyfer popeth a wnaethom rhwng 2016 a 2020 a gosod y seiliau cadarn ar gyfer ein Cynllun Corfforaethol 2020-24, '*Gwneud Gwahaniaeth*', yn nodi ein blaenoriaethau newydd a fydd yn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth.

***"I fod y lle gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus."***

Byddwn yn gwneud hyn drwy

- Sicrhau fod **Pobl:** *yn annibynnol, iach a llwyddiannus;*
- Creu **Lleoedd:** *lle mae pobl yn falch o fyw, gweithio a chwarae;*
- Galluogi **Ffyniant:** *creu'r cyfle i bobl a busnesau: fod yn arloesol; bod yn entrepreneuraidd; a chyflawni eu potensial a ffynnu.*

Yn sail i'r blaenoriaethau hyn, mae ymrwymiadau, cynlluniau a thargedau manylach yr ydym wedi'u gosod i ni'n hunain.

Fe wnaethom weithredu'r cynllun newydd hwn ym mis Ebrill 2020, er gwaethaf yr heriau sylweddol oedd yn wynebu'r Cyngor yn sgil y llifogydd digynsail yn gynnar yn 2020 ac yn wyneb pandemig byd-eang. Effeithiwyd ar ein holl wasanaethau mewn rhyw ffordd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda llawer yn y rheng flaen o ran ymateb yn uniongyrchol i'r heriau hyn.

Effeithiodd y digwyddiadau hyn ar yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni yn 2020/21, a chyhoeddwyd ein cynlluniau diwygiedig yn ein Adroddiad Perfformiad Corfforaethol 2020. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni'r cynlluniau hyn, gan chwarae ein rhan hefyd i gadw trigolion a chymunedau yn ddiogel ac i gefnogi busnesau lleol yn ystod cyfnodau sylweddol a pharhaus o ansicrwydd, yn enwedig wrth i'r wlad addasu i lefelau rhybuddion newidiol Covid-19.

Mae ein gwaith wedi cael ei adolygu a'i wirio gan Gynghorwyr ac ar yr un pryd, rhoddwyd yr Adroddiadau perfformiad chwarterol ar wefan y Cyngor fel y gall trigolion a sefydliadau eraill sydd â diddordeb weld ein cynnydd drostynt eu hunain. Rydym bellach ar ddiwedd blwyddyn adrodd 2020/21, felly mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr asesiad diwedd blwyddyn o'n cynnydd ac yn darparu enghreifftiau o ble mae ein gwaith wedi gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl sy'n byw, gweithio ac ymweld â Rhondda Cynon Taf, a hefyd lle mae angen i ni wneud yn well.

Eleni, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyfraith newydd, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Cyflwynodd y gyfraith newydd hon lawer o newidiadau i Gynghorau yng Nghymru a nodwyd mewn adroddiad i'r Cabinet ym Mawrth 2021. Mae un o'r newidiadau hyn yn ymwneud â sicrhau bod y Cyngor yn gwybod ble mae yn gyrf a lle y gall wneud yn well. Mae gan y Cyngor ddiwylliant perfformio cryf ar waith. Rydym yn agored ac yn dryloyw ynglŷn â'n gwaith ac mae gennym brosesau cefnogi a herio sydd wedi'u hen sefydlu yn eu lle i weld beth rydym yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen i ni ei wneud i wella ac mae'n rheolydd annibynnol, Archwilio Cymru wedi cadarnhau ein bod wedi cyflawni ein dyletswyddau cynllunio gwelliannau ac adrodd. Rydym

hefyd yn cwrdd ag ystod eang o dyletswyddau cynllunio ac adrodd statudol. Oherwydd hyn, rydym eisoes mewn sefyllfa dda i fodloni gofynion y gyfraith newydd hon.

Ni all unrhyw adroddiad na chynllun unigol ddweud wrthych am y llu o wasanaethau yr ydym yn eu darparu'n uniongyrchol, neu'n eu trefnu, i'n trigolion, ein cymunedau a'n busnesau. Fodd bynnag, gallwch ddysgu mwy am yr holl wasanaethau a ddarparwn, y cynnydd yr ydym yn parhau i'w wneud a sut rydym yn parhau i gefnogi trigolion a chymunedau, ar wefan y Cyngor, Twitter y Cyngor, Instagram y Cyngor neu dudalennau Facebook y Cyngor.

Er mwyn parhau i'n helpu i gyflawni ein huchelgeisiau ac ymateb i effaith pwysau ariannol cynyddol, rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wneud mwy gyda'r adnoddau sydd wrth law trwy fynd i'r afael â:

**Digideiddio** fel y gall cwsmeriaid gyrchu mwy o'n gwasanaethau ar-lein a helpu i gynyddu mynediad i dechnoleg i bobl a chymunedau.

Fe wnaeth digwyddiadau digynsail 2021-22, o reidrwydd, gynyddu cyflymder ein cynlluniau newid digidol, fel ein bod yn gallu cadw gwasanaethau'n hygyrch a pharhau i redeg busnes y Cyngor. Gwned gwaith cynnar fel

- y gellid hysbysu trigolion a grwpiau cymunedol am newidiadau i'r gwasanaeth a'r help sydd ar gael.
- y gallai prosesau democrataidd barhau ar ffurf rhithwir
- y gellid cynnal cyfarfodydd rhithwir ar-lein gyda phobl agored i niwed

Gan weithio gyda'n partneriaid, gwnaethom gefnogi Bwrdd Iechyd Cwm Taf gyda datrysiad digidol i reoli'r rhaglenni brechu ac i wneud y defnydd gorau o'r brechlynnau trwy gais am apwyntiadau ar fyr rybudd. Roedd hyn yn golygu bod cymaint o'n trigolion â phosibl wedi derbyn eu brechlynnau wrth i'r broses o'u cyflwyno i grwpiau blaenoriaeth cenedlaethol barhau.

Roedd enghreifftiau o ddigideiddio yn y Cyngor yn cynnwys rhoi ffordd fwy cydgysylltiedig ar waith i fusnesau wneud cais a darparu tystiolaeth ar gyfer grantiau busnes Covid. Trwy roi'r ceisiadau a'r gofynion grant eraill ar-lein yn yr un broses, roeddem yn gallu gwneud penderfyniadau cyflymach a thaliadau cyflym i fusnesau RhCT. Gwnaethom ddelio â dros 10,000 o geisiadau grant a thalu oddeutu £66 miliwn o bunnau mewn grantiau.

Hefyd,

- aethom ymlaen â chynlluniau i ddigideiddio ein hamddiffynfeydd llifogydd fel y gallwn fonitro o bell ein hamddiffynfeydd llifogydd allweddol o'n hystafell reoli ganolog yn Nhŷ Elai.
- gwnaethom barhau i gyflwyno Wi-Fi am ddim gan ychwanegu canol trefi Porth, Tonypandy a Threorci at Aberdâr, Aberpennar a Glynrhedynog i gefnogi busnesau lleol ac annog pobl i ymweld pan oedd yn ddiogel gwneud hynny. Bydd Pontypridd yn fyw yn fuan.

Fel rhan o Brosiect Trawsnewid digidol 'Hwb' Llywodraeth Cymru, rydym yn sicrhau bod pob ysgol yn gallu cyflawni'r gofynion ar gyfer

sgiliau digidol sydd wrth wraidd y cwricwlwm newydd trwy osod systemau TG newydd yn eu lle. Yn ogystal, buom yn gweithio'n agos gydag ysgolion i ddarparu dros 5,500 o liniaduron, tabledi a mynediad Wi-Fi i ddysgwyr heb fynediad cartref yn ystod y pandemig.

Amlinellwyd ein gwaith i gadw gwasanaethau a busnes y Cyngor i fynd, ein dysgwyr yn dysgu a chefnogaeth i'n partneriaid ledled y rhanbarth mewn cyflwyniad i Gynghorwyr ym mis Mawrth 2021.

Roedd digideiddio yn allweddol i barhau i gyflenwi a hefyd gwella gwasanaethau yn ystod 2020/21 ac rydym yn adeiladu ar yr enillion a wnaethom yn ystod y flwyddyn i ddysgu a gwella ymhellach. Rydym yn gweithio ar Strategaeth Ddigidol ddiwygiedig, a fydd ar gael erbyn diwedd 2021.

Gellir gweld enghreifftiau eraill o’r ffyrdd y mae digideiddio yn helpu pobl a chymunedau yn ein gwerthusiadau manwl o BOBL, LLEOEDD a FFYNIANT.

**Masnacheiddio** fel bod y Cyngor yn cymryd mwy o gyfleoedd i weithredu fel busnes i ennill incwm yn hytrach na thorri cyllidebau**.**

Nodwyd ein dull lefel uchel a'n chwant am gyfleoedd masnachol mewn adroddiad i gyfarfod o'r Cyngor ar 3 Mawrth 2021. Mae ein dull yn cynnwys sut y byddwn yn hyfforddi ein staff, yn sicrhau'r gwerth gorau o ran cost ac ansawdd yn yr hyn yr ydym yn ei brynu, ac yn defnyddio ein hasedau i gynhyrchu incwm, megis rhentu ein hasedau i greu incwm a swyddi newydd.

Rydym hefyd yn parhau i fasnachu trwy ein cwmni sy'n eiddo llwyr i ni, sef Tŷ Amgen, gan geisio cyfleoedd i ymestyn gweithrediadau masnachu a chynhyrchu incwm ac elw i'r eithaf ac rydym yn gweithredu fel rhan o Gyd-fenter Redstart gyda Phen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful ar gyfer gwasanaethau peirianneg sifil/trefol.

Gellir gweld enghreifftiau eraill o fasnacheiddio yn ein gwerthusiadau manwl o FFYNIANT a LLEOEDD.

**Ymyrraeth ac Atal Cynnar** fel ein bod yn gwario mwy ar atal problemau a llai ar geisio eu datrys ar ôl iddynt ddigwydd.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n helpu pobl i osgoi problemau neu i'w hatal rhag gwaethygu. Fe welwch lawer o enghreifftiau trwy gydol yr adroddiad hwn. Er enghraifft, ar gyfer plant a theuluoedd, mae'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth yn sicrhau bod teuluoedd yn RhCT yn derbyn y gefnogaeth iawn ar yr amser iawn; i bobl ifanc, rydyn ni'n rhoi gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon a gweithgareddau eraill ar waith i'w hatal rhag cymryd rhan mewn trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; i'n pobl hŷn, rydyn ni'n darparu hyfforddiant yn ein Llyfrgelloedd sy'n eu helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am dechnoleg ac atal allgáu digidol. Rydym yn gwybod y gall pobl o bob oed brofi unigrwydd ac arwahanrwydd, felly mae gennym ystod o weithgareddau a chefnogaeth yn y gymuned a all helpu.

Yn ystod 2020/21, effeithiwyd ar y ffordd yr oeddem yn gallu cyflenwi'r gwasanaethau hyn oherwydd cyfyngiadau Covid-19 a'n gwaith i gadw pobl yn ddiogel ac atal yr haint rhag lledaenu. Yn 2021-

22, byddwn yn cyflymu ein gwaith i'r gwasanaethau hynny yr amharwyd arnynt mor ddrwg.

Gellir gweld enghreifftiau eraill o'n gwaith ymyrraeth ac atal cynnar yn ein gwerthusiadau manwl POBL a LLEOEDD.

**Annibyniaeth** fel bod ein trigolion agored i niwed yn parhau i fod cystal ag y gallant fod cyhyd ag y gallant.

Mae cefnogi ein trigolion hŷn, yn agored i niwed, neu sydd ag anableddau, i aros yn annibynnol a chael ansawdd bywyd da yn un o'n blaenoriaethau allweddol. Mae enghreifftiau o'r gwasanaethau a ddarparwn yn cynnwys darparu technoleg a fydd yn helpu i'w cadw'n ddiogel o ddydd i ddydd trwy ein Gwifren Achub Bywyd a Mwy, darparu cefnogaeth i'w helpu i ddychwelyd gartref yn ddiogel o'r ysbyty a darparu lleoedd diogel a modern y gallant fyw ynddynt, fel y gallant gynnal ansawdd bywyd da.

Yn ystod 2020/21, effeithiwyd ar lawer o'r gwasanaethau gan gyfyngiadau Covid-19, e.e. darparu cymhorthion ac offer a gwasanaethau synhwyraidd a gwasanaeth i gefnogi anghenion mwy cymhleth. Yn ystod 2021-22, byddwn yn cyflymu ein gwaith i'r gwasanaethau hynny yr amharwyd arnynt mor ddrwg.

Gellir gweld enghreifftiau eraill o'n gwaith ymyrraeth gynnar yn ein gwerthusiad manwl ar gyfer POBL.

**Trefniadaeth Effeithlon ac Effeithiol** fel ein bod yn herio popeth a wnawn i weld a allwn ei wneud yn well.

Mae’r rheidrwydd i weithio gartref gydag argaeledd offer TGCh priodol wedi parhau i yrru effeithlonrwydd, gan gynnwys lleihau amser teithio a chost ynni a ‘nwyddau traul’ yn ein hadeiladau. Bydd y wers yr ydym wedi’i dysgu a’r adborth gan ein staff, trigolion a busnesau yn ein helpu i siapio’r dyfodol wrth inni ddod allan yn fwy cyflawn o gyfyngiadau’r Llywodraeth.

Mae llawer o'n heffeithlonrwydd wedi cael ei yrru, a bydd yn parhau i gael ei yrru, gan ddigideiddio fel y nodir uchod, ac o fewn y Cyngor rydym hefyd yn parhau â'n gwaith i roi system AD a Chyflogres newydd iTrent ar waith a fydd yn gwneud y prosesau hyn yn ddi-dor, yn fwy effeithlon ac effeithiol, yn ogystal â lleihau gweinyddiaeth y gwahanol systemau cysylltiedig.

Gosododd y Cyngor ei Gyllideb Refeniw 2021/22 ar 10fed Mawrth 2021; ceir rhagor o wybodaeth yn Adran 10 – Gwneud y Gorau o’n Cyllideb.

Yn ystod 2020/21, gwnaethom hefyd barhau i wreiddio'r Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i mewn i waith a blaenoriaethau'r Cyngor. Mae’r Ddeddf yn golygu, yn ogystal â bod y Cyngor yn gwella ei wasanaethau’n barhaus, bod angen iddo hefyd gyflawni ‘Datblygu Cynaliadwy’ sy’n gwella llesiant Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol trigolion Rhondda Cynon Taf. Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn i ni “wneud y mwyaf o'n cyfraniadau” i’r saith Nod Llesiant cenedlaethol, y byddwch chi'n eu gweld trwy'r adroddiad hwn. Mae'r Ddeddf hon yn berthnasol i 44 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru gan gynnwys yr holl Gynghorau, Byrddau Iechyd, Gwasanaethau Tân ac Achub a Chyfoeth Naturiol Cymru. Gweler manylion pellach yn Adran 18 sy'n disgrifio'n fanylach ein dull o gyflenwi'r Ddeddf.

Dros y deunaw mis diwethaf, bu ein gwaith gyda phartneriaid yn arbennig o agos a chryf, wrth inni ymuno i gwrdd â'r heriau Iechyd, Cymdeithasol, Economaidd ac Amgylcheddol digynsail a grëwyd gan y llifogydd a phandemig Covid-19. Trwy gydol yr amser hwn, rydym wedi dysgu hyd yn oed mwy am yr hyn sydd gan bob un ohonom i'w gynnig a byddwn yn parhau i adeiladu ar y berthynas gref hon i barhau i wella'r gwasanaethau i'n trigolion, ein cymunedau a'n busnesau.

Wrth inni symud ymlaen â'n cynlluniau, byddwn yn parhau i gynnwys pobl a chymunedau, meddwl am effaith yr hyn a wnawn nawr ar bobl a chymunedau yn y dyfodol, cynllunio'n ofalus yr hyn a wnawn fel y gallwn weithio gydag eraill lle mae'n well i ni wneud hynny, a rhoi gwasanaethau ar waith a fydd yn helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod holl wasanaethau'r Cyngor yn parhau i wella mor gyflym ac mor llawn ag a ganiateir yn ddiogel, a'n bod yn parhau i fuddsoddi mewn datblygiadau mawr ledled y Fwrdeistref Sirol. Byddwn hefyd yn manteisio i'r eithaf ar y gwersi rydyn ni'n eu dysgu o ddelio â'r pandemig i gefnogi ein trigolion, ein cymunedau a'n busnesau lleol yn well. Trwy wneud hynny, byddwn yn cyflawni gweledigaeth RhCT ***"i fod y lle gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus***", trwy ein tair blaenoriaeth, **POBL, LLEOEDD** a **FFYNIANT**.

Er nad oes unrhyw amheuaeth ynghylch effaith sylweddol digwyddiadau'r 12 mis diwethaf, mae'r Cyngor yn parhau i ddilyn ei uchelgais i wneud gwahaniaeth i bawb sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â'r Fwrdeistref Sirol.

Mae adrannau nesaf yr adroddiad hwn yn nodi crynodeb o'r cynnydd a wnaed gennym dros y flwyddyn ddiwethaf a'n cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

## Mae POBL yn Rhondda Cynon Taf yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus

Rhoesom gynlluniau ar waith i helpu POBL i fod yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus oherwydd rydyn ni eisiau rhoi'r cyfle gorau i bobl o bob oed, gallu a chefndir i gael ansawdd bywyd da. Credwn y gallwn ni, trwy gadw'n iach ac yn egnïol a chymryd rhan yn ein cymunedau, helpu pobl i aros yn iach, a lle mae angen help ar bobl, mae angen i ni ei gwneud hi'n haws iddyn nhw ddod o hyd iddo. Dywedodd trigolion wrthym fod hyn yn bwysig iddyn nhw a'u teuluoedd.

Yn ystod 2020/21, profwyd ein hymrwymiad i gadw pobl yn Rhondda Cynon Taf yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus mewn ffyrdd na allem fod wedi eu dychmygu. Yn gyntaf, drwy'r llifogydd yn gynnar yn 2020 a ddilynwyd yn agos gan effeithiau pandemig Covid-19. Roedd ein cynlluniau a'n ffocws ar gadw ein holl drigolion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn ddiogel ac yn iach, yn gorfforol ac yn feddyliol. Roedd angen i ni hefyd roi'r wybodaeth iawn i bobl ar yr adeg iawn wrth i reolau Covid newid, a gweithio gyda phartneriaid i gymryd camau i atal y feirws rhag lledaenu. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu trefniadau newydd i Dracio ac Olrhain pobl a oedd naill ai wedi dal y feirws, neu a oedd mewn perygl o'i ddal. Gweithiodd ein staff gofal mewn amgylchiadau heriol iawn, gyda rhai yn symud allan o'u cartrefi teuluol i gwrdd â'r newidiadau niferus a chyflym a gafwyd yn sgil y gwahanol gyfnodau clo a chyfnodau atal byr, er mwyn diogelu pobl agored i niwed o bob oed. O ofal plant i'n Hybiau Cymunedol, darparu gofal maeth, gwaith cymdeithasol a chefnogaeth i deuluoedd a gofalu am bobl hŷn mewn gofal preswyl ac yn eu cartrefi eu hunain, parhaodd y gwasanaethau i ofalu am y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymunedau, a'u diogelu.

Yn ystod rhan gynnar y pandemig, cysylltwyd â dros 11,000 o drigolion a oedd mewn perygl o gael Covid i wirio eu bod yn ddiogel ac yn iach a'u bod yn gallu trefnu unrhyw help yr oedd ei angen arnynt yn ddiogel gan deulu a ffrindiau. I'r rhai oedd angen help, parhaodd pobl yn RhCT i ddangos yr ysbryd cymunedol y maent yn enwog amdano, a chawsom ein gorlwytho â cheisiadau i wirfoddoli gan drigolion. Daeth gwirfoddolwyr yn uniongyrchol i'r Cyngor trwy Gwirfoddoli Cymru ac Interlink a thrwy ein staff. Gan weithio drwy saith Hwb Gwytnwch Cymunedol ledled y Fwrdeistref Sirol, bu gwirfoddolwyr a staff yn helpu 3,393 o'n trigolion gyda siopa, dosbarthu parseli bwyd a phresgripsiynau, cyngor cyflogaeth a budd-daliadau a galwadau ffôn cyfeillgar, a hyd yn oed cerdded cŵn. Roedd yr help hwn yn hanfodol i gadw trigolion yn ddiogel a chawsom lythyrau gan nifer yn dangos eu gwerthfawrogiad o'r help a gawsant.

Gwnaethom gryfhau ein partneriaethau a gweithio'n agosach nag erioed gyda'r Bwrdd Iechyd, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol cyfagos, Heddlu De Cymru, y trydydd sector a phartneriaid eraill i ddod o hyd i bob ffordd bosibl y gallem wneud y defnydd gorau o'n holl adnoddau. Roedd hyn yn cynnwys darparu cymorth ymarferol i drigolion oedd yn gwarchod a banciau bwyd, troi un o'n Canolfannau Hamdden yn Ganolfan Dosbarthu Bwyd, gweinyddu grantiau bwyd i grwpiau cymunedol a sefydlu Canolfannau Profion Covid a Brechlyn symudol a chymunedol.

Gwelwch ddisgrifiad o'r nifer o ffyrdd y buom yn gweithio mewn cymunedau yn yr adran hon a thrwy gydol yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, wrth i'r pandemig barhau, profodd trigolion a chymunedau RhCT nifer sylweddol o farwolaethau yn gysylltiedig â Covid. Yn anffodus, roedd y niferoedd yn gyson ymhlith yr uchaf yng Nghymru a'r DU.

Er y gall y rhesymau dros y cyfraddau marwolaeth uchel fod yn gymhleth ac yn amrywiol, yr hyn a wyddom yw bod pobl â chyflyrau iechyd sylfaenol mewn mwy o berygl o effeithiau'r feirws. Rydym hefyd yn gwybod o ddata Llywodraeth Cymru bod bron i hanner poblogaeth RhCT (47%) wedi nodi

o leiaf un salwch hirsefydlog yn 2018/19 a 2019/20, bod 35% â rhywfaint o gyfyngiad oherwydd salwch hirsefydlog, a bod gan RhCT lefelau afiechydon system resbiradol uwch na Chymru ar gyfartaledd; cwynion cyhyrysgerbydol a chlefydau Endocrin a metabolaidd, sy'n cynnwys diabetes a gordewdra.

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dweud wrthym fod poblogaeth RhCT o 241,873 (2020) wedi cynyddu o 231,937 yn 2001, sef 4.28%. Ar hyn o bryd, mae bron i 20% o'n poblogaeth yn hŷn na 65 oed. Gan fod pobl yn byw yn hirach, mae cyfran y bobl hŷn yn RhCT wedi tyfu 23.7% o 37,807 yn 2001 i 46,755 yn 2020. Rydym am helpu ein preswylwyr o bob oed i aros cystal ag y gallant am gyhyd ag y gallant. Fodd bynnag, bydd cyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran mewn mwy o bobl hŷn yn golygu cynnydd yn yr angen am iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys pobl sy'n byw gyda dementia, y disgwylir i'r nifer godi 64% erbyn 2030.

Gwyddom fod gennym yn RhCT niferoedd uchel o drigolion bregus o bob oed yn ogystal â chymunedau difreintiedig. Yn 2020/21 roedd 694 o blant yng ngofal y Cyngor gyda'r nifer fwyaf yn fechgyn a merched rhwng 10 a 15 oed. Rydym hefyd yn gwybod bod angen i ni gynllunio ar gyfer adferiad ôl-Covid gydag arian ansicr dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Byddwn yn cymryd y gwersi rydyn ni wedi'u dysgu o'r flwyddyn ddiwethaf ac yn cadw'r gorau ohonynt, gan gynnwys ein cysylltiadau cryfach â thrigolion, cymunedau a'n partneriaid. Bydd disgwyliadau a gofynion ein trigolion yn uwch nag erioed.

Y camau rydyn ni'n eu cymryd i helpu POBL i fod yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus yw:

- Cefnogi ein trigolion hŷn, y rhai sy'n agored i niwed neu sydd ag anableddau, i aros yn annibynnol a chael ansawdd bywyd da.
- Annog trigolion i fyw ffyrdd egnïol ac iach a chynnal eu llesiant meddyliol.
- Integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a darparu cefnogaeth i'r rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl ac anghenion cymhleth.
- Gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc a sicrhau bod anghenion plant yn cael eu hystyried ym mhopeth a wnawn.

**POBL**

**Dywed y data diweddaraf sydd ar gael wrthym….**

**Poblogaeth –** Yr amcangyfrif diweddaraf yw 241,873, cynnydd o 0.25% ar 2019.

| | | |
|---|---|---|
| 0-15 oed 18.6% | 16-64 62% | ○ 65+ 19.3% |

**Cymuned a Chyfartaledd**

- Mae 24% o blant RhCT yn byw mewn tlodi. Fodd bynnag, pan ddidynnir cost tai o incwm cartrefi, mae'r ffigur hwn yn cynyddu i 32% - *Ffynhonnell: Dileu Tlodi Plant.*
- Ar 31 Mawrth 2021, roedd
    - 717 o blant yng ngofal y Cyngor
    - 464 o blant mewn perygl sylweddol o niwed ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

**Iechyd Corfforol**

- Y disgwyliad oes ar gyfartaledd adeg genedigaeth yn RhCT yw 77.53 ar gyfer dynion ac 81.1 ar gyfer menywod (*2016-2018*) - *Ffynhonnell: Proffil Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru*.
- Disgwyliad oes iach ar gyfartaledd adeg genedigaeth yn RhCT yw 61.7 ar gyfer dynion a 64.2 ar gyfer menywod (*2016-18) - Ffynhonnell: Proffil Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru*.
- Ar gyfartaledd, mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd llai difreintiedig yn RhCT yn byw yn hirach na'r rhai o ardaloedd mwy difreintiedig. Gall dynion ddisgwyl byw 6.7 mlynedd yn hwy, a menywod 4.3 blwyddyn. Fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaeth hwn a ddisgrifir fel 'bwlch anghydraddoldeb' mor fawr ag mewn rhai rhannau eraill o Gymru - *Ffynhonnell: Proffil Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru*.
- Nododd 47% o oedolion yn RhCT o leiaf un cyflwr iechyd hirsefydlog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. *Ffynhonnell: Stats Cymru*
- Mae gan RhCT y 3edd gyfradd uchaf yng Nghymru o bobl sy'n Glinigol Agored Iawn i Niwed (CEV), 46.3 fesul 1,000 o'r boblogaeth.
- Mae trigolion RhCT sy'n nodi bod eu hiechyd
    - yn "ddrwg neu ddrwg iawn" yr ail uchaf yng Nghymru
    - yn "dda neu dda iawn" y trydydd isaf yng Nghymru.
- Cymerodd 26% o drigolion RhCT ran mewn gweithgareddau chwaraeon 3 gwaith neu fwy yr wythnos.
- Dangosodd 12% o oedolion yn RhCT lai na 2 ymddygiad ffordd iach o fyw.
- Dynion, oedolion canol oed, a'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig oedd fwyaf tebygol o ddangos llai na dau o'r ymddygiadau iach.

**Iechyd a Llesiant Meddyliol**

- Mae 13% o bobl yn RhCT yn unig. *Ffynhonnell: Stats Cymru*
- 'Sgorau' RhCT ym Mynegai Cymru yn mesur agweddau ar lesiant Llefydd Llewyrchus Cymru h.y.
    - 4.47 ar gyfer Ynysu Cymdeithasol, yr un fath ag yn 2018.
    - 3.58 ar gyfer Iechyd Meddyliol a Chorfforol, ychydig yn uwch na 3.36 yn 2018. *10 yw'r gorau posibl a 0 yw'r gwaethaf*.
- Mae gan Cwm Taf y gyfradd ail uchaf o farwolaethau penodol i alcohol yng Nghymru 2016-18 - *Ffynhonnell: Y proffil blynyddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau ICC 2018-19 (Ffynhonnell: Adroddiad Cloddio Data).*

**Diwylliant**

- Cytunodd 48% o drigolion RhCT eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch - *Ffynhonnell: dangosydd WFG.*
- Mynychodd 64% o drigolion RhCT ddigwyddiadau celfyddydol, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. *Ffynhonnell: Stats Cymru*

**Edrych Ymlaen……**

**Erbyn 2043, disgwylir i'r boblogaeth gynyddu fel a ganlyn:**

- poblogaeth Cymru i godi 4.6% i 3.31 Miliwn - *Ffynhonnell: Stats Cymru*
- poblogaeth RhCT i godi 4.7% i 254,145 - *Ffynhonnell: Stats Cymru*
- disgwylir i drigolion RhCT dros 65 oed gynyddu 18.2% i 57,429. Mae hyn yn golygu y bydd % y boblogaeth sydd dros 65 oed yn codi o 19.4% i 22.6% - *Ffynhonnell: Stats Cymru*

**Iechyd a Llesiant**

- Rhagwelir y bydd disgwyliad oes o enedigaeth yng Nghymru yn codi:

| | 2020 | 2029 |
|---|---|---|
| Gwrywod | 88 | 89.1 |
| Benywod | 90.6 | 91.5 |

*Ffynhonnell: Proffil Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru*

- Erbyn 2025, bydd 68.7% o oedolion Cwm Taf dros eu pwysau neu'n ordew - *Ffynhonnell: Proffil Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru*
- Erbyn 2035, bydd nifer yr oedolion ag anhwylder iechyd meddwl cyffredin yng Nghymru yn cynyddu o 7.2% i 447,159 ar waelodlin 2017, tra bydd nifer y bobl 65+ oed sy'n byw gyda dementia yn cynyddu o 64% i 72,769 yn yr un cyfnod - *Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru Adroddiad Dyfodol i Gymru tudalen 33*
- Erbyn 2035, bydd cynnydd hefyd yn nifer yr oedolion â chyflyrau cronig yng Nghymru, gan gynnwys cynnydd o 18.2% o bobl â diabetes i 220,376, cynnydd o 27% o bobl â chyflyrau ar y galon i 321,986 a chynnydd o 29.5% yn y bobl sy'n dioddef strôc i 90,214 - *Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru Adroddiad Dyfodol i Gymru tudalen 33*

**Datganiad Cynnydd Cyffredinol**

**Yn 2020, dywedasom y byddem yn parhau â'n gwaith i gefnogi POBL i fod yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus. Ar y cyfan, er gwaethaf yr amgylchiadau heriol a oedd yn wynebu ein cleientiaid a'n staff a chyflwyno gwasanaeth newydd yn benodol i feirysau, Tracio ac Olrhain, gwnaethom gynnydd da fel Cyngor ac fel rhan o bartneriaethau ehangach. Newidiwyd ein ffocws i gefnogi ein trigolion a'n teuluoedd mwyaf agored i niwed a lle roeddem yn gallu, parhawyd â'r gwaith adeiladu a gynlluniwyd ar lety preswyl newydd. Rydym yn gwybod bod llawer i'w wneud i gadw ein trigolion o bob oed a chefndir yn ddiogel ac yn iach, yn enwedig y bobl hynny y mae effaith y pandemig Covid wedi effeithio arnynt.**

Ochr yn ochr â'n gwaith o gyflenwi ein blaenoriaeth POBL, rydym yn adeiladu'n barhaus ar ein profiad o wneud pethau'n wahanol, yr hyn sydd wedi gweithio a'r hyn y mae angen i ni ei wneud yn

well. Rydym hefyd yn cynyddu ein dealltwriaeth o effaith y newidiadau a wnawn ar bobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf a Rhanbarth ehangach Cwm Taf.

Rydyn ni'n gweithio fel rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf (PSB) i gyflenwi'r newidiadau a nodir yng Nghynllun Llesiant Cwm Taf. Yn ystod y pandemig, ni ellir tanbrisio pwysigrwydd a gwerth gwirfoddolwyr a'n partneriaid yn y trydydd sector gan eu bod yn darparu achubiaeth i lawer o'n trigolion sy'n gwarchod, yn agored i niwed neu'n unig ac yn ofnus. Byddwn yn adeiladu ar y berthynas gryfach hon i barhau i gefnogi cymunedau cryf.

Rydyn ni'n gweithio hefyd fel rhan o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg (RPB) sy'n ceisio gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl trwy eu cynnwys, gwrando arnynt ac yna gweithredu gyda'n gilydd i drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Y blaenoriaethau i'r RPB yw pobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth; pobl â phroblemau iechyd meddwl; plant a phobl ifanc; gofalwyr di-dâl; pobl hŷn a dementia, anableddau corfforol a nam ar y synhwyrau. Mae Cadw'n Iach Gartref yn un o brosiectau mwy adnabyddus yr RPB. Y tu allan i'r trefniadau hyn, mae'r tri chyngor, y BIP ac ICC wedi dod ynghyd i greu ymateb ar y cyd i'r argyfwng iechyd a grëwyd gan y pandemig sydd wedi cynnwys y gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu (TTP). Mae rhaglen waith y Bwrdd yn cynnwys diweddaru'r hyn a wyddom am anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y bobl sy'n byw yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg drwy Asesiad Anghenion y Boblogaeth.

Mae ein gwaith o fewn y flaenoriaeth Pobl yn cael ei oruchwylio gan y Cabinet, Pwyllgorau Craffu perthnasol a, lle bo'n briodol, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg, Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf. Mae rhai o'r gwasanaethau sy'n cyflenwi'r Flaenoriaeth hon hefyd wedi'u harchwilio gan Archwilwyr annibynnol h.y. Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Gallwch ddarganfod mwy am eu canfyddiadau ar ein gwefan.

**Gallwch weld mwy o fanylion am ein cynnydd yn erbyn yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni yn 2020/21 yn ein Gwerthusiad Perfformiad POBL.**

**Yn 2020, dywedasom y buasem yn:**

**Cefnogi ein trigolion sy'n hŷn, yn agored i niwed neu sydd ag anableddau, i aros yn annibynnol a chael ansawdd bywyd da**

**Ymhlith pethau eraill, gwnaethom y canlynol:**

- gweithio gyda phartneriaid i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hadnoddau i helpu pobl i fynd gartref o'r ysbyty yn gyflymach ac yn fwy diogel a'u cefnogi yn y gymuned. Roedd hyn yn arbennig o bwysig yn ystod Gaeaf 2020/21.
- ailddechrau Cadw'n Iach Gartref (cam 2) sy'n rhoi mynediad i feddygon teulu, Nyrsys Ardal a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru at asesiad ac ymateb cyflym a gwasanaethau ataliol ac adferol 7 diwrnod yr wythnos ac sy'n osgoi unrhyw drosglwyddiad neu dderbyniadau diangen i ysbytai.
- parhau i weithio mewn partneriaeth â Linc Cymru i symud ymlaen Cwrt yr Orsaf , ein cynllun tai gofal ychwanegol newydd ym Mhontypridd a fydd yn cael ei gwblhau yn ddiweddarach eleni. Cytunwyd hefyd ar gynigion ar gyfer cynllun tai Gofal Ychwanegol newydd fel rhan o ailddatblygiad Dan y Mynydd yn y Porth.
- gweithio gyda darparwyr tai i gwblhau llety Tai â Chymorth modern gan gynnwys
    - Rhodfa'r Goron, Treorci yn Ionawr 2021, gyda 12 fflat 1 ystafell wely
    - Adeiladau Rhydychen Aberpennar yn Ebrill 2021, gydag 8 fflat o safon uchel

  Bydd y llety hwn yn rhoi mynediad i oedolion ag anableddau dysgu i'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i fyw bywyd annibynnol.
- helpu Cartrefi Gofal i sefydlu lefelau uchel o reoli haint, i gadw eu preswylwyr yn ddiogel a chaniatáu ymweliadau diogel gan deuluoedd pan fydd rheolau Llywodraeth Cymru yn caniatáu. *Arweiniodd cyfyngiadau Covid, achosion o Covid a chyfyngiadau Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) at lai o argaeledd lleoliadau cartrefi gofal, yn enwedig ar gyfer gofal nyrsio a dementia. O ganlyniad, roedd rhai pobl yn yr ysbyty am fwy o amser nag arfer.*
- ailagor Y Gwasanaethau Offer Cymunedol i ateb y galw cynyddol am offer cymunedol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.
- lansio'r Gwasanaeth Gwifren Achub Bywyd a Mwy RhCT, gan helpu pobl i aros yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi trwy roi sicrwydd iddynt hwy a'u teuluoedd ar gyffyrddiad botwm.
- adfer y gwasanaeth llyfrgell 'Yn eich Cartref' ar gyfer trigolion bregus, fel bod rhywun yn danfon eu llyfrau yn ddiogel at eu drws.

**Mae ein cynlluniau ar gyfer 2021- 22 yn cynnwys**

- Agor Cynllun Tai Gofal Ychwanegol 'Cwrt yr Orsaf' ym Mhontypridd.
- Dechrau gweithio ar y Tai Gofal Ychwanegol newydd yn y Porth, yn amodol ar ganiatâd cynllunio.
- Cwblhau'r cynlluniau ar gyfer y cynllun Gofal Ychwanegol newydd yn Nhreorci.
- Dyrannu fflatiau i breswylwyr y Cynllun Tai â Chymorth Adeiladau Rhydychen newydd.
- Agor y Cynllun Tai â Chymorth Elm Road yn Llanhari.
- Symud ymlaen â'r cynlluniau ar gyfer y newidiadau i'n cartrefi Gofal Preswyl ochr yn ochr â'r Tai Gofal Ychwanegol newydd fel eu bod gyda'i gilydd yn gallu diwallu anghenion ein preswylwyr hŷn yn well.
- Parhau i ddefnyddio'r dechnoleg newydd a roddwyd ar waith gennym yn ystod y pandemig ar gyfer pobl a theuluoedd a gweld sut y gall eraill elwa o hyn yn y dyfodol, er enghraifft ymweliadau rhithwir i sicrhau y gall trigolion, lle bo hynny'n bosibl, aros yn gysylltiedig â phreswylwyr y cartrefi gofal.

- Darganfod mwy am anghenion gofalwyr fel y gellir eu helpu i ofalu am eu hanwyliaid gartref.
- Darparu cefnogaeth ac offer sy'n caniatáu i bobl aros yn fwy annibynnol gartref gan gynnwys eu helpu i reoli eu trefniadau gofal eu hunain trwy daliadau uniongyrchol.
- Darparu gwasanaethau allgymorth yn y gymuned i drigolion a fyddai yn draddodiadol wedi mynychu gwasanaethau dydd.
- Gwneud yn siŵr bod ein holl staff wedi'u hyfforddi i ganolbwyntio ar gryfderau a thalentau pobl fel y gallwn ni helpu'n well gyda'r pethau sy'n bwysig i'w llesiant a'r hyn maen nhw eisiau ei gyflawni.

**Byddwn hefyd yn dangos ein cynnydd drwy…**

- Nifer y pecynnau ailalluogi sydd yn eu lle i wella annibyniaeth a lleihau'r angen am gefnogaeth.
- Nifer y gofalwyr sy'n derbyn ein cefnogaeth i'w helpu i ofalu am eu hanwyliaid.
- Pa mor ddiogel a hapus y mae'r preswylwyr yn ein cynlluniau tai newydd yn dweud wrthym maent yn teimlo.

**<u>Annog preswylwyr i fyw mewn ffyrdd egnïol ac iach a chynnal eu llesiant meddyliol</u>**

**Ymhlith pethau eraill, gwnaethom:**

- ddarparu ystod o weithdai ymarfer am ddim ar-lein i'w defnyddio gartref ac yn yr ardd trwy ein Ap Hamdden am Oes, llwybrau rhedeg a beicio diogel o fewn canllawiau Llywodraeth Cymru, ynghyd â syniadau ac ysbrydoliaeth ar gyfer sesiynau ymarfer i'r teulu.
- cyflwyno dosbarthiadau awyr agored, gan wneud defnydd da o'n parciau a'n caeau 3G pan fydd amodau Covid yn caniatáu.
- hyrwyddo "ymarfer corff hanfodol" ar gyfer buddion iechyd corfforol a meddyliol i'n trigolion a'n cymunedau e.e. Her Cerdded, a defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol i ddathlu'r ffyrdd gwych mae ein trigolion yn cadw eu hunain yn heini ac yn egnïol.

**Mae ein cynlluniau ar gyfer 2021 – 22 yn cynnwys**

- Sefydlu gweithgareddau hamdden a ffitrwydd yn ddiogel yn ein canolfannau.
- Agor Cyfleusterau Hamdden a Ffitrwydd newydd yn Llys Cadwyn, Pontypridd ac ailagor Pwll Nofio Hawthorn.
- Darparu mwy a gwell cyfleoedd i bobl wneud ymarfer corff a bod yn egnïol yn yr awyr agored.
- Ffrydio'n fyw nifer fwy o ddosbarthiadau i bobl sy'n dewis gwneud ymarfer corff gartref.
- Datblygu gweithgareddau ar gyfer pobl sy'n profi Covid hir a fydd yn eu helpu i wella eu hiechyd a'u ffitrwydd.
- Lefelau cynyddol o ymgysylltiad a chyfranogiad yn y celfyddydau a diwylliant, trwy ddarparu digwyddiadau personol ac ar-lein.
- Parhau i ddatblygu ein Hybiau Cymunedol fel lleoedd y gall pobl gwrdd â'i gilydd a chymdeithasu, gan gryfhau'r berthynas â thrigolion a grwpiau cymunedol a darganfod beth sy'n bwysig i'n trigolion.

**Byddwn hefyd yn dangos ein cynnydd drwy…**

- Nifer y cyfleoedd rydyn ni'n eu darparu i wneud ymarfer corff yn yr awyr agored a faint o bobl sy'n cymryd rhan.
- Y cyfleoedd rydyn ni'n eu darparu i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol a faint o bobl sy'n cymryd rhan.
- Yr hyn mae trigolion yn ei ddweud wrthym sy'n bwysig iddyn nhw.
- Beth yw barn pobl am ein Hybiau Cymunedol.
- Beth mae pobl yn ei feddwl o'n cyfleusterau hamdden a ffitrwydd dan do ac awyr agored newydd e.e. yn Llys Cadwyn a Hawthorn

**<u>Integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a darparu cefnogaeth i'r rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl ac anghenion cymhleth</u>**

**Ymhlith pethau eraill, gwnaethom:**

Sefydlu Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau i RhCT, a ehangwyd yn ddiweddarach i gynnwys Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg i gyd. Roedd y gwasanaeth hwn yn allweddol i amddiffyn cymunedau trwy nodi achosion o Covid a'r cysylltiadau â phobl a allai fod wedi bod mewn perygl o drosglwyddo'r haint. Er mwyn rheoli cyfradd uchel yr haint ar draws RhCT, heriodd a chymhwysodd tîm iechyd cyhoeddus y Cyngor ganllawiau Llywodraeth Cymru yn drylwyr, gan gynghori trigolion, lleoliadau gofal, ysgolion a busnesau ynghylch sut i leihau'r risg o haint. Buont hefyd yn gweithio ochr yn ochr â Heddlu De Cymru lle roedd angen gorfodi'r rheolau hyn.

**Tu ôl i'r llenni**
buom yn gweithio gyda 115 o ysgolion ar draws RhCT i wella'r ffordd yr oedd gwybodaeth gyswllt ar gyfer rhieni a gofalwyr ar gael i Dimau Tracio ac Olrhain. Roedd y system newydd, fwy effeithlon hon yn caniatáu i dimau Tracio ac Olrhain gysylltu â rhieni yn gyflymach ac yn haws, a chadw haint Covid rhag lledaenu mewn ysgolion dan reolaeth

**Mae ein cynlluniau ar gyfer 2021 – 22 yn cynnwys**

- Parhau i helpu i gadw ein trigolion yn ddiogel rhag Covid trwy ddarparu cefnogaeth Tracio ac Olrhain a helpu gyda phrofion cymunedol ledled y Fwrdeistref Sirol a sicrhau cadw pellter cymdeithasol yng Nghanol ein Trefi.
- Parhau i ddod o hyd i ffyrdd newydd a gwell o gael trigolion gartref yn ddiogel o'r ysbyty gyda'r gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt yn y cartref.
- Gweithio gydag iechyd i sicrhau bod gofal diwedd oes mewn cymunedau yn diwallu anghenion pobl a theuluoedd.
- Parhau i gefnogi pobl trwy weithgareddau presgripsiynu cymdeithasol yn y gymuned gan gynnwys dosbarthiadau ymarfer corff, dosbarthiadau Addysg Oedolion, Dydd Gwener Digidol a chlybiau darllen Llyfrgell.

**Byddwn hefyd yn dangos ein cynnydd drwy…**

- Barhau i weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i leihau oedi wrth i bobl gael eu rhyddhau o'r ysbyty.
- Nifer yr achosion a'r cysylltiadau cadarnhaol a ddilynwyd yn llwyddiannus.
- Nifer y bobl sy'n mynychu dosbarthiadau addysg oedolion, dydd Gwener digidol, clybiau darllen llyfrgelloedd, ac ati.

**Gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc a sicrhau bod anghenion plant yn cael eu hystyried ym mhopeth a wnawn**

**Ymhlith pethau eraill, gwnaethom:**

- roi 25 o hybiau gofal plant brys yn eu lle ar draws RhCT fel bod plant agored i niwed yn gallu parhau i ddysgu'n ddiogel. Roedd plant cyn-ysgol â'r anghenion cymorth mwyaf hefyd yn derbyn gofal plant dyddiol yn yr hybiau hyn.
- gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod trefniadau diogelu cryf yn parhau yn eu lle i blant ac oedolion oedd mewn perygl.
- parhau i amddiffyn y plant hynny oedd mewn perygl o niwed. Defnyddiwyd technoleg i ddarparu gwasanaethau statudol ac ymwelwyd yn ddiogel â'r rhai oedd fwyaf mewn perygl.
- agor cartref preswyl newydd, 'Carn Igli', Aberdâr ar gyfer plant rhwng 8 a 18 ag anghenion cymhleth na allant aros gyda'u teuluoedd.
- ffrydio dros 250 o weithgareddau 'rhithwir' i bobl ifanc, cymysgedd o sesiynau hwyl a gwybodaeth e.e. Iechyd Rhywiol. Fe wnaethom hefyd barhau i gefnogi pobl ifanc, gan gynnwys gyda'u hiechyd meddwl, trwy WhatsApp, galwadau ffôn a Zoom, a lle bo angen ac yn ddiogel mewn trafodaethau wyneb yn wyneb. Pan oeddem yn gallu, gwnaethom ailgychwyn ein gwaith ar y stryd ac yn ystod yr Hydref gwnaethom gysylltu â bron i 3,000 o bobl ifanc ar draws RhCT. Roedd rhai o'n pobl ifanc a oedd angen gweithgareddau a 'rhywbeth i'w wneud' yn gallu cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol fel y prosiect 'Mainc Ddigidol' ym Mhontypridd.

**Niferoedd Covid**

**Olrhain Cysylltiadau yn RhCT**
Mehefin 2020 - Mawrth 2021
Achosion o Covid - 20,686
Yn arwain at 50,000 o gysylltiadau

**Ymchwiliwyd**
365 clwstwr o haint Covid mewn lletygarwch, lleoliadau gofal, gweithleoedd a'r sector gwasanaeth.

**Cyflwynwyd**
89 o hysbysiadau gwella adeiladau.
18 rhybudd cau i fusnesau a arolygwyd a oedd yn torri cyfyngiadau Covid.

**Olrhain Cysylltiadau yng Nghwm Taf Morgannwg**
1 Medi 2020 - 31 Mawrth 2021
Achosion o Covid - 39,525
Yn arwain at 93,669 o gysylltiadau

**Ysgolion Cwm Taf Morgannwg**
16 Medi 2020 - 31 Mawrth 2021
Adroddwyd am 2,795 o achosion ond cadwyd clystyrau o haint dan reolaeth trwy Olrhain Cysylltiadau.

**Mae ein cynlluniau ar gyfer 2021- 22 yn cynnwys**

- Gweithio yn gynharach gyda theuluoedd sy'n profi anawsterau, fel bod ganddyn nhw'r gefnogaeth sydd ei hangen i aros gyda'i gilydd.
- Darparu mwy a gwell gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar gyfer:
  - teuluoedd trwy lansio gwefan Teuluoedd RhCT newydd, a
  - phobl ifanc drwy Ap newydd.
- Gweithio gyda phobl ifanc i helpu i ddeall a llunio cynllun i'w cynnwys mewn chwaraeon, gweithgareddau diwylliannol a gweithgareddau eraill, a'u cadw draw oddi wrth ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad troseddol ieuenctid.
- Darparu hwyl a gweithgareddau yn ystod gwyliau'r ysgol mewn 15 o'n hysgolion.
- Sicrhau y gellir gofalu am y plant hynny na allant aros gyda'u teuluoedd yn nes gartref.
- Gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn ein gofal yn cael gwrandawiad ac y gellir defnyddio eu profiadau i ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol.
- Gwneud yn siŵr bod y plant sy'n gadael ein gofal yn cael y gefnogaeth iawn e.e. dod o hyd i'r tai iawn, i'w cefnogi i gyflawni eu potensial.

- Gwneud yn siŵr bod pawb, waeth ble maen nhw'n byw, yn gallu cyrchu cefnogaeth Blynyddoedd Cynnar e.e. cefnogaeth rhianta, cefnogaeth iaith gynnar a mynediad rheolaidd at ymwelwyr iechyd.

**Byddwn hefyd yn dangos ein cynnydd drwy…**

- Nifer y teuluoedd sydd â mwy o wytnwch ar ôl cwblhau ymyrraeth gyda'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth.
- Cefnogi teuluoedd cyn gynted â phosibl fel bod llai o blant yn derbyn gofal.
- Nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau gwyliau haf.
- Nifer y bobl ifanc sy'n gadael ein gofal sydd mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

| Ffyniannus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog a'r Iaith Gymraeg | Yn gyfrifol yn fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Gallwch weld mwy o fanylion ynglŷn â sut y byddwn yn parhau â'n gwaith i helpu POBL yn Rhondda Cynon Taf 'i fod yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus' yn ein Cynllun POBL 2021-22.**

## LLEOEDD lle mae pobl yn falch o fyw, gweithio a chwarae.

Rydym yn gwybod bod cael amgylchedd glân, dymunol sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn bwysig i drigolion. Mae cael casgliadau ailgylchu a gwastraff effeithlon, mannau gwyrdd croesawgar, strydoedd glân a ffyrdd sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, yn rhai o'r dulliau y gallwn eu defnyddio i wneud bywydau beunyddiol trigolion yn fwy dymunol, yn ogystal ag i'n hymwelwyr sy'n dod i fwynhau popeth sydd gan Rhondda Cynon Taf i'w gynnig . Fodd bynnag, ein her fwyaf fydd chwarae ein rhan mewn ymdrin â Newid yn yr Hinsawdd. Rydym wedi gosod nod i ni'n hunain o fod yn Gyngor Carbon Niwtral erbyn 2030, a gwneud popeth o fewn ein gallu fel bod y Fwrdeistref Sirol gyfan mor agos â phosibl at Garbon Niwtral erbyn 2030; mae hyn yn cynnwys gwella trafnidiaeth gyhoeddus a chynhyrchu ein hynni ein hunain o ffynonellau naturiol ac o wastraff.

Yn ystod 2020/21, ein heriau uniongyrchol mwyaf oedd delio â'r dinistr a achoswyd gan lifogydd Ciara, Dennis a Jorge, a gafodd effeithiau mor ddinistriol ar ein trigolion, cartrefi, cymunedau a busnesau, tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau yn ystod pandemig Covid-19.

Yn sgil y gwaith a ddeilliodd o'r llifogydd a ddaeth â'r fath ddinistr i fywydau a chartrefi ein trigolion, bu'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid a chymunedau i ddarparu cymorth. Roedd y cymorth hwn yn amrywio o ddosbarthu bwyd, dillad, eitemau cartref, helpu pobl i glirio a glanhau eu cartrefi, i ddarparu cymorth ariannol a llety dros dro brys i'r bobl yr effeithiwyd arnynt, gyda Pentre ymhlith yr ardaloedd a gafodd eu taro waethaf. Fe wnaeth y llifogydd hefyd achosi difrod i bontydd, waliau afonydd, cylfatiau, ffyrdd a pharciau ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys y Lido, a ailagorwyd yn ddiweddar. Mae'r atgyweiriadau i'r 'asedau' hyn wedi'u cwblhau neu ar y gweill. Cynyddodd y difrod hefyd y risg o dirlithriadau ac ar Domen Tylorstown, rhwystrwyd dyffryn yr afon gan dros 60,000 tunnell o ddeunydd oddi ar ochr y bryn, difrodwyd carthffos fudr, a gorchuddiwyd dyfrnod a llwybr beicio. Ceir rhagor o wybodaeth isod am sut mae'r gwaith adfer yn dod yn ei flaen. Mae rheoli risg llifogydd yn parhau i fod yn un o'n blaenoriaethau allweddol, ac rydym yn gwella'r camau a gymerwn fel Cyngor a hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru, i amddiffyn ein cymunedau yn well. Gallwch weld adolygiad o ymateb y Cyngor i Storm Dennis yma.

Her amlwg arall oedd ymddangosiad Covid-19 tra'r oeddem yn delio â chanlyniadau dinistriol y llifogydd. Fodd bynnag, hyd yn oed yn ystod y gwaethaf o'r cyfyngiadau, trwy sicrhau bod ein staff yn gallu gweithio'n ddiogel, roeddem yn gallu parhau â gwasanaethau hanfodol e.e. casglu gwastraff ac ailgylchu a gwneud gwelliannau i'n ffyrdd, pontydd a phalmentydd. Roedd hyn hefyd yn cynnwys cadw ein Canolfannau Ailgylchu Cymunedol ar agor pan oedd yn ddiogel gwneud hynny, a hefyd erlyn achosion tipio anghyfreithlon. Serch hynny, effeithiwyd ar wasanaethau eraill, e.e. y rhai oedd yn helpu i gadw pobl yn ddiogel ac yn egnïol, gan gyfyngiadau'r cyfnodau clo cenedlaethol a'r 'cyfnod atal byr'. Roedd rhaid i'n gwasanaethau sy'n cefnogi pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau a'u teuluoedd a hefyd y bobl hynny sy'n profi cam-drin domestig newid, gan nad oedd cyfarfodydd wyneb yn wyneb bob amser yn bosibl. Fe wnaethom hefyd barhau i ddelio â'r masnachwyr twyllodrus a'r sgamwyr a ddaeth o hyd i ffyrdd newydd a gwahanol o ecsbloetio pobl, yn enwedig y rhai a oedd yn ynysig ac yn agored i niwed.

Cymerodd llawer o'n staff na allent wneud eu swyddi 'normal' neu weithio o gartref, swyddi newydd a gwahanol. Roedd hyn yn cynnwys staff sy'n helpu i gadw pobl yn egnïol ac yn heini yn ein Canolfannau Hamdden a'n Parciau, a hefyd ein Timau Gorfodi. Roedd staff yn barod i wneud yr hyn

roedd ei angen i gefnogi pobl, cymunedau a busnesau Rhondda Cynon Taf ac i gadw pobl yn ddiogel. Fe welwch lawer o enghreifftiau o hyn trwy gydol yr adroddiad hwn.

Nawr mae gennym heriau mawr o'n blaenau. Rydym wedi gosod targedau uchelgeisiol i ni'n hunain i fynd i'r afael â risg llifogydd, arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu ein gwastraff, paratoi ar gyfer effeithiau eraill newid yn yr hinsawdd a chwarae ein rhan i amddiffyn y blaned. Rydym hefyd eisiau paratoi ar gyfer dyfodol cadarnhaol a diogel i'n trigolion a'n cymunedau gan wneud y gorau o'n parciau, mannau gwyrdd a chanolfannau hamdden i helpu pobl i aros yn ffit ac yn iach yn feddyliol ac yn gorfforol.

Y camau rydyn ni'n eu cymryd i wneud LLEOEDD lle mae pobl yn falch o fyw, gweithio a chwarae ynddynt yw:

- Cadw RhCT yn lân, anfon cyn lleied o wastraff â phosibl i safleoedd tirlenwi, cwrdd â'n targedau ailgylchu a lleihau ein hôl troed carbon.
- Symud y Fwrdeistref Sirol yn ei blaen, gan gynnwys gwelliannau i ffyrdd a phalmentydd a thrafnidiaeth gyhoeddus, tra hefyd yn gwella ansawdd aer
- Sicrhau bod y Fwrdeistref Sirol yn un o'r lleoedd mwyaf diogel yng Nghymru, gyda lefelau uchel o gydlyniant cymunedol, lle mae trigolion yn teimlo'n ddiogel.
- Cael y gorau o'n parciau trwy edrych ar ôl a buddsoddi yn ein lleoedd gwyrdd.

**Adroddiad Cynnydd Cyffredinol**

**Yn 2020, dywedasom y byddem yn parhau â'n gwaith i 'greu LLEOEDD lle mae pobl yn falch o fyw, gweithio a chwarae'. Er gwaethaf yr heriau a grëwyd gan lifogydd a phandemig Covid-19 dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom barhau i wneud cynnydd da fel Cyngor ac fel rhan o bartneriaethau ehangach, gan ragori ar lawer o'n disgwyliadau gan gynnwys ailgylchu a gwelliannau ffyrdd. Gwnaethom hefyd ragori ar lawer o'r targedau tymor byr a osodwyd gennym ni ein hunain. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod gennym fwy i'w wneud, yn enwedig yn y gwasanaethau hynny lle mae cyfyngiadau Covid wedi arafu neu hyd yn oed atal cynnydd, a hefyd i gyflawni ein huchelgeisiau tymor hwy.**

Ochr yn ochr â'n gwaith yn cyflawni ein blaenoriaeth LLEOEDD, rydym yn adeiladu'n barhaus ar ein profiad o wneud pethau'n wahanol, yr hyn sydd wedi gweithio a'r hyn y mae angen i ni ei wneud yn well. Rydym hefyd yn cynyddu ein dealltwriaeth o effaith y newidiadau rydym yn eu gwneud i bobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf a Rhanbarth ehangach Cwm Taf.

Mae ein gwaith o fewn blaenoriaeth LLEOEDD yn cael ei oruchwylio gan y Cabinet, Pwyllgorau Craffu perthnasol a, lle bo hynny'n briodol, Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Cwm Taf.

**Gallwch weld mwy o fanylion am ein cynnydd yn erbyn yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni yn 2020/21 yn ein Gwerthusiad Perfformiad LLEOEDD.**

## Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dweud wrthym ....

**Trafnidiaeth a Theithio**

- Teithiwyd 1,100 Miliwn o filltiroedd cerbyd ledled RhCT yn 2020, y nifer ail uchaf o filltiroedd a deithiwyd yng Nghymru yn 2020 (Ffynhonnell: *Ystadegau Traffig Ffyrdd GovUK TRA8901*). Teithiwyd y mwyafrif (77.7%) mewn car, gostyngiad canrannol o 4.52% o'r flwyddyn flaenorol (Ffynhonnell: *Ystadegau Traffig Ffyrdd GovUK TRA8902*).
- Roedd tua 33% o drigolion RhCT yn cerdded am dros 10 munud bob dydd, y ganran ail uchaf yng Nghymru. Roedd 4% o'r preswylwyr yn beicio fwy nag unwaith y mis, y trydydd isaf yng Nghymru (Ffynhonnell: *GovUk).*
- Mae RhCT yn cynnal a chadw 1,290km o ffyrdd ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Ar draws y Fwrdeistref Sirol, mae 11 llwybr cerdded ac 19 llwybr Defnydd a Rennir sy'n darparu ar gyfer cerddwyr a beicwyr. (*Ffynhonnell: Adroddiad Monitro Teithio Llesol RhCT).*
- Yn 2018 roedd trafnidiaeth yn gyfrifol am 17% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru. Roedd 62% o ddefnydd ceir preifat, 19% o Gerbydau Nwyddau Ysgafn ac 16% o gerbydau bysiau a nwyddau trwm. (Ffynhonnell: *Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru)*.
- Mae trigolion RhCT yn dal 52,330 Cerdyn Teithio Rhatach:
    - 47,212 gyda chardiau 60+ oed.
    - 3,361 gyda chardiau anabl.
    - 1,757 wedi cael cardiau Anabl a Chydymaith.
- Cafodd 20,609 o drigolion RhCT drwyddedau parcio Bathodyn Glas.

**Ansawdd aer, Allyriadau ac Ynni Adnewyddadwy**

- Ar hyn o bryd mae 16 Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMAs) yn cael eu monitro yn RhCT i sicrhau nad ydynt yn torri'r Amcanion Ansawdd Aer (AQO) (Ffynhonnell: *Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2020).*
- Cofrestrwyd 329 o gerbydau allyriadau isel iawn (ULEV) yn RhCT yn Ch4 2020, cynnydd o 63.68% o 201 yn Ch4 2019. Mae RhCT yn yr 11eg safle allan o 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru (Ffynhonnell: *Yr Adran Drafnidiaeth VEH0132a*).
- Yn 2018, dengys yr amcangyfrifon diweddaraf yr allyrrwyd 1,064.8 cilodunnell o garbon deuocsid ($CO_2$), sef y prif nwy tŷ gwydr, ar draws RhCT. Mae hyn yn cyfateb i 4.4 tunnell o $CO_2$ fesul preswylydd.[1]
- Cynhyrchodd y Cyngor 570,535 Mw/awr o drydan trwy dechnolegau carbon isel neu adnewyddadwy[2], digon i bweru 65 o gartrefi am flwyddyn.[3]

**Llifogydd**

- Ystyriwyd bod 9,270 eiddo yn RhCT yn 'risg uchel' o ran llifogydd dŵr wyneb neu lifogydd afon, gyda 4,330 eiddo pellach yn y categori 'risg canolig'. (Ffynhonnell: *Stats Cymru***).**
- Mae RhCT yn un o bedair ardal risg llifogydd ddiffiniedig yng Nghymru. Mae 11.3% o boblogaeth RhCT mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb oherwydd gormod o ddŵr glaw.
- Mae dros 700km o gyrsiau dŵr â chylfatiau ar draws y Fwrdeistref Sirol. (*Ffynhonnell Data Fewnol).*

**Parciau a Mannau Gwyrdd**

- Cafodd Rhondda Cynon Taf 10 Gwobr Baner Werdd am barciau a mannau agored.

---

[1] Gov.uk - UK Local Authority and Regional Carbon Dioxide Emissions
[2] StatsCymru- Cynhyrchiant Ynni Carbon Isel yn ôl Awdurdod Lleol
[3] OFGEM - Electricity Generation: Facts and Figures

**Gwastraff a Hylendid**

- Rhoddwyd 372 o Hysbysiadau Cosb Sefydlog am gŵn yn baeddu a throseddau PSPO eraill.
- Cofnodwyd 3,146 o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon ledled RhCT.
- Mae gwastraff RhCT na ellir ei ailgylchu neu ei ailddefnyddio yn cyfateb i 0.21kg am bob preswylydd RhCT.
- Gwnaethon ni ailgylchu 94,558 tunnell o wastraff, 66.74%, ac anfon 5,151 tunnell o wastraff i'w dirlenwi yn 2020/21.

## Edrych ymlaen……

**Trafnidiaeth**

- Erbyn 2030, disgwylir i nifer y milltiroedd a deithir ar ffyrdd yng Nghymru gynyddu o leiaf 5.7% (1.02 biliwn milltir) o waelodlin 2017. (Ffynhonnell: *Adran Trafnidiaeth - Rhagamcanion Traffig Ffyrdd 2018 RTF18).*
- Erbyn 2035, bydd rhwng 47% a 59% o'r holl geir ar y ffordd yn drydanol (neu o bosibl â chell tanwydd hydrogen), o'i gymharu â chyfran o'r farchnad o 6.6% yn 2020. (Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

**Yr Amgylchedd, Hinsawdd a Llifogydd**

- Mae'r tueddiadau cyfredol yn awgrymu, o gymharu â gwaelodlin 1981-2000, bod disgwyl i'r tymereddau blynyddol yng Nghymru godi rhwng oddeutu 1.2°C erbyn yr 2050au a rhwng 1.3 a 2.3°C erbyn yr 2080au
  - disgwylir i lawiad yr haf ostwng oddeutu 15% erbyn yr 2050au a rhwng 18% a 26% erbyn yr 2080au. Er gwaethaf yr haf yn sychu'n gyffredinol, mae'r rhagamcanion yn awgrymu pan fydd hi'n bwrw glaw, y bydd y glawiad yn ddwysach.
  - disgwylir i lawiad y gaeaf gynyddu oddeutu 6% erbyn yr 2050au a rhwng 7% a 13% erbyn yr 2080au (Ffynhonnell: *CCCRA3 Crynodeb i Gymru).*
- Llifogydd ac erydiad arfordirol yw dau o'r peryglon naturiol mwyaf sy'n effeithio ar ddiogelwch a chynaliadwyedd cymunedau Cymru. *(Ffynhonnell data mewnol).*

**Ynni a Gwastraff**

- Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod nod o sicrhau 70% o ddefnydd ynni adnewyddadwy erbyn 2030. (Ffynhonnell: *Llywodraeth Cymru - Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2018- Tudalennau 3 ac 8 ).*
- Rhagwelir y bydd y galw am ynni yng Nghymru yn codi rhwng 14% a 68% erbyn 2035, *o waelodlin 2014.* (Ffynhonnell: *Llywodraeth Cymru - Targedau ynni adnewyddadwy: tystiolaeth - Tudalen 7)*

**Cadw RhCT yn lân, anfon cyn lleied o wastraff â phosibl i safleoedd tirlenwi, cwrdd â'n targedau ailgylchu a lleihau ein hôl troed carbon.**

**Y mesurau a nodwyd gennym y llynedd**

> **Llifogydd a thirlenwi**
> Mae'r rhan fwyaf o wastraff a grëir gan lifogydd wedi'i halogi ac ni ellir ei ailgylchu na'i ailddefnyddio. Anfonwyd dros 5,000 tunnell o wastraff llifogydd i safleoedd tirlenwi o ganlyniad i'r stormydd yn ystod 2020/21.

- Fe wnaethon ni ailgylchu mwy o wastraff - 66.74% o'i gymharu â 64.78% yn 2021.
- Roedd bron i 3,200 o achosion tipio anghyfreithlon ar draws RhCT y llynedd. Er bod yr amser cyfartalog a gymerwyd i glirio'r achosion tipio hyn ychydig yn fyrrach na'r llynedd ar 2.2 diwrnod, nid oeddem yn clirio cymaint o achosion tipio o fewn ein targed pum niwrnod oherwydd bod rhai yn anoddach nag arfer i'w cyrraedd. Gwrandawyd ar 12 achos o dipio anghyfreithlon gan drigolion RhCT yn Llys Ynadon Merthyr, gydag un unigolyn yn derbyn dirwy o £2,000. Mae yna hefyd dros 100 o achosion o drigolion yn cyflawni tipio anghyfreithlon neu ddim yn talu cosbau sefydlog am daflu sbwriel sy'n cael eu hystyried ar gyfer erlyniad ar hyn o bryd.

**Ymhlith pethau eraill, gwnaethom:**

- Barhau â'n casgliad gwastraff ac ailgylchu llawn a glanhau strydoedd, gwnaethom hefyd barhau i fynd i'r afael â cŵn yn baeddu, a thaflu sbwriel arall.
- Ymestyn y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus i atal cŵn yn baeddu yn yr ardal yn unol â barn trigolion.
- Agor y Canolfannau Ailgylchu Cymunedol (CRC) pan oedd yn ddiogel gwneud hynny. Gwnaethom hysbysu pobl am y newidiadau a'r mesurau diogelwch oedd ar waith trwy'r Cyfryngau Cymdeithasol. Er mwyn sicrhau bod staff ac ymwelwyr yn ddiogel ac i ateb y galw cynyddol am ailgylchu tra roedd pobl yn y cyfnod clo, gwnaethom ymestyn yr oriau agor ac am gyfnod byr gwnaethom agor dau CRC arall. O ganlyniad, yn 2020/21 cynyddodd yr ailgylchu ar draws y CRC'au dros 351 tunnell i 38,262.86.
- Cynyddu ein targed ailgylchu i 80% erbyn 2025, sy'n uwch na'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i osod ar gyfer Cynghorau yng Nghymru.

**Mae ein cynlluniau yn 2021-22 yn cynnwys**

- Cefnogi busnes a landlordiaid cymdeithasol i gydymffurfio â deddfau newydd sy'n golygu bod rhaid didoli Gwastraff Masnach yn ôl math.
- Gweithio tuag at ein nod ailgylchu o 80% erbyn 2025.
- Parhau i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol e.e. taflu sbwriel, cŵn yn baeddu, tipio anghyfreithlon a pharcio anghyfreithlon.
- Gweithio gyda phartneriaid Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddatblygu opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy ar draws yr ardal gan gynnwys treialu Tacsis a bysiau Trydan, a gosod pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan.

**Byddwn hefyd yn dangos ein cynnydd drwy...**

- Gynyddu faint o wastraff rydyn ni'n ei ailgylchu.
- I ba raddau rydym wedi symud ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r Parc Eco ym Mryn Pica.
- Nifer y troseddau amgylcheddol yr ydym wedi mynd i'r afael â hwy, a
- Lefel y cyfranogiad gan ein trigolion yn ein hymgyrchoedd.

**Symud y Fwrdeistref Sirol yn ei blaen, gan gynnwys gwelliannau i ffyrdd a phalmentydd a thrafnidiaeth gyhoeddus, tra hefyd yn gwella ansawdd aer**

**Y mesurau a nodwyd gennym y llynedd**

- Rydym wedi gweld gwelliannau yn ein ffyrdd A, B ac C. Er yr adroddwyd bod 4.6% o'n holl ffyrdd mewn cyflwr gwael, mae hyn wedi gostwng o 9.3% yn 2014/15. Fe welwch fwy isod am ein buddsoddiad mewn gwelliannau ffyrdd.

**Ymhlith pethau eraill, gwnaethom:**

- barhau i wella cyflwr ein ffyrdd a'n priffyrdd presennol e.e. ail-wynebu 105 o'n ffyrdd ac atgyweirio 3,315 o dyllau yn y ffordd. Gwnaethom hefyd atgyweirio pontydd a waliau afonydd, ailosod troedffyrdd a rhoi mesurau diogelwch ffyrdd newydd ar waith.
- agor ffordd Gyswllt ar draws y Cwm yn Aberpennar a symud ymlaen â chynlluniau mawr gan gynnwys dyblygu'r A4119 yn Ely Valley Road; gwaith deuoli a phont Teithio Llesol ar gylchfan Coed Elái; Porth Gogleddol Cwm Cynon a Ffordd Osgoi Llanharan.
- parhau i wella a datblygu cynlluniau Teithio Llesol fel y gall pobl fynd o amgylch y Fwrdeistref Sirol yn haws ar droed neu trwy feicio. Bydd cynlluniau yn cysylltu llwybrau, traciau a chanol trefi presennol fel rhan o adfywiad Canol y Dref. Rydym hefyd yn ymchwilio i weld a yw llwybrau newydd yn bosibl. Mae hyn yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.
- buddsoddi dros £990k mewn Draenio Llifogydd a Rheoli Perygl Llifogydd a oedd yn cynnwys monitro cylfatiau i helpu i atal llifogydd yn ein cymunedau. Mae ein gwaith yn cynnwys:
  - gosod, uwchraddio neu gryfhau cylfatiau yng Nghwmbach, Pentre, Fernhill, Aberpennar, Rhydyfelin a Threherbert.
  - ailosod pibell danddaearol, system twll archwilio a chreu sianel dŵr wyneb a phwll newydd yn Lôn y Parc Trecynon. Bydd y pwll hwn hefyd yn helpu i gynyddu bioamrywiaeth yr ardal.
  - atgyweirio waliau afonydd uwchben afon Nant Clydach, Ynysybwl a Ffordd Blaen-Y-Cwm, Blaencwm.
  - atgyweirio'r wal gynnal yn A4054 Ffordd Caerdydd yn Nhrefforest ar hyd yr Afon Taf.
  - gwella'r cwrs dŵr yn Nheras Granville, Aberpennar.
  - gwella draeniad yn Stryd Hyfryd, Pentre ac adeiladu twll archwilio dalgylch newydd ym Mharc Pentre.
  - uwchraddio'r rhwydwaith yn Stryd Kingcraft, Aberpennar.
  - defnyddio ffyrdd naturiol i reoli risg llifogydd, e.e. Gardd Law Ponty yn Stryd y Felin, Pontypridd gan ddefnyddio pyllau coed a gardd law i fynd i'r afael â dŵr wyneb, a gosod 'Hydroplanters'[4] i gasglu dŵr glaw a dŵr ffo yn Heol y Gamlas, Cwmbach.
  - canolbwyntio ar barcio anghyfreithlon a pheryglus wrth i'r cyfyngiadau ymlacio, gan gynnwys y tu allan i ysgolion, wrth ymyl croesfannau cerddwyr ac mewn arosfannau bysiau. Fe ddefnyddion ni gamerâu symudol i recordio digwyddiadau a phrosesu dros 15,000 o Hysbysiadau Tâl Cosb i raddfeydd amser cyfreithiol yn RhCT a 40,000 ar draws saith Awdurdod Lleol fel rhan o Grŵp Parcio De Cymru (SWPG).

[4] Dull lliniaru llifogydd cynaliadwy, sy'n ddymunol o ran esthetig, gyda chewyll llawn gwyrddni sy'n casglu glawiad a dŵr ffo, sy'n cael ei hidlo i mewn i bibell all-lif

- gwneud yn siŵr bod y gofynion newidiol mewn trafnidiaeth i deithwyr, yn enwedig ar gyfer ysgolion a thrafnidiaeth gymunedol, yn cael eu bodloni'n ddiogel a'u bod yn cael eu cyfleu i drigolion a rhieni. Buom hefyd yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru a'r hyfforddwr Stage ar gynllun peilot 'fflecsi' a oedd yn wreiddiol yn caniatáu i drigolion ofyn am gael eu codi yn agos at eu man dewisol ar gyfer teithio hanfodol e.e. o'r cartref, gwaith neu siopau, trwy Ap neu dros y ffôn yn hytrach na dilyn amserlen y bws. Mae'r gwasanaeth yn parhau ar llwybr bws 152 o Donypandy i Hendreforgan, trwy nifer o gymunedau. Rhoddodd defnyddwyr y gwasanaeth hwn adborth cadarnhaol.

**Mae ein cynlluniau yn 2021-22 yn cynnwys**

- Parhau i wella cyflwr ein ffyrdd a'n pontydd.
- Cwblhau cynlluniau llifogydd ledled y Fwrdeistref Sirol gan gynnwys yn y Pentre, Aberdâr a Hirwaun.
- Parhau i wella monitro ein cylfatiau a'n hallfeydd allweddol fel y gallwn leddfu risg llifogydd.
- Gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru, a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddatblygu a rhoi mwy a gwell opsiynau teithio cyhoeddus a llesol ar waith.
- Rhoi safonau Cerbydau Trydan newydd ar waith ar gyfer tacsis RhCT.
- Helpu gyrwyr tacsi RhCT i dreialu cynllun am ddim, 'Rhowch Gynnig cyn Prynu', i gael profiad o dacsis cwbl drydanol sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn, gyda'r holl gostau'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.

**Byddwn hefyd yn dangos ein cynnydd drwy…**

- Welliannau yng nghyflwr ein ffyrdd.
- Darparu gwybodaeth am Ansawdd Aer.
- Cwblhau ein cynlluniau llifogydd.
- Beth oedd barn Gyrwyr Tacsi am y tacsis trydanol y gwnaethon nhw eu treialu.

**<u>Sicrhau bod y Fwrdeistref Sirol yn un o'r lleoedd mwyaf diogel yng Nghymru, gyda lefelau uchel o gydlyniant cymunedol, lle mae preswylwyr yn teimlo'n ddiogel</u>**

**Ymhlith pethau eraill, gwnaethom:**

- Barhau i sicrhau bod cymorth ar gael i bobl o bob oed sy'n camddefnyddio alcohol neu sylweddau eraill. Roedd help ar gael dros y ffôn, a chydag apwyntiadau wyneb yn wyneb pan oedd angen. Cynhaliwyd rhai cyfarfodydd yn rhithiol trwy 'Zoom' ac mewn rhai achosion, ariannwyd dyfeisiau gan Lywodraeth Cymru. Hefyd, arhosodd rhai swyddfeydd ar agor ar gyfer y ddarpariaeth Cyfnewid Nodwyddau Arbenigol. Bu adnoddau hunangymorth ar-lein hefyd ar gael a pharhaodd Grŵp Ymgysylltiad/Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaeth Cwm Taf Morgannwg i gyfarfod yn wythnosol dros Zoom, gan gefnogi 65 o bobl yn gyffredinol, gyda 15 o bobl yn mynychu pob sesiwn.
- Cefnogi 1,497 o bobl a brofodd Drais yn y Cartref, yn bennaf dros y ffôn. Mewn rhai achosion, defnyddiwyd lleoliadau 'diogel' i gyfarfod wyneb yn wyneb. Yn fwy diweddar pan roedd amgylchiadau yn caniatáu, cynhaliwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb.
- Cyflwyno ymgyrch 'Mae Modd i Unrhyw Ddyn….', i godi ymwybyddiaeth o drais domestig yn erbyn dynion a lle gallant gael cymorth.

- Profi llai o ddigwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol gan fod cyfyngiadau yn eu lle, ond gwnaethom ddelio â mwy o anghydfodau cymdogaeth yn cael eu hadrodd, oherwydd fod pobl yn treulio mwy o amser gartref.

**Mynd i'r Afael â Masnachwyr Twyllodrus**
Gyda chymorth Heddlu De Cymru a dewrder trigolion RhCT, rydym wedi cyfrannu at ymchwiliad ac wedi arestio Masnachwyr Twyllodrus ledled De Cymru a dargedodd bobl hŷn a dalodd hyd at £4,500 am waith na ddechreuwyd, neu a oedd o ansawdd wael ar ôl nhw ar ôl iddyn nhw ei orffen.

- Postio gwybodaeth reolaidd am sgamiau, gan gynnwys sgamiau yn gysylltiedig â Covid, ar ein gwefan a'r Cyfryngau Cymdeithasol, a gwnaethom ddosbarthu taflenni gwybodaeth Sgamio yn y parseli bwyd a chymorth a ddosbarthwyd gennym i bobl agored i niwed.
- Parhau i helpu pobl i osgoi sgamiau ffôn trwy osod unedau blocio 'trueCall' yn eu lle; ar hyn o bryd mae gennym 82 o unedau ar waith. Mae gwybodaeth o unedau RhCT hefyd yn helpu mewn prosiect ledled De Cymru i nodi patrymau a sgamiau sydd wedi cynyddu yn ystod cyfyngiadau Covid, yn ogystal â Chyngor yn y DU ar ei ymchwiliad i sgamiau yswiriant. Dywedodd un o'n defnyddwyr trueCall wrthym "*Rydw i mor falch fy mod i wedi'i gael, mae byw ar fy mhen fy hun yn golygu fod y galwadau niwsans hyn yn creu gymaint o bryder".*

**Mae ein cynlluniau yn 2021-22 yn cynnwys**

- Ehangu cyrhaeddiad Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau fel y gallwn gysylltu â mwy o bobl sydd angen ein help yn y gymuned.
- Parhau i gefnogi pobl agored i niwed sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref.
- Cryfhau trefniadau ar gyfer trwyddedu adeiladau a thacsis yn ogystal â diogelwch canol tref i gadw pobl yn ddiogel.
- Gofyn i'n trigolion am eu barn am gadw 'Parthau Dim Alcohol' ym Mhontypridd ac Aberdâr.
- Gweithio gyda Phartneriaethau Alcohol Cymunedol fel rhan o Bartneriaeth Alcohol Cymunedol (CAP) newydd yn Aberdâr.
- Rhoi un pwynt cyswllt ar waith i'w gwneud hi'n haws i bobl sy'n profi Cam-drin Domestig gael cymorth a chefnogaeth.
- Parhau i godi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb gyda thrigolion ar draws yr holl gymunedau, ysgolion a cholegau.
- Helpu grwpiau cymunedol i gael mynediad at dir ac adeiladau'r Cyngor i ddiwallu eu hanghenion cymunedol drwy 'RhCT gyda'n Gilydd.'
- Helpu trigolion i gynhyrchu a rhannu cynnyrch ffres trwy'r Rhwydwaith Bwyd Cynaliadwy.

**Byddwn hefyd yn dangos ein cynnydd drwy …**

- Gwblhau'r newidiadau i'r Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid.
- Cynyddu nifer y bobl y gallwn eu cyrraedd trwy ein Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau.
- Dweud wrthych beth oedd barn trigolion am gadw 'Dim Parthau Alcohol' ym Mhontypridd ac Aberdâr.
- Bod â Phartneriaeth Alcohol Cymunedol newydd ar waith yn Aberdâr.
- Nifer y bobl sy'n profi Cam-drin Domestig sy'n defnyddio'r rhif cyswllt newydd i ofyn am gymorth a chefnogaeth.

- Nifer y bobl rydyn ni wedi siarad â nhw, i godi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ar draws cymunedau, ysgolion a cholegau a'r hyn roedden nhw'n ei feddwl am yr hyn y gwnaethon nhw ei ddysgu.
- Helpu grwpiau cymunedol i gael mynediad at dir ac adeiladau'r Cyngor i ddiwallu eu hanghenion cymunedol drwy 'RhCT gyda'n Gilydd'.
- Helpu trigolion i gynhyrchu a rhannu cynnyrch ffres trwy'r Rhwydwaith Bwyd Cynaliadwy.

**<u>Cael y gorau o'n parciau trwy edrych ar ôl a buddsoddi yn ein lleoedd gwyrdd</u>**

**Ymhlith pethau eraill, gwnaethom:**

- Gwblhau adnewyddiad mawr o Barc Coffa Rhyfel Ynysangharad Pontypridd gan gynnwys gwrych gwyrdd bowlio newydd, gwella ac adnewyddu prif lwybr troed a llwybrau llai, goleuadau ynni isel trwy'r parc a Thoiled 'Llefydd i Newid' fel bod gan bobl ag anabledd le ac offer i ddiwallu eu hanghenion, gyda digon o le i ofalwyr helpu.
- Ailagor Lido Ponty yn dilyn y dinistr a achoswyd gan y llifogydd yn 2020.
- Cwblhau'r gweithgareddau chwarae wedi'u huwchraddio i ddarparu mwy o her gorfforol i blant o bob gallu, a symud ymlaen â'r gwelliannau i Barc Gwledig Cwm Dâr gan gynnwys Parc Beicio Disgyrchol i Deuluoedd.
- Cael 10 gwobr Baner Werdd gan Cadw Cymru'n Daclus am barciau a lleoedd gwyrdd a reolir yn dda.
- Helpu i gynyddu'r amrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid a'u helpu i ffynnu trwy leihau torri gwair yn rhai o ymylon glaswellt a'n tir.
- Parhau i fuddsoddi mewn meysydd chwarae a pharciau chwaraeon. Trwy gydol y flwyddyn, roedd cyfyngiadau Covid yn effeithio ar fannau chwarae awyr agored, parciau sglefrio, ardaloedd gemau aml-ddefnydd a chyrtiau. Cyflenwyd ein gwasanaethau yn ôl y cyfyngiadau.

**Mae ein cynlluniau yn 2021-22 yn cynnwys**

- Parhau i wella'r cyfleusterau sydd ar gael ym Mharc Gwledig Cwm Dâr ac annog ymwelwyr i fwynhau'r hyn sydd gan y parc i'w gynnig trwy wefan newydd y Parc Gwledig.
- Ymchwilio i sut y gellir defnyddio mawn ar dir y Cyngor i ddal a storio carbon fel nad yw'n mynd i'r atmosffer a chyfrannu at gynhesu byd-eang.
- Annog natur i ffynnu trwy ddefnyddio mwy o dir y Cyngor i'w datblygu'n ddolydd blodau gwyllt
- Lansio gwefan Bioamrywiaeth newydd lle gallwn hefyd annog trigolion i chwarae mwy o ran mewn natur a gyda grwpiau cymunedol ar wefannau lleol.
- Nodi lleoedd lle gellir plannu neu amddiffyn coed a lle gallant ffynnu; hefyd, bod yn rhan o Ganopi Gwyrdd y Frenhines i ddathlu'r Jiwbilî Platinwm yn 2022.

**Byddwn hefyd yn dangos ein cynnydd drwy…**

- Nodi sut y byddwn yn dechrau adfer a chreu mawnogydd.
- Nifer y safleoedd blodau gwyllt newydd sydd ar waith.
- Sut mae trigolion yn cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol natur a 'gwyrdd'.

| Ffyniannus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog a'r Iaith Gymraeg | Yn gyfrifol yn fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Gallwch weld mwy o fanylion ynglŷn â sut y byddwn yn parhau â'n gwaith i wneud LLEOEDD yn fannau 'lle mae pobl yn falch o fyw, gweithio a chwarae' yn ein Cynllun LLEOEDD 2021-22.**

## FFYNIANT - Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd a chyflawni eu potensial a ffynnu

Rhoesom gynlluniau ar waith ar gyfer FFYNIANT oherwydd ein bod eisiau creu cyfleoedd i bobl gyrraedd eu potensial trwy addysg a hyfforddiant, ac i fusnesau ledled y Fwrdeistref Sirol ffynnu. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein hysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a hefyd Canol ein Trefi, gan ddod â mwy o swyddi i mewn a chreu cartrefi newydd, ynghyd â chyfleoedd ar gyfer Hamdden a Gweithgareddau Cymdeithasol. Credwn fod gan RhCT lawer i'w gynnig, ac rydym am sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n gwaith gyda phartneriaid i wella argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus carbon isel hygyrch, cryfhau twristiaeth a chreu swyddi newydd, yn enwedig yn yr economi 'gwyrdd'.

Yn ystod 2020/21, effeithiodd Covid-19 ar lawer o'r gwaith i greu cyfleoedd i bobl o bob oed a chefnogi busnesau a chymunedau i ffynnu. Roedd ysgolion a busnesau yn wynebu llawer o heriau digynsail.

Ein ffocws mewn ysgolion oedd cadw ein plant a'n pobl ifanc yn ddiogel, yn enwedig y rhai a oedd fwyaf agored i niwed, a sicrhau eu bod yn ymgysylltu, a hefyd rhoi cefnogaeth iddyn nhw. Roedd rhaid i ysgolion ymateb yn gyflym i gwrdd â'r heriau a oedd yn codi o gyflymder ac amlder y trefniadau Covid diogel newydd, ac i gyflwyno gweithdrefnau asesu newydd oherwydd canslo arholiadau. Roedd hyn yn cynnwys darparu dosbarthiadau ar-lein, offer TG, Asesiadau Athrawon, mynediad i MiFi a'r modd i dros 8,500 o ddysgwyr barhau i dderbyn cinio y byddent wedi'i gael am ddim yn yr ysgol. Ar gyfer ein dysgwyr mwyaf agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol, fe wnaethom sefydlu hybiau gofal plant brys fel y gallent fod mewn amgylchedd diogel a pharhau i ddysgu, cyn belled ag y bo modd; lle bo angen, gwnaethom ddarparu cludiant diogel i'w cael yno. Roeddent hefyd yn gallu ymuno â gweithgareddau yn ystod gwyliau'r haf mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant, ac roedd plant hŷn yn gallu defnyddio’r Gwasanaeth Ieuenctid.

Ein ffocws ar fusnesau lleol oedd cefnogi'r rhai yr oedd y llifogydd wedi effeithio arnynt, gan helpu Canol ein Trefi hefyd i addasu i'r newidiadau yr oedd eu hangen oherwydd cyfyngiadau Covid. Fe wnaethon ni hefyd ddysgu mwy am ein cymuned fusnes leol, gyda llawer o fusnesau yn helpu i gefnogi'r Cyngor a chyfrannu at y frwydr yn erbyn Covid-19 trwy newid eu prosesau i gynhyrchu glanweithyddion, Offer Amddiffynnol ac arwyddion. Yn ogystal â helpu i gadw pobl a chymunedau yn ddiogel, dangosodd sut y gall ein busnesau lleol ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i newidiadau mewn galw.

Er bod Covid 19 wedi arafu rhywfaint ar ein cynnydd, roeddem yn gallu symud ymlaen â meysydd gwaith eraill, gan gynnwys ysgolion newydd ac adeiladau ysgol, tai a datblygiadau yng Nghanol ein Trefi, e.e. Llys Cadwyn a'r YMCA ym Mhontypridd ac Adeiladau Rhydychen yn Aberpennar, a gwnaethom barhau i gynnig ystod o gyfleoedd hyfforddi a phrofiad gwaith i'n pobl ifanc a chynnal ein Ffair Yrfaoedd rithwir gyntaf, lle cofrestrodd dros 1,600 o bobl.

Ein ffocws ar dai oedd cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan ddigartrefedd neu a oedd mewn perygl o ddigartrefedd, a darparu cartrefi addas o ansawdd a fforddiadwy i ddiwallu anghenion trigolion. Ar ddechrau'r pandemig, bu cynnydd o 76% mewn ceisiadau digartrefedd a chynnydd sylweddol yn y bobl a roddwyd mewn llety brys dros dro. Fe wnaethom barhau i weithio gyda pherchnogion eiddo a Llywodraeth Cymru i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd a gweithio'n agos

gyda landlordiaid cymdeithasol i ddarparu mwy o dai fforddiadwy o ansawdd da, gan gynnwys tai wedi'u haddasu a thai â chymorth. Fe wnaethom hefyd greu asiantaeth gosod tai cymdeithasol i gefnogi tenantiaid a landlordiaid yn y sector rhentu preifat, yn enwedig pobl a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref.

Mae ein perthynas gref ag ysgolion a phartneriaethau â Chonsortiwm Canolbarth y De, Llywodraeth Cymru a busnesau wedi bod yn allweddol i'r ffordd y mae'r Cyngor wedi gallu ymateb i heriau'r flwyddyn ddiwethaf. Byddwn yn parhau i gryfhau ein perthynas a'n partneriaethau fel ein bod gyda'n gilydd yn creu'r dyfodol gorau posibl i'n trigolion, cymunedau, busnesau ac ymwelwyr.

Rydym yn gwybod y bydd y gwaith i helpu plant, pobl ifanc a busnesau y mae'r llifogydd wedi effeithio arnynt ac effaith pandemig Covid-19 yn parhau am gryn amser, ond rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'n rhaglen waith uchelgeisiol.

Y camau rydyn ni'n eu cymryd i sicrhau FFYNIANT, trwy greu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd a chyflawni eu potensial a ffynnu, yw:

- Buddsoddi yng nghanol ein trefi, dod â swyddi a chartrefi i ganol ein trefi er mwyn creu lleoedd bywiog, ffyniannus lle y mae pobl yn dymuno byw, gweithio a chymdeithasu.
- Cyflenwi cynlluniau adfywio a thrafnidiaeth mawr, gan sicrhau cymaint o effaith â phosibl i'r Metro De Cymru newydd, i greu lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt, gan amddiffyn a gwella'r Fwrdeistref Sirol ar yr un pryd.
- Cynyddu nifer y cartrefi o ansawdd sydd ar gael ac yn fforddiadwy i ddarparu mwy o ddewis o dai i drigolion.
- Sicrhau bod gennym ysgolion da fel bod gan bob plentyn fynediad at addysg wych.
- Helpu pobl i mewn i waith a chyflogaeth â chyflog gwell.

## Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dweud wrthym….

### Economi

- Mae'r data diweddaraf, 2019, yn dangos bod gwerth nwyddau a gwasanaethau (GVA) a gynhyrchwyd yn y Fwrdeistref Sirol yn £4,187M, y 4ydd uchaf yng Nghymru (Ffynhonnell: *StatsCymru*).
- Ar ddiwedd 2020, pris tŷ ar gyfartaledd yn RhCT oedd £120,000, y 3ydd isaf yng Nghymru (Ffynhonnell: *Swyddfa Ystadegau Gwladol*).
- Yn seiliedig ar gyfraddau eiddo band D, roedd y Dreth Gyngor yn RhCT y 5ed uchaf yng Nghymru ar gyfer 2021-22. Fodd bynnag, bu codiadau Treth Gyngor yr isaf yng Nghymru dros y 4 blynedd ddiwethaf (Ffynhonnell: *StatsCymru*).

### Cyflogaeth

- Yn y data diweddaraf, Rhagfyr 2020, roedd 67.3% o drigolion RhCT 16+ mewn cyflogaeth, yr ALl ail isaf yng Nghymru a 5.5 pwynt canran yn is na chyfartaledd Cymru (72.8%) (Ffynhonnell: *NOMIS*).
- Yn ôl y ffigurau diweddaraf yn 2018, y diwydiant Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Addysg ac Iechyd yw'r cyflogwr mwyaf ledled RhCT (31% o weithwyr), ac yna Cyfanwerthu, Manwerthu a Lletygarwch (28%) a Chynhyrchu (15%) (Ffynhonnell: *StatsCymru*).
- Yn ôl amcangyfrifon 2020, enillion wythnosol cyfartalog y bobl oedd yn gweithio yn ardal Rhondda Cynon Taf oedd £521.20, cynnydd o 50c yr wythnos ar y flwyddyn flaenorol, ond sy'n dal yn is na chyfartaledd Cymru (£537.80) (Ffynhonnell: *StatsCymru*).

### Addysg

- Yn 2020, nid oedd gan 9.3% o bobl o oedran gweithio yn RhCT unrhyw gymwysterau, 1.7% yn uwch nag ar draws Cymru (7.6%). (Ffynhonnell: *NOMIS*).
- Yn ystod 2019/20, roedd 4,530 o bobl yn cael eu cyflogi o fewn cynlluniau prentisiaeth a hyfforddeion yn ardal RhCT. Hwn oedd yr ail nifer uchaf yng Nghymru, ond gostyngodd 14.2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O'r rhain, roedd 1.21% o gefndir BAME, yn 13eg allan o 22 Awdurdod Lleol. (Ffynhonnell: *StatsCymru*).
- Cymerodd 19,675 o bobl o RhCT ran mewn addysg bellach yn ystod 2019/2020, gostyngiad o 32.9% o'r flwyddyn flaenorol (Ffynhonnell: *StatsCymru*).

### Tai

- Yn 2019, roedd 105,773 o aelwydydd yn RhCT. Mae hwn yn gynnydd o 0.8% ers y flwyddyn flaenorol a 6.5% dros y 10 mlynedd diwethaf (Ffynhonnell: *StatsCymru*).
- Daethpwyd â 240 o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yn 2020/21. Roedd hyn 34% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol (179).

## Edrych ymlaen….

### Economi

- Mae'r gwahaniaeth cyflog rhwng yr enillwyr uchaf ac isaf yn debygol o dyfu ledled y DU i 2030. Mae'r gwahaniaeth cyflog yng Nghymru yn is na gweddill y DU, a rhagwelir y bydd hyn yn parhau i 2030. Data cyn Covid-19. (Ffynhonnell: *UKCES tystiolaeth dyfodol gwaith*).
- Yn seiliedig ar ragfynegiadau, mae economi'r DU i fod £55bn yn llai erbyn 2030 nag y byddai wedi bod heb Brexit. Yn y senario gwaethaf, gall aelwydydd fod hyd at £1,700 yn waeth eu byd bob flwyddyn. Data cyn Covid-19. (Ffynhonnell: *Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus*).

**Cyflogaeth a Sgiliau**

- Disgwylir i gyfanswm y bobl a gyflogir yng Nghymru gyrraedd 1.466M erbyn 2024, cynnydd o 6.2% o'r 1.380M a gyflogwyd yn 2020. (Ffynonellau: *Dyfodol Gwaith 2014 – 2024* a *StatsCymru*).
- Rhwng 2019 a 2024, bydd Cymru yn gweld dirywiad o ran y swyddi mewn Peirianneg, Amaethyddiaeth a Gweithgynhyrchu. Disgwylir i swyddi mewn Cyllid ac Yswiriant, Technoleg Gwybodaeth ac Iechyd a Gwaith Cymdeithasol gynyddu (Ffynhonnell: *Amcanestyniadau marchnad lafur UKCES ar gyfer Cymru 2014 – 2024*).

**Addysg**

- Disgwylir i gyfanswm nifer y disgyblion yng Nghymru gynyddu 1.36% rhwng 2018 a 2028, a rhagwelir y bydd y cynnydd mwyaf yn nifer y myfyrwyr dros 16 oed, 12.31%. (Ffynhonnell: *StatsCymru*).
- Disgwylir i nifer y bobl yng ngweithlu Cymru heb gymhwyster ostwng o 3% i 2% rhwng 2019 a 2024, tra bydd gan 70% o'r gweithlu yn 2024 gymwysterau ar lefel A/cyfwerth neu uwch, i fyny o 65% yn 2019 (Ffynhonnell: *Amcanestyniadau marchnad lafur UKCES ar gyfer Cymru 2014 – 2024*).

**Tai**

- Rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd yn RhCT yn cynyddu 5.7% erbyn 2028. Bydd gan RhCT hefyd un o'r codiadau uchaf yng Nghymru yn nifer yr aelwydydd un person, i fyny 13.3%. (Ffynhonnell: *Rhagamcanion Cartrefi Awdurdod Lleol ar gyfer Cymru*).

## Adroddiad Cynnydd Cyffredinol

**Yn 2020, dywedasom y byddem yn parhau â'n gwaith i greu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd a chyflawni eu potensial a ffynnu. Ar y cyfan, er gwaethaf yr amgylchiadau heriol a wynebodd ein hysgolion, staff a busnes, fe wnaethom lwyddo i wneud cynnydd cadarnhaol dros y flwyddyn ddiwethaf.**

**Fel rhan o'n gwaith tuag at ein blaenoriaeth FFYNIANT, byddwn yn adeiladu ar ein profiad o wneud pethau'n wahanol, gan ddysgu o'r hyn sydd wedi gweithio a'r hyn y mae angen i ni ei wneud yn well. Rydyn ni'n gwybod bod llawer i'w wneud o ran helpu pobl a busnesau i ffynnu ac i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd rydyn ni'n helpu i'w creu yn y dyfodol.**

Mae ein gwaith o fewn blaenoriaeth FFYNIANT yn cael ei oruchwylio gan y Cabinet, Pwyllgorau Craffu perthnasol a, lle bo hynny'n briodol, y Byrddau Partneriaeth gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac rydym yn gweithio fel rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gefnogi adfywio a thwf economaidd yn RhCT a'r rhanbarth ehangach.

**Gallwch weld mwy o fanylion am ein cynnydd yn erbyn yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni yn 2020/21 yn ein Gwerthusiad Perfformiad FFYNIANT.**

## Yn 2020, dywedasom y buasem yn:

**Buddsoddi yng nghanol ein trefi, gan ddod â swyddi a chartrefi i ganol ein trefi i greu lleoedd bywiog, ffyniannus y mae pobl yn dymuno byw, gweithio a chymdeithasu ynddynt.**

**Ymhlith pethau eraill, gwnaethom y canlynol**

- Helpu i gefnogi pellter cymdeithasol mewn busnesau yn ein wyth prif ganolfan e.e. arddangos gwybodaeth, darparu posteri ar gyfer busnesau, sicrhau mannau cyhoeddus a seddi diogel, darparu gwybodaeth am y cymorth grant busnes oedd ar gael ac annog pobl i ymuno mewn profion cymunedol ar gyfer Covid-19. Fe wnaethom hepgor taliadau yn ein meysydd parcio yng Nghanol Trefi Aberdâr a Phontypridd am lawer o 2020 i annog pobl i siopa'n lleol. Gwnaethom hefyd newid yr amodau ar gyfer talu rhai grantiau a oedd ar gael i fusnesau fel eu bod yn gallu gwneud newidiadau i wella pellter cymdeithasol, gan gynnwys seddi awyr agored, adlenni, a chanopïau, ynghyd â gwelliannau i gyrtiau a gerddi.
- Cefnogi 50 o fusnesau gyda grantiau gwerth cyfanswm o £275,000 i'w helpu i addasu ac arallgyfeirio. Hefyd, dyfarnwyd grantiau gwerth £435,000 i 80 o fusnesau i'w helpu i wneud newidiadau i wella pellter cymdeithasol, megis ardaloedd awyr agored. Fe wnaethom hefyd brosesu mwy na 14,300 o grantiau gyda gwerth o £76.9M ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Annomestig, ac yn anecdotaidd, cawsom adborth cadarnhaol gan fusnesau ynghylch pa mor gyflym y cawsant y grantiau hyn.
- Gwaith parhaus ar y prosiectau adfywio canol tref allweddol, gan gynnwys yr Hwb Trafnidiaeth newydd yn y Porth. Gwnaethom hefyd gwblhau ailddatblygiad y Llew Du yn Aberdâr i ddarparu lle byw ar y llawr cyntaf gyda hyblygrwydd i ddefnyddio'r llawr gwaelod i bwrpas masnachol neu fel lle byw ychwanegol.
- Dechrau ar y gwaith o drawsnewid adeiladau nad oeddent yn cael eu defnyddio yng Nghanol ein Trefi, gan gynnwys Neuadd y Dref Aberpennar a Llys Ynadon Llwynypia. Ar ôl eu cwblhau, byddant ar gael fel lleoedd gweithio a datblygu busnes.
- Rhoi arian yn ei le i ddymchwel adeiladau a ddifrodwyd gan dân yn Stryd Dunraven, Tonypandy, gyda'r tir i'w ddefnyddio ar gyfer cartrefi newydd.
- Cyflenwi datblygiad Llys Cadwyn sydd wedi ennill dwy wobr ym Mhontypridd, gan ddarparu gofod swyddfa, Hwb Cymunedol yn cynnwys Llyfrgell yr 21ain Ganrif, campfa, stiwdio ffitrwydd/troelli a Thaith Gerdded Glan yr Afon a phont sy'n cysylltu â Pharc Coffa Rhyfel Ynysangharad.

**Mae ein cynlluniau yn 2021-22 yn cynnwys**

- Parhau i gefnogi busnesau newydd a phresennol i oroesi a ffynnu yng Nghanol ein Trefi.
- Dod o hyd i ffyrdd o ddod â safleoedd gwag a segur yng Nghanol ein Trefi yn ôl i ddefnydd.
- Gwneud mwy i annog ymwelwyr i ddod i RhCT a hyrwyddo atyniadau fel Tŵr Zip World, Parc Beicio Teulu Disgyrchol a phrosiectau Twneli Rhondda ac Abernant.
- Sefydlu mwy o lwybrau teithio llesol fel y gall pobl gyrraedd Canol ein Trefi heb ddefnyddio eu ceir, ac ymchwilio i lwybrau newydd posibl.

**Byddwn hefyd yn dangos ein cynnydd drwy …**

- % yr adeiladau manwerthu gwag yn y Porth, Pontypridd, Aberdâr a Threorci, a
- nifer wythnosol cyfartalog o ymwelwyr â'r Porth, Pontypridd, Aberdâr a Threorci.

**<u>Cyflwyno cynlluniau adfywio a thrafnidiaeth mawr, gan wneud y mwyaf o effaith Metro Newydd De Cymru, i greu mannau gwell i fyw a gweithio ynddynt, ac amddiffyn a gwella'r Fwrdeistref Sirol ar yr un pryd</u>**

**Ymhlith pethau eraill, gwnaethom**

- Barhau i weithio gyda chontractwyr i gyflawni uned fusnes 30,000 troedfedd sgwâr yng Nghoed Ely a dechrau adeiladu 22 o unedau busnes modern yn Robertstown, Aberdâr.
- Cwblhau Llys Cadwyn ym Mhontypridd gyda gofod swyddfa i 1,000 o bobl, llyfrgell a champfa, bwyty a dwy allfa lletygarwch, gyda nodweddion 'gwyrdd' y gellir eu defnyddio ar gyfer gwresogi, goleuo a phŵer. Yn ogystal, mae gan y datblygiad 6 phwynt gwefru i geir trydan, ac mae ceblau eisoes wedi'u gosod fel y gellir ychwanegu rhagor yn y dyfodol. Hefyd, agorom bont droed newydd rhwng Llys Cadwyn a Pharc Coffa Ynysangharad.
- Ailagor y bont droed i Barc Coffa Ynysangharad yn dilyn gwaith atgyweirio'r difrod a achosodd Storm Dennis.
- Dechrau dymchwel y Neuadd Bingo a chlwb nos Angharad's, Pontypridd.
- Cynnydd ar Ganolfan Drafnidiaeth y Porth, a fydd yn dwyn teithiau trên a bws ynghyd, gan ei gwneud hi'n haws i bobl deithio heb ddefnyddio'u ceir; bwriedir i'r Ganolfan agor yn 2022.
- Gweithio gyda Chynghorau cyfagos ledled de Cymru i lansio gwefan newydd Parc Rhanbarthol y Cymoedd i godi proffil y Cymoedd a dwyn gwybodaeth ynghyd am weithgareddau, digwyddiadau ac atyniadau y gall ymwelwyr a thwristiaid eu mwynhau, gan gynnwys deg safle a fydd yn byrth i Barc Rhanbarthol y Cymoedd.
- Parhau â'n gwaith gyda busnesau a chynghorau cyfagos i annog ymwelwyr i ddod i Rondda Cynon Taf a'r Cymoedd. Roedd cynnydd yn arafach nag y bwriadom oherwydd gorfododd cyfyngiadau Covid i ni gau neu gyfyngu ar niferoedd ymwelwyr. Fodd bynnag, ym mis Ebrill 2021, agorodd Zip World a'i wifren wib Phoenix, sef y wifren wib eisteddog gyflymaf yn y byd ac unig atyniad Zip World yn ne Cymru. Ym mis Ebrill, cyhoeddwyd cynlluniau i ailagor Lido Ponty ym mis Mai, yn dilyn gwaith adnewyddu a thrwsio'r difrod a achosodd Storm Dennis.
- Gweld cwblhau adeiladu ffrâm ddur adeilad yr YMCA ym Mhontypridd, gyda cham nesaf y gwaith yn mynd rhagddo yn ôl y targed, gan anelu at ei gwblhau erbyn diwedd 2021.
- Ymgeisio'n llwyddiannus am gyllid i ddatblygu canolfan ddiwylliannol yn Nhreorci, gan adeiladu ar y theatr a'r llyfrgell bresennol.

**Mae ein cynlluniau ar gyfer 2021-22 yn cynnwys**

- Parhau i ddatblygu Canol Ein Trefi yn Nhrecelyn, yn Nhonypandy ac yn y Porth, a fydd yn cynyddu cyflogaeth, yn creu cartrefi ac yn annog siopwyr.
- Parhau i ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd y Cyngor, gan gynnwys siarad â phreswylwyr a chymunedau am y mannau lle y dylem ddatblygu ac adeiladu cartrefi a chyfleoedd masnachol newydd, ac ymhle y mae angen i ni ddiogelu ein hadnoddau naturiol.
- Cefnogi Datblygiadau Tai ar hen safleoedd diwydiannol ac ysbytai ym Meddau, yn Aberaman ac yn Aberdâr.
- Gosod mwy o leoedd parcio ar safleoedd Parcio a Theithio yn y Porth, yn Nhreorci ac yn Llwynypia.
- Gwella argaeledd Wi-Fi ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys yng Nghanol Tref Pontypridd.
- Parhau i ddatblygu Llanilid fel rhan o gynlluniau Adfywio De Cymru yn ehangach i ddod â bywyd yn ôl i'r hen safle mwyngloddio brig, gan gynnwys cartrefi a chyfleusterau hamdden newydd, ynghyd â mannau diwydiannol a swyddfeydd, ysgol a chysylltiadau trafnidiaeth.

- Hyrwyddo'r cyfan y mae gan y Fwrdeistref Sirol i'w gynnig yn ein tirwedd, ein mannau gwyrdd a'n treftadaeth, a siarad â busnesau, preswylwyr ac ymwelwyr am sut y gallwn lywio twristiaeth at y dyfodol, gan ddod â swyddi a ffyniant i'r ardal.
- Creu ynni i fusnes a thrafnidiaeth gyhoeddus trwy osod paneli solar yn y Ganolfan Drafnidiaeth newydd yn y Porth ac ar ein Hunedau Busnes yn Nhonyrefail, yn Nhrecynon ac yn Aberdâr.

**Byddwn hefyd yn dangos ein cynnydd drwy …**

- Nifer y busnesau sydd wedi dechrau a chau ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Nifer y busnesau a sefydliadau sy'n cael cymorth trwy raglenni cymorth grant.
- Nifer y swyddi sy'n cael eu creu a'u diogelu mewn busnesau trwy raglenni cymorth grant.

**<u>Sicrhau bod gennym ysgolion da fel y gall pob plentyn fanteisio ar addysg wych.</u>**

**Ymhlith pethau eraill, gwnaethom**

- Roi ffyrdd newydd ar waith o addysgu ein disgyblion ar-lein. Darparom dros 5,500 o ddyfeisiau i blant i'w helpu i barhau i astudio gartref neu darparom becynnau gwaith wedi'u hargraffu lle'r oedd hyn yn fwy defnyddiol i ddysgwyr.
- Sefydlu 25 o ganolfannau gofal brys i blant gweithwyr allweddol a phlant agored i niwed, gan ddarparu ar gyfer dysgwyr Cymraeg a Saesneg.
- Cefnogi ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion i helpu disgyblion a dysgwyr agored i niwed i barhau i ddysgu mewn hybiau dysgu Cymraeg a Saesneg, yn yr ysgol neu gartref, gan ddarparu offer lle'r oedd angen.
- Rhoi ymyrraeth gynnar a chymorth ar waith i ddysgwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ym mhedair o'n hysgolion uwchradd a pharhaom weithio tuag at roi cymorth effeithiol ar waith i bob dysgwr rhwng 0 a 25 oed ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Cefnogi llesiant ac iechyd meddwl disgyblion, gan sefydlu ffyrdd ymarferol o gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel mewn ysgolion a lleihau'r angen iddynt ynysu.
- Parhau i fuddsoddi yn ein hadeiladau a'n cyfleusterau ysgol trwy Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan gynnwys
    - Agor ysgol gynradd carbon isel newydd yn Hirwaun yn Hydref 2020.
    - Cwblhau cam cyntaf y gwaith yn ysgol gynradd Ffynnon Taf.
    - Bwrw ymlaen â chynlluniau i fuddsoddi £56.6M i wella cyfleusterau ysgol ar draws ardal Pontypridd, gan gynnwys ysgol 3-16 newydd ar safle Ysgol Uwchradd Pontypridd, darpariaeth chweched dosbarth fwy effeithiol a mwy o leoedd addysg cyfrwng Cymraeg. Fel rhan o'r buddsoddiad hwn, rydym hefyd wedi cwblhau'r paratoadau cynnar ar gyfer ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydyfelin ac adeilad ysgol 3-16 newydd, gyda darpariaeth arbenigol i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ar safle Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen.
    - Cael caniatâd cynllunio ar gyfer gwelliannau i Ysgol Gynradd Cwmlai ac i Ysgol Gyfun Rhydywaun, gyda buddsoddiad sy'n gyfanswm o £13.72M.
    - Cytuno ar £3.5M o gyllid ar gyfer estyniad newydd i Ysgol Gynradd Gymraeg, Aberdâr.
    - Buddsoddi £5.78M mewn cynnal a chadw ysgolion eraill a gwneud gwelliannau iddynt e.e. adnewyddu toiledau, gwella ceginau, gosod boeleri newydd, adnewyddu toeon, gosod TG a'i gwneud hi'n haws i blant ag anghenion symudedd fynd i mewn i ysgolion a symud o'u cwmpas.

**Mae ein cynlluniau ar gyfer 2021 - 22 yn gynnwys**

- Parhau i gynorthwyo ysgolion i ddarparu dysgu ac addysgu o ansawdd uchel fel y gall myfyrwyr gyflawni'u potensial a gweithio gyda'n partneriaid rhanbarthol yng Nghonsortiwm Canolbarth y De i gynorthwyo ysgolion lle y mae'r angen mwyaf a lle y mae'r pandemig wedi effeithio fwyaf ar gynnydd dysgwyr.
- Gwella presenoldeb disgyblion ym mhob ysgol yn ddiogel a rhoi cymorth ac anogaeth i ddysgwyr a'u teuluoedd er mwyn gwella'u lefelau ymgysylltu â bywyd yr ysgol.
- Parhau i helpu ysgolion i roi ffyrdd ar waith o wella llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr, gan gynnwys mwy o gwnsela yn yr ysgol i blant a phobl ifanc.
- Gwneud yn siŵr bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol a phlant yn ein gofal yn cael y cymorth gorau posibl yn ein hysgolion.
- Cynorthwyo plant i gael y dechrau gorau posibl trwy gyflwyno 5 prosiect i wella ansawdd ac argaeledd darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar yn ein hysgolion a rhoi cymorth i'r sector gofal plant.
- Rhoi cyfleoedd newydd a gwell cyfleoedd i'n dysgwyr ysgol uwchradd i baratoi ar gyfer gwaith, hyfforddiant neu addysg bellach trwy gyngor ac arweiniad da ar yrfaoedd.
- Gwella adeiladau ein hysgolion trwy raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i ddarparu cyfleusterau dysgu o ansawdd uchel a lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, a chynnwys rhieni, gofalwyr a chymunedau wrth ddatblygu ein cynlluniau at y dyfodol. Mae ein rhaglen yn cynnwys
    - ymgynghori â phreswylwyr am ysgol cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer YGG Llyn y Forwen, Glynrhedynog,
    - bwrw ymlaen â phrosiectau ysgolion yn ardal Pontypridd, gan gynnwys chweched dosbarth ehangach ac adeiladau newydd yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, ysgol 3-16 newydd yn y Ddraenen Wen, ysgol 3-16 newydd ym Mhontypridd ac ysgol cyfrwng Cymraeg newydd,
    - dechrau cynllunio a pharatoi ar gyfer tri phrosiect ysgol newydd yn Ysgol Gynradd Pen-y-gawsi yn Llantrisant, Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref ym Mhontypridd ac Ysgol Gynradd Pont-y-clun,
    - bwrw ymlaen â'r adeiladau newydd yn Ysgol Gynradd Ffynnon Taf, gan gynnwys bloc ysgol newydd y bydd Rhwydwaith Gwres Ffynnon Thermol Ffynnon Taf yn ei wresogi, gan ddarparu gwresogi carbon isel i'r ysgol.

  Gallwch weld rhagor am ein cynnydd a'n cynlluniau Ysgolion yr 21ain Ganrif ar ein gwefan, lle y cewch ragor o wybodaeth hefyd am welliannau mewn ysgolion eraill.

- Annog ein dysgwyr i gymryd rhan mewn newidiadau a fydd yn helpu i leihau effaith y newid yn yr hinsawdd, e.e. trwy ddarparu mwy o opsiynau prydau bwyd llysieuol a fegan mewn ysgolion, defnyddio llai o blastigau untro yn ein hysgolion a chefnogi eco-bwyllgorau ysgolion i hybu gweithredu ynghylch y newid yn yr hinsawdd.

**Byddwn hefyd yn dangos ein cynnydd drwy …**

- Ein rhaglen gwelliannau ac adeiladu Ysgolion yr 21ain Ganrif.
- Gwybodaeth am bresenoldeb disgyblion yn ein holl ysgolion.

**<u>Cynyddu nifer y cartrefi o ansawdd sydd ar gael ac sy'n fforddiadwy er mwyn cynnig mwy o ddewis o dai i breswylwyr</u>**

**Ymhlith pethau eraill, gwnaethom**

- Flaenoriaethu' angen am dai mewn ymateb i Covid-19, gan gynnwys digartrefedd, llety dros dro a chymorth i landlordiaid, a datblygu Cynllun Adfer integredig o ran Digartrefedd.
- Rhoi asiantaeth osod gymdeithasol ar waith i osod eiddo preifat ar rent ar ran landlordiaid i ddarparu tai fforddiadwy i bobl mewn angen a phobl mewn perygl o fod yn ddigartref.
- Gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddarparu 164 o gartrefi fforddiadwy o safon ar draws RhCT trwy'r Grant Tai Cymdeithasol. Dewiswyd mathau o dai i fodloni anghenion ein preswylwyr a gwnaethant gynnwys llety hygyrch, arbenigol a llety wedi'i addasu i bobl ag anghenion penodol, gan gynnwys llety â chymorth i bobl ag anableddau dysgu a byngalos wedi'u haddasu i bobl y mae pwysau yn effeithio ar eu hiechyd. Darparwyd yr holl dai fforddiadwy gan gontractwyr o dde Cymru, gyda 50% ohonynt gan gontractwyr yn RhCT.

**Mae ein cynlluniau ar gyfer 2021- 22 yn cynnwys**

- Gweithio gyda Chymdeithasau Tai a phartneriaid eraill i roi mwy o dai carbon isel ar waith.
- Edrych ar ffyrdd o ariannu'r gwaith o wneud tai presennol yn dai carbon isel.
- Dod o hyd i ffyrdd o helpu tai newydd i greu eu hynni eu hunain.
- Adfer mwy o eiddo gwag ar draws y Fwrdeistref Sirol i'w defnyddio eto.

**Byddwn hefyd yn dangos ein cynnydd drwy …**

- Nifer yr ymyriadau i adfer eiddo gwag i'w defnyddio eto, a faint o eiddo sydd wedi'u hadfer yn llwyddiannus i'w defnyddio eto.
- Nifer y cartrefi newydd a ddarparwyd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

**<u>Helpu pobl i waith ac i waith â thâl gwell</u>**

**Ymhlith pethau eraill, gwnaethom**

- Fethu â gwneud cymaint ag y bwriadom ond parhaom gynorthwyo pobl i gyrraedd eu potensial trwy brosiectau sy'n bodloni'u hanghenion orau e.e.
  - Ein cefnogaeth i bobl ar ein rhaglen Llwybr Cyflogaeth, gan gynnwys darparu mynediad at TGCh trwy roi Chromebooks ar fenthyg i'r bobl hynny nad oes cyfarpar digidol ar gael iddynt.
  - Rhoi cynllun KickStart Llywodraeth y DU ar waith i greu swyddi i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed.
  - Cefnogom dros 1,350 o bobl trwy gymorth mentora, hyfforddiant neu i ennill cymwysterau. Llwyddodd 545 o bobl i sicrhau cyflogaeth yn sgil ein cefnogaeth.
- Parhau i helpu pobl ifanc sy'n gadael ein gofal trwy roi cyfle iddynt ennill profiad gwaith â thâl gyda'r Cyngor. Hefyd, rydym wedi parhau i roi cefnogaeth i bobl ifanc eraill yn ein gofal a'r rheiny sy'n gadael gofal i amlygu cyfleoedd hyfforddiant a gwaith. I bobl ifanc ag anawsterau neu anableddau dysgu, mae'r rhaglen 'Porth at Newid' yn rhoi cyfle i bobl ifanc ennill profiad gwaith yn y Cyngor fel rhan o'u cwrs coleg yng Ngholeg y Cymoedd.

- Recriwtio 33 o Brentisiaid a 26 o Raddedigion ar draws gwasanaethau'r Cyngor, y nifer uchaf eto, gan ddarparu hyfforddiant a phrofiad gwaith o safon i bobl ifanc lleol.
- Cynnal ein Ffair Yrfaoedd rithwir gyntaf, gyda 32 o gyflogwyr lleol a chenedlaethol a thros 500 o swyddi a chyfleoedd hyfforddi'n cael eu cynnig.

Cewch ragor o wybodaeth am ein rhaglenni Cyflogaeth ac Addysg ar ein gwefan.

**Mae ein cynlluniau ar gyfer 2021- 22 yn cynnwys**

- Parhau i helpu preswylwyr i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder y mae arnynt eu hangen ar gyfer gwaith neu hyfforddiant.
- Cynorthwyo cyflogwyr i ddarparu profiad gwaith a chyfleoedd am swyddi trwy raglen KickStart Llywodraeth y DU
- Darparu lleoliadau profiad gwaith ar draws gwasanaethau'r Cyngor i bobl sy'n gadael ein gofal, sy'n ddi-waith neu sydd ag anabledd dysgu.
- Cynnal dwy Ffair Yrfaoedd rithwir a fydd yn helpu cyflogwyr i gyrraedd preswylwyr sy'n chwilio am gyfleoedd i weithio a hyfforddi.

**Byddwn hefyd yn dangos ein cynnydd drwy …**

- Nifer y bobl ar ein rhaglenni Cymorth Cyflogaeth.
- Nifer y bobl sy'n dod o hyd i waith o'n rhaglenni Cymorth Cyflogaeth.
- Nifer y cyfleoedd 'KickStart' a gynigir o fewn y Cyngor ac ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- % yr ymadawyr ysgol nad ydynt mewn Addysg, Chyflogaeth neu Hyfforddiant.

| Llewyrchus | Gwydn | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Cewch weld mwy o fanylion am sut y byddwn yn parhau â'n gwaith i gefnogi FFYNIANT trwy 'greu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd a chyflawni'u potensial' yn ein Cynllun FFYNIANT 2021-22.**

## Gwneud y defnydd gorau o'n cyllideb – Llunio'r wadn fel bo'r troed

Mae Rhondda Cynon Taf, fel y sector cyhoeddus ehangach, wedi bod trwy brofiad hirfaith o ostyngiadau tymor real mewn cyllid ers nifer o flynyddoedd ac, yn fwy diweddar, mae wedi wynebu heriau digynsail oherwydd pandemig Covid-19, digwyddiad mwy nag unrhyw beth a welsom ers degawdau.


Yn wyneb y cefndir hwn, mae ymagwedd gadarn y Cyngor tuag at reoli a chynllunio ariannol wedi helpu i barhau i gyflwyno amrywiaeth o wasanaethau pwysig i breswylwyr a busnesau, ac wedi cynnal iechyd a sefydlogrwydd ariannol y Cyngor.

<u>Perfformiad Ariannol - 2020/21</u>

Sefyllfa cyllideb refeniw'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn oedd gorwariant o £0.204Miliwn o gymharu â chyfanswm cyllideb o £508Miliwn, gyda phwysau allweddol ar y gyllideb ar draws Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion a Gwasanaethau Plant yn enwedig. Roedd y sefyllfa hon hefyd yn cyfrif am gymorth ariannol penodol, gwerth £49Miliwn, a hawliwyd trwy Gronfa Caledi Covid Llywodraeth Cymru a roddodd gymorth i bob awdurdod lleol yng Nghymru ateb y costau ychwanegol a'r colledion i incwm a gafwyd o ganlyniad i'r pandemig, er enghraifft, costau ychwanegol a gafwyd o ran tai / digartrefedd, taliadau prydau ysgol am ddim, Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, costau cyflenwi staff oherwydd absenoldeb / gwarchod a mwy o alw am Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor, a cholledion i incwm lle'r oedd agen atal gwasanaethau dros dro neu eu torri'n ôl, fel Canolfannau Hamdden a darparu prydau ysgol.

Roedd buddsoddiad y Rhaglen Gyfalaf yn gyfanswm o £102Miliwn ar gyfer y flwyddyn, ac fe'i cefnogwyd trwy adnoddau'r Cyngor a chyllid Llywodraeth Cymru, gan gynrychioli rhaglen uchelgeisiol o fuddsoddi sylweddol yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r buddsoddiad hwn yn gwneud gwelliannau gweladwy ar draws y Fwrdeistref Sirol ac mae'n cynnwys ffocws parhaus ar: adfywio canol y dref a busnesau; moderneiddio opsiynau llety i bobl hŷn trwy raglen gyfredol o gyfleusterau Gofal Ychwanegol newydd; ysgolion newydd a moderneiddio ysgolion presennol; gwelliannau i briffyrdd, pontydd a phontydd troed; gwaith lliniaru llifogydd; a gwelliannau i barciau a mannau chwarae.

Yn holl bwysig, mae'r Cyngor wedi gallu cynnal lefelau buddsoddi cyfalaf sylweddol dros nifer o flynyddoedd trwy ddull sy'n adolygu ac yn ail-flaenoriaethu ei adnoddau ei hun mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio, sydd wedi galluogi buddsoddiad ychwanegol o £123Miliwn yn ychwanegol at ddyraniadau arferol y rhaglen gyfalaf ers 2015, fel yr amlinellir isod.




Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r Cyngor lunio Datganiad o Gyfrifon yn flynyddol sy'n amlinellu'i sefyllfa ariannol bob blwyddyn ac mae hwn yn destun archwiliad allanol annibynnol. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, cwblhawyd yr archwiliad allanol a rhoddodd yr archwilydd farn ddiamod (h.y. doedd dim o'i le), gan roi sicrwydd ynghylch cadernid trefniadau'r Cyngor a'i sefyllfa ariannol gyffredinol.

**2021/22 ac Edrych Tua'r Dyfodol**

Ar 10 Mawrth 2021, cymeradwyodd y Cyngor gyllideb refeniw gytbwys ar gyfer 2021/22 a wnaeth gyfrif am newid yn y galw am wasanaethau, effaith barhaus Covid-19 sy'n dod i'r amlwg a phwysau chwyddiant; sicrhau bod ein hysgolion wedi'u hariannu'n llawn; a pharhau â buddsoddiadau ychwanegol mewn meysydd â blaenoriaeth, fel cymorth i fusnesau, y newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon, llesiant staff, gwasanaethau amddiffyn ac iechyd y cyhoedd, a chymorth atal llifogydd.

Mae cyllideb refeniw 2021/22 yn adlewyrchu cynnydd o £19.1Miliwn mewn gwariant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac fe'i hariannir trwy gynnydd o +3.8% yn yr arian gaiff y Cyngor gan ei brif ffynhonnell gyllid, Llywodraeth Cymru; cyflawni arbedion effeithlonrwydd sylweddol na fyddant yn effeithio ar wasanaethau rheng flaen (£4.6Miliwn); a pharhau ag ymagwedd gyfrifol at osod lefel Treth y Cyngor, a'r cynnydd o +2.65% yw'r isaf ledled Cymru am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'r Cyngor wedi parhau i fabwysiadu ymagwedd tymor canolig at gynllunio gwasanaethau a chynllunio ariannol, a chyhoeddodd Gynlluniau Ariannol Tymor Canolig wedi'u diweddaru ar 13 Hydref 2020 ac 20 Gorffennaf 2021. Mae'r rhagolygon diweddaru diweddaraf yn rhagweld y bydd amgylchedd heriol iawn yn parhau ac y bydd angen gwneud arbedion sylweddol yn y gyllideb dros y 3 blynedd nesaf i ateb y galw cynyddol am wasanaethau, yn enwedig gwasanaethau gofal cymdeithasol, a phwysau chwyddiant penodol, a chefnogi effeithiau tymor hwy parhaus a phosibl pandemig Covid-19 ar ein cymunedau hefyd.

Fel rhan o'n hymagwedd tymor canolig at gynllunio gwasanaethau a chynllunio ariannol, mae rhaglen waith yn mynd rhagddi i amlygu opsiynau arbedion i'r gyllideb ac mae'n cwmpasu: gwneud y mwyaf o gyfleoedd am arbedion effeithlonrwydd gan gynnwys adolygu gofynion o ran y gweithlu ac adnoddau; cyflwyno ein Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol (gan gynnwys ein hymrwymiad a'n buddsoddiad sylweddol mewn darparu cyfleusterau Gofal Ychwanegol); adolygu gofynion ein cyllidebau sylfaenol ar lefel gwasanaeth ac awdurdod gyfan, gan gynnwys ein hasedau adeiledig; gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fuddsoddi at y tymor hir a chydweithredu ag eraill; a ffocws ar egwyddorion Digideiddio, Masnacheiddio, Ymyrryd yn Gynnar ac Atal, Annibyniaeth a bod yn Sefydliad Effeithlon ac Effeithiol.

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn aelod o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan chwarae rhan ganolog mewn cyflwyno cynllun hirdymor cyffrous ac uchelgeisiol i wella economi de-ddwyrain Cymru.

## Bwrdeistref Sirol Deg a Chyfartal

Rydym am i bawb yn y Fwrdeistref Sirol, ni waeth ble maen nhw'n byw na beth yw eu cefndir, gael cyfle teg mewn bywyd a gwneud Rhondda Cynon Taf yn lle teg a chyfartal i fyw a gweithio ynddo. Rydym yn cydnabod ac yn parchu gwahaniaethau ac yn addasu'r hyn rydym ni'n ei wneud fel y gall pawb elwa.

Rydym yn rhoi pwys ar ein holl staff a'u gwahaniaethau ac mae oddeutu 79% o'n staff yn byw yn RhCT. I wneud yn siŵr bod ein staff yn rhoi pwys ar wahaniaethau ymhlith pobl, a'u gwahaniaethau, yn ein cymunedau fel rhan o'u swydd, rydym yn darparu hyfforddiant ac yn codi ymwybyddiaeth o'r materion amrywiol sy'n effeithio ar ein preswylwyr.

<table>
<tr>
<td>Poblogaeth RhCT (Mehefin 2020)<br><br>Cyfanswm - 241,873<br>Dynion - 118,518 (49%)<br>Menywod - 123,355 (51%)</td>
<td>Data Staff RhCT (Mawrth 2021)<br>Mae dros 79% o weithwyr yn byw yn ardal y Cyngor<br>Cyfanswm - 10,790<br>Dynion - 25.5%<br>Menywod - 74.5%</td>
</tr>
<tr>
<td>Ystod oedran<br><br>0-15 - 44,975 - (18.56%)<br>16-64 - 149,661 - (62.11%)<br>65+ - 46,628 - (19.33%)<br>Ffynhonnell: Amcangyfrifon o'r boblogaeth Mehefin 2020 Stats Cymru<br><br>Ethnigrwydd<br>Mae 3.6% o breswylwyr RhCT yn bobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Oherwydd nifer bach y bobl a holwyd yn yr arolwg, efallai nad yw hyn yn adlewyrchiad cywir.<br>Ffynhonnell Mehefin 2020.</td>
<td>Grŵp Oedran | Cyfanswm | % y Gweithlu<br>16-24 | 746 | 6.8%<br>25-34 | 2,038 | 18.6%<br>35-44 | 2,597 | 23.7%<br>45-54 | 3,140 | 28.6%<br>55-64 | 2,157 | 19.7%<br>65+ | 292 | 2.7%<br><br>Mae gwybodaeth fanylach am y gweithle i'w gweld yn yr adroddiad monitro cydraddoldeb blynyddol i'r Cabinet, 19 Mawrth 2019.</td>
</tr>
<tr>
<td colspan="2">Mae 18% o'r holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, o fewn RhCT, ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae 45% ohonynt ymhlith y 30% mwyaf difreintiedig.<br>Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) yn ardal ddaearyddol fechan o ryw 1,500 o bobl. Mae 154 LSOA yn RhCT a 1,909 yng Nghymru. Mae dwy o'r 10 ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn Rhondda Cynon Taf, h.y. Tylorstown 1 a Phenrhiw-ceibr 1A. (Ffynhonnell: WIMD 2019).</td>
</tr>
<tr>
<td colspan="2">Mae Mynegai Cydraddoldeb Llefydd Llewyrchus Cymru 2020 yn mesur anghydraddoldebau ym meysydd Iechyd, Incwm a Chyflogaeth. Mae data 2020 yn rhoi 4.43 i RhCT allan o sgôr o 10 posibl. Mae'r mesur yn cwmpasu llawer o wasanaethau gwahanol a darparwyr gwahanol ar lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, ac mae sgôr RhCT wedi disgyn o 5.26 ers ei chyflwyno yn 2018.</td>
</tr>
</table>

Cyn y pandemig, roeddem yn parhau i wneud cynnydd da tuag at RhCT deg a chyfartal, gydag addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud fel mater o drefn i'n preswylwyr a'n staff ar draws ein holl wasanaethau. Gallwn gyfeirio at lawer o enghreifftiau cadarnhaol o hyn trwy gydol yr adroddiad

hwn, yn ogystal ag yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol, a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Mawrth 2021, yn amlinellu ein gwaith yn 2019/20. Mae'r rhain yn cynnwys

- cyflawni Dyfarniad Arian Insport Academi Valleys Gymnastics yn ennill Dyfarniad Arian Insport ar gyfer cynhwysiant (welshgymnastics.org) oddi wrth Chwaraeon Anabledd Cymru gan ddangos bod gweithgarwch chwaraeon a chorfforol cynhwysol wedi dod yn gyffredin yn Nhîm Chwaraeon RhCT,
- parhau i gynnig cyfleoedd dysgu i bobl ag anableddau dysgu,
- cynnig llinell synhwyraidd sy'n hyrwyddo 'ffôn destun' bwrpasol i gwsmeriaid byddar a thrwm eu clyw,
- rhoi strategaethau ar waith i wella cynhwysiant a llesiant er mwyn cefnogi dysgwyr mewn grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ohonynt, gan gynnwys LHDTC+, pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a lleiafrifoedd ethnig gan gynnwys disgyblion Sipsi, Roma a Theithiwr, a disgyblion sy'n wynebu anfantais economaidd gymdeithasol,
- neilltuo mannau parcio am ddim, 24/7, i ddefnyddwyr anabl yn ein meysydd parcio â thâl, sef 7% o gyfanswm y lleoedd sydd ar gael, sy'n fwy na'r nifer a argymhellir yng nghallaw'r British Parking Association,
- gwneud ein mynwentydd yn fwy hygyrch gan gynnwys toiledau, rampiau a drysau hygyrch, a darparu dolen glyw yn y capeli,
- cefnogi preswylwyr y mae angen cyfieithu ar y pryd a chyfieithu arnynt. Fe wnaeth hyn gynnwys 313 archeb ar gyfer 20 iaith ac Iaith Arwyddion Prydain. Y pum iaith fwyaf cyffredin oedd Portiwgaleg, Mandarin, Iaith Arwyddion Prydain, Arabeg a Thyrceg.

Yn ystod 2020/21, fe wnaeth effaith Covid-19 ar ein preswylwyr a'n cymunedau waethygu llawer o anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli, gan wneud bywyd i bobl sy'n agored i niwed yn fwy heriol fyth. Trwy gydol yr adroddiad hwn, gwelwch sawl ffordd yr ydym ni a'n partneriaid wedi cefnogi ein preswylwyr, gan gynnwys

- cynnig, trefnu a dosbarthu pecynnau bwyd i bobl a oedd yn hynod agored i niwed ac mewn perygl o gael eu heintio, ynghyd â chefnogi banciau bwyd i bobl mewn angen,
- newid y ffordd y gwnaethom gefnogi teuluoedd plant â hawl i brydau ysgol am ddim fel yr oeddent yn gallu parhau i elwa o hyn,
- darparu mynediad at gyfarpar TG a 'MiFi' fel y gallai disgyblion ddysgu gartref,
- ailddechrau'r gwasanaeth llyfrgell 'Gartref' fel bod llyfrau'n cael eu danfon yn ddiogel i ddrysau ein preswylwyr agored i niwed,
- darparu gwybodaeth i breswylwyr, yn enwedig preswylwyr oedrannus neu anabl, i'w cynorthwyo i ailddechrau eu bywyd bob dydd yn ddiogel wrth ddod allan o'r cyfnod clo.

Darn pwysig o'n gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf oedd paratoi i fodloni dyletswydd newydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi ar waith i bob corff cyhoeddus yng Nghymru, a fydd yn cyfrannu at Gymru sy'n fwy Cyfartal. Nod y ddyletswydd newydd hon, y'i gelwir yn ddyletswydd 'economaidd gymdeithasol', yw cyflawni deilliannau gwell i'r bobl hynny sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill sy'n byw yn yr un gymdeithas. Hynny yw, dylem gyfrif am anghenion pobl sy'n llai ffodus nag eraill mewn cymdeithas. Pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau, mae'r ddyletswydd yn golygu bod angen i ni ddeall sut y byddant yn effeithio ar bobl er mwyn gallu ystyried eu hanghenion. Mae'r ddyletswydd wedi'i chyflwyno yn *Cymru sy'n Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010.* Cewch ragor o wybodaeth isod.

Hefyd, rydym wedi dangos ein cefnogaeth tuag at alwad i Lywodraeth Cymru dreialu Incwm Sylfaenol Cyffredinol yng Nghymru ac i lobïo Llywodraeth y DU am gyllid i'w ymestyn ledled Cymru. Trwy Incwm Sylfaenol Cyffredinol, byddai'r Llywodraeth yn talu swm penodedig i bawb i dalu costau sylfaenol, ni waeth a ydynt yn gyfoethog neu'n dlawd, yn gweithio neu'n ddi-waith. Yn sgil cyflwyniad gan Rwydwaith UBI Lab Cymru ym mis Chwefror 2021, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r Rhwydwaith i ddatblygu cynllun peilot i'r Fwrdeistref Sirol, yn amodol ar gyllid gan Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru.
Ynghyd â chefnogi ein preswylwyr, yn ystod 2020/21, parhaom weithio yn y cefndir i gyflawni'r pethau a fyddai'n gwneud gwahaniaeth i fywyd pobl a chymunedau, yn enwedig wrth i ni ddod allan o'r cyfnod clo. Yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2019-22, dywedom y byddem yn canolbwyntio ar y pum maes y dywedodd ein preswylwyr mai'r rhain sy'n bwysicaf iddynt er mwyn helpu i gyflawni Rhondda Cynon Taf decach.

1. Deall yn well anghenion ein cymunedau a'r rhwystrau a wynebant rhag ffynnu.
2. Lleihau anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein cymunedau.
3. Hybu cymunedau diogel.
4. Lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor.
5. Creu gweithlu cynhwysol yn y Cyngor sy'n cynrychioli'r gwahaniaethu yn ein cymunedau

Dyma rywfaint o'r cynnydd a wnaethom dros y flwyddyn ddiwethaf a'n cynlluniau ar gyfer 2021/22

**Dywedom ein bod yn anelu at ddeall yn well anghenion ein cymunedau a'r rhwystrau a wynebant rhag ffynnu. Ymhlith pethau eraill...**

O ganlyniad i'n gwaith gyda'n partneriaid, grwpiau cynrychioli cymunedau a gwirfoddolwyr, dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cryfhau ein perthnasoedd a dysgu rhagor am anghenion cymunedau a'r rhwystrau a wynebant. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys unigrwydd ac ynysu, ynghyd â chael mynediad i adeiladau, defnyddio technoleg, iaith ac a oes trafnidiaeth ar gael.

**Mae ein cynlluniau ar gyfer 2021-22 yn cynnwys**

- Parhau i ymgysylltu â phreswylwyr a grwpiau cymunedol ar draws RhCT fel y gallwn ddysgu rhagor am anghenion cymunedau a'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu. Byddwn yn defnyddio ein llyfrgelloedd, ein rhwydweithiau cymdogaeth, ein hybiau cymunedol a chyfarfodydd wedi'u trefnu i gwrdd â phreswylwyr a grwpiau. Hefyd, byddwn yn defnyddio canfyddiadau arolwg 'RhCT Gyda'n Gilydd' am yr hyn yr hoffai pobl ei weld yn eu cymuned, sgyrsiau 'Dewch i Siarad' eraill a ffynonellau eraill o wybodaeth gymunedol, gan gynnwys y Cyfryngau Cymdeithasol.
- Parhau i wneud ein gwasanaethau'n fwy hygyrch i'n preswylwyr a'n hymwelwyr, gan gynnwys yr iaith a'r dechnoleg a ddefnyddiwn a'r ffyrdd rydym ni'n cyfathrebu.
- Parhau â gwelliannau i wefan y Cyngor er mwyn iddi allu cael ei defnyddio'n hawdd gan gynifer o bobl â phosibl ac fel ei bod yn well na Safonau Hygyrchedd y Llywodraeth.
- Gweithio o fewn cymunedau i wella sgiliau digidol ein preswylwyr fel y gall mwy o bobl gymryd rhan yn y byd digidol.
- Dysgu'r gwersi o'r pandemig i gryfhau'r ffordd yr ydym yn casglu gwybodaeth am ein staff yn y lle cyntaf ac, felly, gwella'n gwybodaeth am Rhondda Cynon Taf fel y gallwn ffocysu cymorth a gwasanaethau yn y dyfodol yn well.

**Dywedom ein bod yn anelu at leihau anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein cymunedau. Ymhlith pethau eraill…**

Parhaom ystyried sut gall ein gwasanaethau gefnogi pobl yn well i gyrraedd eu potensial e.e. mewn addysg, tai a chyflogaeth. Hefyd, gweithiom gyda llawer o rwydweithiau sydd wedi'u sefydlu ar draws y Fwrdeistref Sirol i helpu pobl i leihau'r anghydraddoldebau a wynebant. Nid oeddem yn gallu defnyddio ffyrdd 'rhithwir' i gyfarfod â'r Fforwm Anabledd yn lle ein cyfarfodydd rheolaidd, ond cadwom mewn cysylltiad rheolaidd ag aelodau dros y ffôn ac rydym wedi parhau i drafod sut y gall gwasanaethau gael eu gwella er mwyn bodloni'u hanghenion yn well.

Fe wnaeth ein gwaith i leihau anghydraddoldeb hefyd gynnwys

- Adolygu prosesau recriwtio a dewis y Cyngor i gynyddu amrywiaeth ymgeiswyr.
- Argymell bod y Cyngor yn ymrwymo i gynyddu nifer yr eiddo hygyrch ac wedi'u haddasu sy'n cael eu hadeiladu ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Rhoi'r prosiect Datblygu, Buddsoddi a Thyfu ar waith i wella llesiant a deilliannau cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn 100 a mwy o Fusnesau Bach a Chanolig (BBaCh) yn Rhondda Cynon Taf.
- Darparu gwybodaeth trwy amrywiaeth o fformatau hygyrch sy'n bodloni gwahanol anghenion orau, gyda ffocws ar y wybodaeth a ddarparwn i bobl yn y gymuned fyddar.
- Datblygu gwybodaeth am LHDT+ i athrawon yn ein hysgolion fel eu bod yn fwy hyderus i gefnogi ac addysgu disgyblion am y pynciau penodol hyn.
- Sefydlu gweithgor LHDT+ i wella'r cymorth i blant a phobl ifanc, a phlant sy'n troi at wasanaethau'r Cyngor neu sy'n mynd i unrhyw rai o'n Hysgolion.
- Darparu gwybodaeth i reolwyr a Chynghorwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r hyn y disgwylir ohonynt i fodloni'r ddyletswydd 'economaidd gymdeithasol' newydd. Hefyd, rydym wedi newid y ffordd y darparir gwybodaeth yn adroddiadau'r Cyngor fel bod gan Gynghorwyr y wybodaeth y mae arnynt ei hangen i wneud penderfyniadau mwy gwybodus, fel y gall mwy o bobl mewn cymunedau fwynhau bywyd hir, iach a llwyddiannus. Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi fideo byr ar y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol, sydd ar gael ar eu gwefan.

**Mae ein Cynlluniau ar gyfer 2021-22 yn cynnwys**

- Gwella hygyrchedd i wasanaethau'r Cyngor, yn enwedig i bobl fyddar ac anabl.
- Datblygu Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hil a fydd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hil-ddiffiniedig yn y Fwrdeistref Sirol.
- Gweithio yn ein hysgolion i wella adnoddau ac ymwybyddiaeth o ddeunyddiau gwrth-hiliaeth.
- Gweithio tuag at wella cyfleoedd i bawb gael at fywyd gwleidyddol.
- Rhoi her cydraddoldeb ar waith ar gyfer penderfyniadau allweddol y Cyngor.
- Datblygu cymorth cyflogaeth trwy Gymunedau am Waith y gellir eu cynnig ar-lein, yn ogystal ag wyneb yn wyneb.
- Sicrhau bod ffactorau llesiant ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd yn ganolog yn ein darpariaeth gwasanaethau.
- Rhwymo RhCT i ddod yn Sefydliad Disability Smart, fel y'i diffinnir gan y Business Disability Forum (BDF). Hefyd, bydd hyn yn helpu'r Cyngor i fod yn Hyderus o ran Anabledd ac yn helpu gwasanaethau ar draws y Cyngor i wneud y mwyaf o'r doniau y gall pobl anabl eu dwyn i'r gweithle a gwella cyfleoedd a phrofiadau bywyd pobl anabl mewn cyflogaeth, twf economaidd a chymdeithas yn ehangach.

**Dywedon ein bod yn anelu at hyrwyddo cymunedau diogel. Ymhlith pethau eraill, gwnaethom…**

- Barhau i gynorthwyo pobl sy'n dioddef cam-drin domestig, mor ddiogel â phosibl o fewn canllawiau Covid.

- Parhau i weithio gyda Heddlu De Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a phartneriaid eraill i godi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, gan ddweud wrth bobl sut i roi gwybod amdano ac o ble i gael cymorth trwy
  - siarad â phobl yng nghanol trefi.
  - rhyddhau 5 fideo byr ar y cyfryngau cymdeithasol ac allfeydd eraill ar Hil, Anabledd, Hunaniaeth Rhywedd, Cyfeiriadedd Rhywiol a Crefydd.
  - ymddangos ar yr orsaf radio leol GTFM.
  - mynd i ysgol gynradd leol yn ddiogel fel rhan o Raglen Addysg Dinasyddiaeth Blwyddyn 6.
- Rhoi cymorth a thawelwch meddwl i berchennog sip a oedd yn dioddef cam-drin hiliol.
- Datblygu perthnasoedd da gyda Chymuned Sipsiwn Beddau a'r Gymuned Fwslimaidd ym Mosg Aberdâr, gan ddarparu gwybodaeth am sut i roi gwybod am Droseddau Casineb a'u hannog i wneud hynny.
- Mynychu'r Grŵp Cynghori Pobl Hŷn i ddarparu gwybodaeth a thawelwch meddwl yn sgil eu pryderon am densiynau cymunedol cynyddol gyda phobl iau yn ystod y cyfnod clo.
- Cefnogi 9 o deuluoedd o Syria fel rhan o raglen ailgartrefu Llywodraeth Cymru.

**Mae ein Cynlluniau ar gyfer 2021-22 yn cynnwys**

- Parhau i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon fel y gallant gefnogi dysgwyr LHDT+ ac ethnig leiafrifol yn well.
- Parhau i godi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn ein hysgolion, ein colegau a'n cymunedau.
- Gweithio gyda Chymorth i Fenywod i gryfhau ein hymateb a'n cefnogaeth i bobl sy'n profi Trais yn y Cartref.
- Parhau i weithio gydag ysgolion i gefnogi iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol cadarnhaol ymhlith dysgwyr.
- Gweithio gyda Heddlu De Cymru er mwyn cryfhau'r ffyrdd rydym ni'n cadw menywod a merched yn ddiogel yn RhCT.

**Dywedom ein bod yn anelu at leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor. Ymhlith pethau eraill eleni, gwnaethom…**

Barhau i fonitro data'r gweithlu ac rydym wedi adrodd bod y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn y cyngor wedi gostwng am y drydedd flwyddyn yn olynol; gweler ein *Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2019/20*.

**Mae ein Cynlluniau ar gyfer 2021-22 yn cynnwys**

- Datblygu rhaglen newydd, Menywod mewn Arweinyddiaeth, a fydd ar waith yn 2021-22.
- Gwella ein cefnogaeth i staff beichiog a'r rheiny sydd ar gyfnod mamolaeth fel rhan o'r adduned 'Working Forward' cenedlaethol fel bod y gweithle orau y gall fod i fenywod beichiog a rhieni newydd.
- Ailddechrau trafodaethau ein Hadolygiadau blynyddol o Berfformiad fel rhan o'n trefniadau datblygu staff.

**Dywedom ein bod yn anelu at greu gweithlu cynhwysol o fewn y Cyngor sy'n cynrychioli'r gwahaniaethau yn ein cymunedau. Ymhlith pethau eraill, gwnaethom**

- Barhau i gyflawni ein cyfrifoldebau o dan y Cynllun 'Hyderus o ran Anabledd' fel y gallwn, fel cyflogwr, wneud y mwyaf o ddoniau pobl anabl, gan gynnwys darparu meddalwedd cyfrifiadurol 'Read&Write' i gefnogi cydweithwyr dyslecsig a niwroamrywiol.

- Parhau i ganolbwyntio ar Iechyd Meddwl trwy ddarparu gwybodaeth a chymorth uniongyrchol i helpu staff i ofalu am eu hiechyd meddwl a'u llesiant yn ystod y pandemig ac i siarad am eu hiechyd meddwl heb farnu.
- Cadw ein safle yng 100 uchaf Stonewall. Yn rhan o hyn, rydym hefyd wedi gallu cynnig cyrsiau hyfforddiant yn rhad ac am ddim i'n hysgolion i gefnogi disgyblion LHDT+ ag iechyd meddwl a heriau a phroblemau penodol eraill y gallent eu hwynebu.
- Cryfhau ein ffocws ar Gydraddoldeb Hil trwy
    - gymryd camau cadarnhaol i benodi aelod staff sy'n helpu i herio ein meddwl a'n gwaith,
    - rhoi rhwydwaith staff ar waith ar gyfer pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, 'Spotlight', sy'n ein helpu i ddeall profiad bod yn aelod du o staff ac yn breswylydd du mewn cymuned,
    - comisiynu prosiect ymchwil i edrych ar brofiad disgyblion duon yn ein hysgolion uwchradd.
- Dangos ein cefnogaeth ar gyfer ymagwedd dim goddefgarwch tuag at hiliaeth trwy lofnodi adduned Dim Hiliaeth Cymru.
- Codi ymwybyddiaeth o ddiwrnodau ymwybyddiaeth cenedlaethol a rhyngwladol gydag erthyglau, gweithgareddau neu ddigwyddiadau ar gyfer
    - Diwrnod Rhyngwladol Pobl ag Anableddau
    - Diwrnod Menopos y Byd
    - Mis Iechyd Meddwl Dynion
    - Diwrnod Mae'n Amser Siarad
    - Diwrnod Rhyngwladol Menywod
    - Mis Hanes Pobl Dduon
    - Mae Bywydau Du o Bwys
    - Mis hanes LHDT+
    - Diwrnod Gweledεdd Lesbiaid
    - Diwrnod Cofio'r Holocost
- Hefyd, rydym wedi cefnogi Rhwydweithiau Staff RhCT
    - 'Perthyn', ein rhwydwaith LHDT+
    - Rhwydwaith y Cynghreiriaid
    - Rhwydwaith Anabledd a Staff sy'n Ofalwyr
    - 'Spotlight' – ein Rhwydwaith Cydraddoldeb Hil newydd
    - Rydym wedi arwain Rhwydwaith Rhanbarthol 'Cynghorau Balch', yn hyrwyddo ac yn cyflawni gweithle a chymuned gynhwysol i bawb sy'n LHDT+ ar draws Cynghorau de Cymru.

**Mae ein Cynlluniau ar gyfer 2021-22 yn cynnwys**

- Parhau i godi proffil y gweithgareddau a'r digwyddiadau ymwybyddiaeth cenedlaethol a rhyngwladol.
- Gweithio gydag Undebau Llafur i
    - godi ymwybyddiaeth staff o Aflonyddu Rhywiol yn y gweithle,
    - datblygu cyfleoedd pellach i hyfforddi staff trwy Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF).
- Ymrwymo i'r Siarter Hil yn y Gwaith, a lansiwyd gan Fusnes yn y Gymuned, sy'n anelu at fynd i'r afael â "gwahaniaethau ethnig yn y gweithle"
- Datblygu Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol i ddangos nad ydym yn dangos goddefgarwch tuag at hiliaeth.
- Rhoi grŵp llywio hygyrchedd ar waith. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys aelodau o amrywiol feysydd ar draws y Cyngor a bydd yn cynghori ar waith a gwelliannau hygyrchedd parhaus. Hefyd, rydym yn gweithio ar gynnig i feysydd gwasanaeth y Cyngor ddod yn sefydliad Ystyriol o Awtistiaeth.

**Hefyd, rydym yn parhau i gryfhau ein dealltwriaeth o anghenion cyn Aelodau'r Lluoedd Arfog,** a chefnogi cymuned y Lluoedd Arfog yn lleol, gan gynnwys staff sydd ac a arferai wasanaethu, a'u teuluoedd, trwy ein hymrwymiad parhaus i Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Mae ein gwaith yn cynnwys

**Cefnogi Plant Aelodau'r Luoedd Arfog mewn Addysg:**
trwy weithio gyda'n partneriaid yn y Lluoedd Arfog a Cynorthwyo Plant Milwyr yng Nghymru (SSCE Cymru), rydym yn dysgu mwy am 'blant aelodau'r lluoedd arfog' mewn ysgolion ar draws RhCT. Darganfuom fod 114 o ddisgyblion y diffinnir eu bod yn 'blant aelodau'r lluoedd arfog' ar draws 48 o ysgolion. O ganlyniad i hyn, dyfarnwyd £15,500 i ni ym mis Ebrill 2021 i wella'r gefnogaeth i'r plant hyn yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21. Bydd y cymorth hwn yn cynnwys

- Adnoddau Little Troopers: Pecynnau Adnoddau Cynradd a Phecynnau Llesiant, a gyflwynir yn ystod tymor yr haf mewn ysgolion â phlant oedran cynradd i aelodau'r lluoedd arfog. Hefyd, mae'n cynnwys cynlluniau gwersi a deunyddiau i athrawon eu defnyddio ym mhob lleoliad, yn archwilio pynciau fel gwahanu, anfon ar leoliad, symud tŷ yn ogystal â themâu perthyn, hunaniaeth ac ymwybyddiaeth ofalgar.
- Gweithdai Forces Fitness: fe'u cyflwynir ym mhob ysgol uwchradd ac ysgol pob oed. Bydd ffocws y gweithdai hyn ar iechyd, llesiant a meithrin gwydnwch.

**Parhau â'r Gwasanaeth Cyngor i Gyn-filwyr:**
gan fodloni anghenion am dai, helpu i fodloni anghenion Gofal Cymdeithasol, cefnogi cyn-filwyr trwy Gronfa Ymddiriedolaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog. Bydd hyn yn ein galluogi ni i barhau i ddarparu cyngor a chymorth pwrpasol i gymuned y Lluoedd Arfog. Ers lansio'r gwasanaeth yn 2019, rydym wedi cael dros 300 o atgyfeiriadau uniongyrchol (hyd at fis Ebrill 2021) ac rydym wedi gallu helpu cyn-filwyr mewn sawl ffordd, gan gynnwys gyda hawliadau am fudd-dadliadau, materion ariannol a chael gwaith.

**Cefnogi Grwpiau Cyn-filwyr:**
trwy barhau i adeiladau ar berthnasoedd â chymuned y Lluoedd Arfog. Yn ystod y pandemig, sefydlog rhith-gyfarfodydd wythnosol trwy Zoom ar gyfer boreau coffi Cyn-filwyr y Cymoedd a Chyn-filwyr Cwm Cynon.

**Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth o Gyfamod y Lluoedd Arfog:**
trwy lansio hyfforddiant ar Gyfamod y Lluoedd Arfog i godi ymwybyddiaeth o Gyfamod y Lluoedd Arfog. Mae'r hyfforddiant ar gael i holl staff y Cyngor a chynhwysir gwybodaeth am Gyfamod y Lluoedd Arfog fel rhan o drefniadau cynefino'r Cyngor i bob aelod staff newydd. Mae'r hyfforddiant ar gael yn rhad ac am ddim hefyd i sefydliadau a busnesau ar draws RhCT a gellir ei deilwra i ateb anghenion a gofynion eu busnes. Ar ôl cyflwyno sesiwn ymwybyddiaeth i Sefydliad y Merched Canolbarth Cwm Rhondda ar Gyfamod y Lluoedd Adborth, cawsom adborth cadarnhaol ac yn anad dim, roeddem yn gallu canfod mwy o gyn-filwyr yn yr ardal honno.

**Prosiect Cysylltu Cyn-filwyr:**
Ym mis Mawrth 2021, dyfarnodd Rhaglen Positive Pathways Cyfamod y Lluoedd Arfog £18,900 i ni sy'n helpu i gefnogi iechyd meddwl a llesiant cyn aelodau'r lluoedd arfog. Bydd y cyllid yn ein helpu i brynu dyfeisiau electronig a'u llogi i gyn-filwyr fel rhan o'n prosiect 'Cysylltu Cyn-filwyr'. Nod prosiect 'Cysylltu Cyn-filwyr' yw helpu i wella llesiant cyn-filwyr trwy eu helpu i gadw mewn

cysylltiad â theulu a ffrindiau gan ddefnyddio technoleg ddigidol. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â phedwar Cyngor cyfagos i gyflwyno'r prosiect hwn.

**Mae ein cynlluniau ar gyfer 2021-22 yn cynnwys**
Parhau i gefnogi staff a chyn aelodau'r lluoedd arfog ar draws Rhondda Cynon Taf trwy

- Gynnal sgyrsiau gyda phobl a chymunedau ar draws RhCt i weld a ydynt yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael i'n Lluoedd Arfog a'n Cyn-filwyr.
- Annog mwy o gyn-filwyr i gymryd rhan yn ein boreau coffi 'rhithwir'.
- Parhau i logi cyfarpar electronig er mwyn helpu i leihau unigedd cymdeithasol fel rhan o brosiect 'Cysylltu Cyn-filwyr'.
- Codi ymwybyddiaeth am amrywiaeth y gwasanaethau sydd ar gael i Gyn-aelodau'r Lluoedd Arfog trwy'r cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau wyneb yn wyneb pan fydd hi'n ddiogel gwneud hynny.
- Darparu pecynnau llesiant Little Troopers yn ystod tymor yr haf i ysgolion sydd â phlant oed cynradd i aelodau'r lluoedd arfog. Mae'r pecynnau hefyd yn cynnwys cynlluniau gwersi a deunyddiau i athrawon eu defnyddio.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog, e-bostiwch Armedforces@rctcbc.gov.uk

Ni allwn ddisgrifio'r holl waith y mae'r Cyngor yn ei wneud i wneud RhCT yn Fwrdeistref Sirol deg a chyfartal yn yr adroddiad hwn, ond cewch wybodaeth fanylach am ein gwaith yn ein Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol diweddaraf a thrwy ddilyn ein cyfryngau cymdeithasol.

Mae ein gwaith i gyflwyno'n cynlluniau yn ein helpu i ddangos sut rydym yn cyfrannu at Gymru 'Sy'n Fwy Cyfartal' – *Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.* Ond, mae hefyd yn ceisio cefnogi'r holl nodau Llesiant, gan gynnwys Cymru ' o Gymunedau Cydlynus a Chymru 'Lewyrchus'.

**Cyfrannu at RhCT a Chymru sydd**

| Yn Llewyrchus | Yn Gydnerth | Yn Iachach | Yn Fwy Cyfartal | Â Chymunedau Cydlynus | Â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | Yn Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## Yr Iaith Gymraeg – cyflenwi gwasanaethau yn eich dewis iaith

**Rydym yn ymrwymo i greu amgylchedd sy'n annog preswylwyr i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â'r Cyngor ac sy'n cefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Er effaith pandemig Covid-19 ar gyflymder ein cynnydd, rydym yn parhau i wneud cynnydd da wrth gyflwyno gwasanaethau i chi yn eich dewis iaith ac wrth chwarae ein rhan yn helpu Cymru i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.**

- Dywed Cyfrifiad 2011 wrthym fod 27,779 o siaradwyr Cymraeg yn RhCT, 12.3% o'r boblogaeth. Mae data diweddarach o Arolwg Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r Boblogaeth yn Rhagfyr 2020, yn awgrymu bod hyn wedi cynyddu i 46,100, 20% o'r boblogaeth. Fodd bynnag, roedd llai o bobl wedi cymryd rhan yn arolwg yr ONS, felly mae'n bosibl nad yw'n adlewyrchiad gwir.
- Mae canran mwyaf y siaradwyr Cymraeg o dan 25 oed (Ffynhonnell: Cyfrifiad 011)
- RhCT sydd â'r % uchaf o hyd o ddisgyblion sy'n derbyn addysg Gymraeg mamiaith o fewn y 5 Cyngor sy'n rhan o Gyd-wasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De (18.8%).
- Mae nifer y disgyblion 7 oed sy'n cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu ychydig, sef 534 yn 2019/20, 18 yn fwy nag yn 2018/19.
- Yn 2019, ymrwymodd y Cyngor i nifer o brosiectau i gynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion, gan gynnwys ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydyfelin a buddsoddi yn Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr ac Ysgol Gyfun Rhydywaun, a fydd yn darparu 690 lle addysg cyfrwng Cymraeg ychwanegol erbyn 2022.

Yn ystod 2020–2021, darparom hyfforddiant y Gymraeg i 212 o staff, gyda 144 ohonynt yn ymgymryd â hyfforddiant Lefel 1 a 68 arall yn elwa o Lefelau 2 a 3. Cynhaliwyd yr holl hyfforddiant dros y we. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg ar ein staff yn parhau i gynyddu. Ym Mawrth 2021, roedd 622 aelod staff yn datgan eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl, 53 yn fwy nag yn 2019/20.

I'r graddau ag y bo'n bosibl trwy gydol pandemig Covid-19, sicrhaom fod yr holl wybodaeth i breswylwyr wedi bod ar gael yn ddwyieithog lle y'i cyhoeddwyd, ac rydym wedi parhau i edrych i weld ymhle y gallwn wneud yn well a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau. Roedd preswylwyr yn gallu troi at wasanaethau Cymraeg trwy gydol y pandemig, gan gynnwys cael darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn hybiau ysgolion a derbyn gwasanaethau, fel galwadau ffôn llesiant, yn eu dewis iaith. Hefyd, rydym wedi parhau â'n cynlluniau tymor hwy i gefnogi a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg, er bod effaith y pandemig ar ein gwasanaethau rheng flaen wedi golygu bod cynnydd mewn rhai meysydd wedi bod yn arafach na'r bwriad. Rydym yn parhau i ymrwymo i'w gwneud hi'n haws i bob preswylydd a busnes gysylltu a delio â'r Cyngor yn eu dewis iaith.

Yn y cyfrifiad yn 2011, roedd nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein cymunedau yn 12.3% o'n poblogaeth, islaw cyfartaledd Cymru, sef 19%. O ganlyniad, mae nifer y bobl leol sy'n gwneud cais i'r Cyngor am swydd sy'n gallu siarad Cymraeg yn gymharol isel hefyd, gan nad yw mwyafrif y siaradwyr Cymraeg yn RhCT o oedran gweithio. Mae hyn yn golygu bod angen i ni barhau i gefnogi ac annog ein staff presennol i ddefnyddio a gwella'u sgiliau Cymraeg yn y gwaith ac annog ein preswylwyr i ymwneud â ni yn Gymraeg.

Mae gennym diwtor Cymraeg pwrpasol sy'n parhau i gefnogi ein staff, gyda hyfforddiant sy'n perthyn yn uniongyrchol i'w rôl fel y gallant ymateb yn well i anghenion preswylwyr ac, yn ystod 2020/21, fe wnaeth diwtora 212 aelod staff trwy blatfformau o bell, fel Microsoft Teams. Hefyd,

parhaom i weithio mewn partneriaeth â phrosiect Cymraeg Gwaith Llywodraeth Cymru, gyda 99 aelod staff yn cwblhau cyrsiau ar-lein.

Rhan bwysig arall o annog defnyddio'r Gymraeg a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yw trwy Addysg Cyfrwng Cymraeg, a pharhaom â'n gwaith i gynyddu nifer y lleoedd ysgol sydd ar gael ar draws y Fwrdeistref Sirol ac annog rhieni i'w hystyried ar gyfer eu plant. Rydym yn parhau i gyflwyno nifer o brosiectau i gynyddu nifer y lleoedd yn ein hysgolion a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys ymestyn Ysgol Gynradd Dolau a chynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Penderyn, fel ei bod yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig. Mae manylion pellach i'w gweld yn Diweddariad Blynyddol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Rhondda Cynon Taf fydd yn croesawu'r Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol yn 2024. Wedi'i bwriadu'n wreiddiol i'w chynnal yn 2022, mae'r digwyddiad hwn yn gyfle cyffrous i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau ymhellach. Hefyd, bydd y digwyddiad hwn yn cyfrannu at helpu'r Cyngor i fodloni'r nod Llesiant cenedlaethol, sef 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', 'Cymru Lewyrchus', ynghyd â nodau Llesiant cenedlaethol eraill. Rydym yn gweithio gyda thîm yr Eisteddfod Genedlaethol ac mae gwaith rhagarweiniol wedi dechrau; bydd hwn, gydag amser, yn cynnwys cymunedau, ysgolion a sefydliadau lleol.

Ynghyd â hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, mae angen hefyd i'r Cyngor ddilyn deddfau'r Gymraeg a chymhwyso Safonau'r Gymraeg, gan wneud yn siŵr ein bod:

- yn trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg, ac
- yn cynnig cyfle i bobl dderbyn eu gwasanaethau gennym yn Gymraeg, yn ogystal â gwasanaethau a ariennir gennym.

Mae Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i bob agwedd ar waith y Cyngor, gan gynnwys cyfarfodydd y Cyngor, lle y mae cymorth cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd ar gael i Aelodau ac uwch swyddogion, cymorth a wnaeth barhau yn ystod trefniadau cyfarfodydd rhithwir a gyflwynwyd yn ystod pandemig Covid-19.

Mae Comisiynydd cenedlaethol y Gymraeg yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod Mesur y Gymraeg a'r Safonau'n cael eu gweithredu ledled Cymru. Rydym yn adrodd ar ein cynlluniau a'n cynnydd i'r Comisiynydd bob blwyddyn. Hefyd, mae ein trefniadau ein hunain ar waith gennym i wirio'n bod ni'n gwneud cynnydd. Nid oeddem wedi gallu gwneud cymaint ag y bwriadom tra'r oedd gwasanaethau'n canolbwyntio ar ddelio â'r pandemig, ond adolygom ein prosesau recriwtio i weld pa wahaniaeth y gwnaethant i sgiliau Cymraeg ar draws y Cyngor. Cawsom fod mwy y gallwn ei wneud ac, ar hyn o bryd, rydym yn adolygu'n gweithdrefnau er mwyn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, yn benodol, gwella'r capasiti mewn rhai gwasanaethau rheng flaen allweddol.

Os na fyddwn yn rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith yn gywir, gallem gael cosb o hyd at £5,000 ar gyfer pob 'tor-safon'. Yn 202/21, cafwyd 40 o gŵynion, neu maent yn destun ymchwiliad o hyd, am sut mae'r Cyngor yn trin y Gymraeg. Mae hyn yn fwy na'r flwyddyn gynt (2019/20, 23 chwyn). Mae'r cynnydd yn rhannol oherwydd oedi cyn cwblhau rhai cwynion oherwydd fe wnaeth Comisiynydd y Gymraeg atal rhai ymchwiliadau yn ystod cyfnodau cychwynnol pandemig Covid-19. Ym mwyafrif yr achosion, cytunodd y Comisiynydd â'r cwynion a chymerwyd camau i ddatrys y problemau a nodwyd. Mae manylion pellach ar gael yn Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Rydym yn parhau i weithio i ddatrys unrhyw broblemau a amlygir yn gyflym ac i roi mesurau ar waith i atal camgymeriadau rhag digwydd, gan gynnwys gweithio'n agos gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ac, hyd yn hyd, ni chawsom unrhyw gosbau ariannol.

Fel rhan o'n dyletswyddau o dan y gyfraith, mae'n rhaid i ni gyhoeddi dwy ddogfen:

1. Safonau'r Gymraeg – Cynllun Gweithredu sy'n esbonio sut rydym ni'n bwriadu cydymffurfio â'r safonau.
2. Strategaeth Hybu'r Gymraeg sy'n amlinellu sut y byddwn yn hybu'r Gymraeg ac ei gwneud hi'n haws ei defnyddio'n ehangach yn yr ardal.

I wneud yn siŵr ein bod ni'n cadw ar y trywydd cywir ac yn bodloni Safonau'r Gymraeg, mae Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, sy'n cynnwys Cynghorwyr a chynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus eraill a grwpiau gwirfoddol â budd, gan gynnwys y Fforwm Iaith, sy'n dwyn ynghyd grwpiau Cymraeg lleol:

1. yn gwirio ein cynnydd yn erbyn ein Strategaeth Hybu,
2. yn adolygu canlyniadau archwiliadau'r Gymraeg i sicrhau bod pob gwasanaeth yn cyflwyno gwasanaethau yn Gymraeg, ac
3. yn cymeradwyo'r prif bolisïau Cymraeg sy'n effeithio ar bob gwasanaeth i'n preswylwyr.

Daeth ein Strategaeth 5 mlynedd ar Hybu'r Gymraeg i ben ym Mawrth 2021 ac rydym wrthi'n adolygu ei heffaith, beth weithiodd yn dda a beth y gellid ei wella. Yn Ebrill 2021, darganfu adroddiad ar ein cynnydd i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn nifer o feysydd dros gyfnod y strategaeth, gyda chyflawniadau'n cynnwys:

- Adleoli a/neu ymestyn nifer o ysgolion cynradd, gan arwain at gynnydd yn nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys yn Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr ac yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant.
- Creu deunyddiau i annog rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant.
- Cymorth i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau cymdeithasol a hamdden, gan gynnwys gweithgareddau wedi'u trefnu mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a gweithgareddau mewn llyfrgelloedd a gwasanaethau ieuenctid.
- Hyfforddiant ar gyfer pencampwyr y Gymraeg yn ein canolfannau hamdden.
- Datblygu ein hymagwedd strategol at sgiliau Cymraeg, gan gynnwys recriwtio, swydd-ddisgrifiadau a hyfforddiant.
- Gwelliannau mewnol yn y Cyngor i annog staff i ddefnyddio'r iaith, gan gynnwys adnoddau ar fewnrwyd y staff, cofnodi dewisiadau iaith staff, defnyddio arwyddion a llofnodion e-bost dwyieithog, a darparu cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd mewnol.

I wneud yn siŵr bod ein Strategaeth newydd ar gyfer Hybu'r Gymraeg yn bodloni anghenion ein preswylwyr ac yn cefnogi twf pellach y Gymraeg, byddwn yn siarad â phobl leol a grwpiau iaith lleol, gan ddefnyddio arweiniad gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac yn cael cyngor annibynnol gan arbenigwyr ar gynllunio ieithyddol i lunio'n cynllun 5 mlynedd newydd, a gyhoeddir tua diwedd 2021. Ochr yn ochr â'r cynllun newydd hwn, rydym yn llunio Cynllun Strategol newydd y Gymraeg mewn Addysg hefyd i'w gyhoeddi yn 2022, a fydd yn cysylltu'n agos â'n strategaeth hybu'r Gymraeg ac yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer addysg Gymraeg.

Yn ogystal â'n Strategaeth benodol ar y Gymraeg, mae ein hymrwymiad i'r Gymraeg yn cael ei integreiddio fwyfwy i strategaethau a phrosesau allweddol eraill y sefydliad, gan gynnwys ein Cynllun Corfforaethol. Mae polisïau mewnol eraill, er enghraifft Adnoddau Dynol, yn gosod gofynion y Gymraeg yn y prif ffrwd hefyd i wneud yn siŵr bod yr iaith yn cael ei hystyried ar hyd a lled ein gwaith. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall pob penderfyniad ar draws gwasanaethau'r Cyngor gael effaith ar allu rhywun i ddefnyddio'r Gymraeg, hyd yn oed os na wneir hyn yn ymwybodol. Er enghraifft, gallai newidiadau i gyfleusterau cymunedol neu drafnidiaeth ei gwneud hi'n haws neu'n anos i bobl gael at weithgareddau Cymraeg. I wneud yn siŵr ein bod yn gwbl

ymwybodol o effaith ein penderfyniadau ar yr iaith, rydym yn cyflwyno prosesau newydd i'n helpu ni. Bydd ein hadnoddau Effaith, Asesu ac Arweiniad ynghylch y Gymraeg yn helpu ein staff, ein rheolwyr a'n Cynghorwyr i wneud yn siŵr bod penderfyniadau polisi'n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg lle bynnag y bo'n bosibl ac, os na allwn osgoi gwneud penderfyniadau na fyddant yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg, y byddwn yn gweithio'n galed i leihau'u heffaith. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn adroddiadau perthnasol y Cyngor. Mae ein Huned Iaith Gymraeg wedi darparu cymorth i helpu staff ddeall a chymhwyso'r prosesau newydd, a gyflwynwyd ym mis Mai 2021.

Fel arfer, mae pob gwasanaeth hefyd yn ystyried beth y gall ei wneud i wella a chynyddu'r gwasanaethau a ddarparwn yn Gymraeg, ond yn 2020/21, cafodd prosesau ffurfiol yn ategu'r gwaith hwn eu hatal oherwydd effaith pandemig Covid-19. Bydd y gwerthusiad hwn bellach yn cael ei gynnal yn hydref 2021.

Yn ogystal â herio'n hunain i wneud yn well, rydym hefyd yn gweithio gydag eraill i'n helpu ni i wella. Rydym wedi parhau â'r gwaith hwn yn rhithwir yn ystod y pandemig, gan weithio gyda fforymau a sefydliadau, gan gynnwys

1. Fforwm y Gymraeg, sy'n cynnwys grwpiau gwirfoddol lleol, ysgolion a chyrff cyhoeddus lleol a chenedlaethol Cymru ganolog allweddol eraill i ddatblygu'r strategaeth hyrwyddo a ffrydiau gwaith allweddol eraill,
2. Grŵp Deddf, y fforwm Cenedlaethol ar gyfer Swyddogion y Gymraeg yn y Sector Cyhoeddus
3. Grŵp Deddf Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru, gweithgor rhanbarthol yn ne-ddwyrain Cymru sy'n cynorthwyo â chydymffurfio â'r rheoliadau a rhannu arfer gorau,
4. Fforwm Mwy Na Geiriau, fforwm rhanbarthol yng Nghwm Taf Morgannwg ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Sector Iechyd,
5. Grŵp Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a
6. Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, sy'n ein helpu i ddatblygu a gweithredu ein cynlluniau ar gyfer y Gymraeg.

Roedd cynnydd mewn rhai meysydd yn ystod 2020/21 yn gyfyngedig oherwydd effaith Covid-19, ond rydym wedi parhau i wneud cynnydd a gwelliannau o hyd

| Y llynedd, dywedom y byddem | ac ymhlith pethau eraill |
|---|---|
| yn parhau i weithio tuag at ein targed, sef cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn RhCT 6.8%, derbyn dyddiad y cyfrifiad nesaf yn 2021. | • Datblygom broses ar gyfer asesiad effaith ar y Gymraeg (gweler uchod).<br>• Rhannom gofrestr Enwau Strydoedd a Lleoedd Dwyieithog RhCT trwy fewnrwyd y staff i safoni dull y Cyngor, gan sicrhau cysondeb ar draws gohebiaeth, mapiau a chyhoeddiadau, a chynyddu faint o Gymraeg a welir ar ein ffyrdd.<br>• Gwnaethom adnewyddu dyluniad a chynnwys Bod Yn Ddwyieithog, sef llyfryn i rieni plant ifanc sy'n darparu gwybodaeth am ddewis addysg cyfrwng Cymraeg ac yn hybu buddion hynny. |
| yn parhau i weithio gyda Phwyllgor Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru ar y trefniadau i ddod â'r Eisteddfod i | • Dechreuom waith cynllunio rhagarweiniol ar gyfer yr Eisteddfod, gyda Swyddog Prosiect yr Eisteddfod yn ei le yn y Cyngor i gydlynu'r paratoadau ar draws y Cyngor ac ymwneud â Swyddogion yr Eisteddfod Genedlaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Gwaith ar ran y Cyngor. O ganlyniad i effaith Covid-10, cynhelir yr Eisteddfod yn Rhondda Cynon Taf yn 2024, nid |

| Y llynedd, dywedom y byddem | ac ymhlith pethau eraill |
| --- | --- |
| Rondda Cynon Taf yn 2023 (2024 bellach) | yn 2022, fel y bwriadwyd yn wreiddiol. |
| yn amlygu arwyddocâd pobl a diwylliant Cymru, gan gynnwys y Gymraeg, yn ymgyrchoedd y Cyngor cyfan yn gysylltiedig â digwyddiadau'r DU a'r byd. | • Comisiynom artistiaid lleol i gynhyrchu cân i ysgolion ei dysgu, a fydd yn cael ei recordio a'i defnyddio i ddathlu 'Dydd Gŵyl Dewi' yn 2022.<br>• Cynhaliom gwis rithwir i staff i nodi 'Dydd Gŵyl Dewi', gyda bron i 500 o aelodau staff yn ei gwblhau.<br>• Hyrwyddom 'Ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg' trwy amlygu meysydd y cyngor â darpariaeth Gymraeg ragorol trwy ein cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft mae chwarter yr aelodau staff yn ein Gwasanaeth Addysg a Chyfranogiad Ieuenctid yn siarad Cymraeg. |
| Yn parhau i gynorthwyo staff i ddatblygu sgiliau Cymraeg mwy datblygedig fel y gallwn helpu mwy o gwsmeriaid yn eu dewis iaith. | • Lansiom ein hymgyrch ffurfiol ac integredig cyntaf i annog staff i ddysgu Cymraeg; yn dilyn hyn, roedd pob lle ar gyrsiau'r Cyngor yn llawn.<br>• Gweithiom gyda chynllun Cymraeg Gwaith Llywodraeth Cymru i ddarparu cyrsiau hyfforddi ar-lein a phreswyl i helpu staff i wella'u sgiliau Cymraeg penodol i'r gweithle. Cwblhaodd 99 aelod o staff amryw gyrsiau blasu ar-lein yn llawn, gan gynnwys y cwrs 'Croeso' gyda chyfarchion ac ymadroddion bob dydd, a chyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer Addysgu a Thwristiaeth.<br>• Cyflwynom 'mail-tips', sy'n rhoi gwybod i staff eraill a yw rhywun yn siarad Cymraeg er mwyn annog defnyddio'r Gymraeg mewn negeseuon e-bost mewnol, gan fagu mwy o hyder i ddefnyddio Cymraeg ysgrifenedig. |
| Yn datblygu ein prosesu fel y gellir ymdrin ag ymholiadau mwy o gwsmeriaid yn Gymraeg, gan y person cyntaf y siaradant ag ef/hi. | • Archwiliom ein prosesau recriwtio ac amlygu ffyrdd o wella prosesau er mwyn gwella capasiti'r Gymraeg mewn gwasanaethau rheng flaen allweddol. |
| Yn helpu pobl i ddefnyddio mwy o wasanaethau ar-lein yn Gymraeg trwy ddatblygu meddalwedd ddwyieithog. | • Lansiom wefan ymgynghori ddwyieithog newydd i annog mwy o breswylwyr i gymryd rhan yn ddigidol mewn gweithgareddau ymgysylltu ar draws y Cyngor, yn eu dewis iaith. |
| Yn parhau i adolygu pa mor dda y mae ein gwasanaethau yn cynnig y Gymraeg ac yn ei hyrwyddo. | • Adolygom effaith ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg 5 mlynedd (gweler uchod).<br>• Nid oeddem wedi gallu adolygu gwaith ein gwasanaethau yn llawn oherwydd effaith pandemig covid-19 ar ein prosesau rheoli ac archwilio arferol, ond bydd y gwaith hwn yn cael ei |

| Y llynedd, dywedom y byddem | ac ymhlith pethau eraill |
|---|---|
| | adfer yn 2021/22. |

Rhoddodd Comisiynydd y Gymraeg adborth cadarnhaol i ni ar ein cynnydd, felly gwyddom ein bod ar y trywydd cywir, ond mae rhagor i'w wneud bob amser.

**Mae ein Cynlluniau ar gyfer 2021-22 yn cynnwys**

- Datblygu a chyhoeddi ein cynllun Hybu'r Gymraeg 5 mlynedd newydd, a fydd yn amlinellu sut rydym yn anelu at annog defnyddio'r Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, gan gyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru am filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Gweithredu gwelliannau pellach i'n prosesau recriwtio i helpu cynyddu nifer y staff Cymraeg eu hiaith mewn meysydd allweddol.
- Parhau i weithio tuag at ein targed, sef cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol 6.8% erbyn dyddiad y cyfrifiad nesaf, yn 2021.
- Parhau i weithio gyda Phwyllgor yr Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol ar drefniadau i ddod â'r Eisteddfod i Rondda Cynon Taf yn 2024 ac felly, hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru.
- Cryfhau ein prosesau penderfynu trwy ddefnyddio ein hoffer asesu effaith i adolygu effaith penderfyniadau mawr ar draws y Cyngor ar y Gymraeg.
- Parhau i helpu pobl i ddefnyddio mwy o wasanaethau ar-lein yn Gymraeg trwy ddatblygu meddalwedd ddwyieithog.
- Parhau i gynorthwyo staff i ddatblygu sgiliau Cymraeg mwy datblygedig fel y gallwn helpu mwy o gwsmeriaid yn eu dewis iaith.

**Mae ein gwaith i hybu'r Gymraeg yn cyfrannu at RhCT a Chymru sydd**

| Yn Llewyrchus | Yn Gydnerth | Yn Iachach | Yn Fwy Cyfartal | Â Chymunedau Cydlynus | Â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | Yn Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## Newid yn yr Hinsawdd

**Gwybodaeth Allweddol: Y Cyngor**

- Amcangyfrifwyd bod Ôl Troed Carbon y Cyngor yn 2019/20 yn 105,257 $tCO_2e$ h.y. tunelli metrig o allyriadau Carbon Deuocsid a'i gyfatebol, *98,757 tunnell fetrig net.*
- Mae'r Cyngor yn prynu 100% o'i gyflenwad ynni trydanol o ffynonellau ynni adnewyddadwy.
- Mae'r holl oleuadau stryd yn RhCT, tua 29,700 ohonynt, wedi'u troi'n oleuadau LED neu gyfatebol, gan arwain at ostyngiad o 75% yn yr ynni a ddefnyddir ers 2015/16.
- Mae'r Fwrdeistref Sirol yn cwmpasu ardal o 424 cilometr sgwâr (163 milltir sgwâr).
- Mae 16 Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn RhCT ac mae gennym gynlluniau ar waith yno i wella Ansawdd yr Aer. (Ffynhonnell: *Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2020 RhCT*).
  - ARhAA Leiaf – Mwyndy, 1 eiddo
  - ARhAA Fwyaf – Broadway, 156 eiddo.
- O gymharu â Chynghorau eraill Cymru, mae RhCT yn 9/17 ar gyfer Nitrogen Deuocsid (NO2) – *Rhif 1 yw'r gorau*.
- Ffynnon Thermol Ffynnon Taf yw'r unig Ffynnon Thermol yng Nghymru ac mae'n 1 o 4 yn y DU. Mae cynlluniau ar waith i'w defnyddio i ddarparu gwresogi carbon isel i floc estyniad newydd i Ysgol Gynradd Ffynnon Taf, y bwriedir ei gwblhau ddechrau 2022.
- Gosodwyd 105 o araeau paneli solar ar Ysgolion ac Adeiladau Corfforaethol, cyfanswm o 1.58MW.
- 12 cynllun golau LED (gan arbed £3.2m) ar draws ein hysgolion, llyfrgelloedd, Cartrefi Gofal, Canolfannau Hamdden, swyddfeydd, storfeydd ac ati fel rhan o'n prosiectau Lleihau Carbon/Arbed Ynni sy'n mynd rhagddynt.
- Gosod 21 Cell Tanwydd Hydrogen ar draws RhCT mewn canolfan hamdden, ysgolion a swyddfeydd.
- 9 boeler biomas, yn defnyddio pelenni pren cynaliadwy, ar waith ar draws lleoliadau yn RhCT.
- Fel rhan o gynllun cymhellion ar gyfer gosodiadau solar, rydym yn derbyn tuag £120,000 yn ôl bob blwyddyn am 20 mlynedd. Hefyd, rydym yn arbed ar ein costau ynni trwy gynhyrchu ein hynni ein hunain.

**Adeiladau'r Cyngor** – Faint o Ynni a ddefnyddiwyd a'i gost

| Blwyddyn | Nwy | | Trydan | | Cyfanswm £M |
|---|---|---|---|---|---|
| | kWh | £M | kWh | £M | |
| 2018-19 | 70,164,242 | 2,527,434.56 | 28,090,259 | 4,838,502.37 | 7,365,936.93 |
| 2019/20 | 67,210,969 | 2,626,752.22 | 25,675,889 | 4,905,199.69 | 7,531,951.91 |
| 2020/21 | 51,924,490 | 2,028,353.42 | 20,642,586 | 3,994,198.65 | 6,022,522.07 |

- Ddiwedd 2019, roedd 3,177 o osodiadau trydan adnewyddadwy ar draws Lefel yr Awdurdod Lleol, yn cynhyrchu 815, 279 MWh o ynni adnewyddadwy, o gymharu â 119, 818MWh yn 2014 (Ffynhonnell: *UK Gov*).

**Gwybodaeth Allweddol: Y Fwrdeistref Sirol**

- Mae 21% o dir yn RhCT yn Ystad Goed Llywodraeth Cymru, dan reolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Yn 2018, roedd 3,862 o brosiectau cynhyrchu ynni carbon isel yn RhCT *(Ffynhonnell StatsCymru)*.
- Er mai RhCT yw 6ed cynhyrchwyr mwyaf yr holl allyriadau carbon yng Nghymru, mae ystadegau Llywodraeth y DU 2019 yn dangos hefyd mai'r Fwrdeistref Sirol yw'r 5ed isaf o'i ystyried fesul person (4.3t). Allyrrwyd 1,042.6 cilodunnell o garbon ar draws y Fwrdeistref Sirol yn 2019, sy'n cyfateb i 4.3t$CO^2$e fesul preswylydd. Gweler isod

| Sector | Cilodunellau Allyriadau Carbon $CO^2$ Infobase Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2019** | **2018** | **2017** | **2009** |
| Diwydiant a Masnach, gan gynnwys Amaeth | 215.8 | 229.6 | 237 | 339.8 |
| Sector Cyhoeddus | 46.2 | 51.8 | 45.9 | 65.1 |
| Domestig, gan gynnwys Defnyddio Trydan | 355 | 359.7 | 358.3 | 506.4 |
| Trafnidiaeth, gan gynnwys ffyrdd a threnau disel | 438.8 | 453.2 | 454.6 | 461.5 |
| Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth | -13.3 | -13 | -12.9 | -24.1 |
| **CYFANSWM allyriadau $C0^2$** | **1042.6** | **1081.3** | **1082.8** | **1348.7** |
| **Tunelli metrig allyriadau $CO^2$ fesul preswylydd** | **4.3** | **4.5** | **4.5** | **5.7** |

- Mae RhCT yn cael 'sgôr' o 4.79 ym Mynegai Llefydd Llewyrchus Cymru ar gyfer Cynaliadwyedd, h.y. mae islaw'r cyfartaledd o gymharu â Lloegr. Mae'r sgôr cynaliadwyedd yn cynnwys y canlynol:
    - 5.07 ar gyfer Defnydd Ynni – uwchlaw'r cyfartaledd.
    - 4.29 ar gyfer Gwastraff – islaw'r cyfartaledd.
    - 4.93 ar gyfer Isadeiledd Gwyrdd – islaw'r cyfartaledd.

*10 yw'r gorau posibl a 0 yw'r gwaethaf.*

**Edrych Tua'r Dyfodol**

- Roedd y dystiolaeth yn y Dystiolaeth ar gyfer Crynodeb Cymru trydydd Asesiad Risg y Newid yn yr Hinsawdd y DU (CCRA3) yn dangos fod tueddiadau presennol yn awgrymu bod disgwyl i dymereddau blynyddol yng Nghymru godi rhwng tuag 1.2°C erbyn y 2050au a rhwng 1.3 a 2.3°C erbyn y 2080au, o'u cymharu â gwaelodlin 1981-2000.
    - disgwylir i law'r haf ostwng tua 15% erbyn y 2050au a rhwng 18% a 26% erbyn 2080. Er y bydd hafau'n sychu yn gyffredinol, mae rhagfynegiadau'n awgrymu y bydd y glaw'n fwy dwys, pan fydd yn bwrw glaw.
    - disgwylir i law'r gaeaf gynyddu tua 6% erbyn y 2050au a rhwng 7% a 13% erbyn y 2080au.
- Yn dibynnu ar ymdrechion byd-eang i leihau allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr, gall amlder a dwysedd tymheredd a glawiadau eithafol gynyddu hefyd yn y dyfodol.

Amlinellodd Y Llwybr i Gymru Sero Net a Lleihau Allyriadau yng Nghymru

- Bod disgwyl i'r galw am drydan ddyblu yng Nghymru, a'r DU, erbyn 2050.
- Argymhellion am dargedau interim i gyrraedd sero net yng Nghymru, ynghyd â gweithredu mewn pedwar maes allweddol
    - Manteisio ar atebion carbon-isel.

- Ehangu cyflenwadau ynni carbon-isel.
- Lleihau'r galw am weithgareddau dwys o ran carbon.
- Gweddnewid tir.

Y newid yn yr hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf sy'n wynebu ein planed; mae tywydd eithafol a chynnydd yn lefel y môr eisoes yn effeithio ar bobl ac ar fyd natur. Yn Rhondda Cynon Taf, rydym eisoes wedi gweld effeithiau glaw trwm a effeithiodd mor ddrwg ar ein cymunedau yn 2020. Mae glaw trymach yn peri mwy o risg y bydd llifogydd afonydd a fflachlifoedd yn achosi difrod i'n cartrefi, ein busnesau ac i'r amgylchedd.

Mwy o garbon deuocsid yn yr atmosffer, yn bennaf o losgi tanwyddau ffosil fel glo, nwy ac olew, sy'n achosi'r newid yn yr hinsawdd. I atal y newid yn yr hinsawdd, mae'n rhaid i'r allyriadau hyn ddod i ben. Dyma her fyd-eang.

Wrth i dymereddau codi, bydd tonnau gwres amlach, a fydd yn effeithio ar ein hiechyd, ar y bwyd a fwytawn, ar ein bywoliaeth ac, i lawer o bobl hŷn ac agored i niwed, ar ddisgwyliad oes. Mae angen i ni wneud popeth o fewn ein gallu i fynd i'r afael ag effaith y newid yn yr hinsawdd, i atal salwch ac i amddiffyn y boblogaeth sy'n heneiddio yn Rhondda Cynon Taf.

Mae dod o hyd i ffyrdd y gall pawb sy'n byw ac yn gweithio yn Rhondda Cynon Taf chwarae rhan i helpu mynd i'r afael â'r Newid yn yr hinsawdd yn flaenoriaeth i'r Cyngor hwn. Rydym yn amlinellu hyn yn ein Cynllun Corfforaethol diweddaraf ar gyfer 2020-2024, Gwneud Gwahaniaeth ac rydym wedi gosod dau nod Hinsawdd i ni'n hunain.

**Dyma ein Nodau Hinsawdd – erbyn 2030**

- Bydd Rhondda Cynon Taf yn Gyngor Carbon Niwtral.
  *data gwaelodlin 2019/20 - 98,757 tunnell fetrig o $CO^2$ a'i gyfatebol (net)*
- Bydd y Bwrdeistref Sirol mor agos â phosibl at fod yn Garbon Niwtral.
  *Data 2019 allyrrwyd 1042.6 cilodunnell o $CO^2$ (data gwaelodlin 2009 – 1348.7)*

Trwy osod y nodau hyn, rydym wedi dangos ein bod o ddifrif ynghylch lleihau carbon a nwyon tŷ gwydr eraill a'n bod yn cymryd y camau brys y mae angen i bawb eu cymryd er mwyn i ni amddiffyn y blaned a chwarae ein rhan e.e. trwy leihau ynni yn ein hadeiladau, trafnidiaeth a'r holl wasanaethau a ddarparwn. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn arbed ynni yn ein holl adeiladau, ysgolion a goleuadau stryd ac rydym yn ailgylchu mwy o wastraff nag erioed hefyd, ond gwyddom fod angen i ni wneud llawer mwy, yn gynt. Yn ogystal, mae ein nodau'n golygu bod angen i ni arwain y gymuned yn gryf, gan ddwyn pobl, grwpiau a sefydliadau ynghyd i fynd i'r afael â materion y newid yn yr hinsawdd yn y Fwrdeistref Sirol i gyrraedd targedau Llywodraethau Cymru a'r DU.

Ym mis Ebrill 2019, datganodd Llywodraeth Cymru ei bod hi'n Argyfwng ar yr Hinsawdd yng Nghymru ac, ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd Gynllun Cyflawni Carbon Isel: Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, a osododd yr uchelgais y byddai holl Sector Cyhoeddus Cymru yn Garbon Niwtral erbyn 2030.

Ym mis Mehefin 2019, dechreuodd y Cyngor gryfhau cynlluniau e.e. i gynhyrchu ac arbed mwy o ynni, dod o hyd i ffyrdd o symud o gwmpas â thanwydd glanach, carbon isel, a 'gwyrddu' mwy o RhCT.

Ym mis Tachwedd 2019, cynhaliom gyfarfod cyntaf Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd fel y gallem ddeall y materion carbon yn y Cyngor a'r Fwrdeistref Sirol, herio'n hunain yn gyhoeddus i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau cywir a gwirio'n cynnydd fel y gallwn gyrraedd ein nodau uchelgeisiol. Caiff y Grŵp Llywio ei gadeirio gan Bencampwr Hinsawdd y Cabinet a daw ei aelodau o bob plaid wleidyddol. Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr cymunedol o Cyfeillion y Ddaear, Pontypridd a Croeso i'n Coedwig, partneriaeth gymunedol yn y Rhondda fawr Uchaf.

Gwnaethom ddechrau cynnar cadarn a gwneud cynnydd ar y canlynol

- Ei gwneud hi'n haws i'r gymuned ddefnyddio tir heb ei ddefnyddio/gwag sy'n eiddo i RhCT.
- Herio'r hyn a wnaethom hyd yn hyn i leihau ein defnydd ar ynni a charbon.
- Cyflawni ein dyletswydd gyfreithiol o ran Bioamrywiaeth.
- Ystyried sut gallai Ffynnon Thermol Ffynnon Taf ddarparu ynni adnewyddadwy ar gyfer Ysgol Gynradd leol.
- Dod o hyd i ffyrdd cyfreithiol, agored a thryloyw a fydd yn ein helpu i wario mwy o gyllideb y Cyngor gyda busnesau lleol.
- Dod o hyd i ffyrdd o dileu neu leihau'r defnydd o blastigau un-tro yn holl gontractau ac adeiladau'r Cyngor.
- Ystyried ein cynnydd o ran ailgylchu yn RhCT, sydd yn ei dro'n arwain at godi ein targed ailgylchu ar gyfer 2025 i darged uwch na'r un a osododd Llywodraeth Cymru.

**Sylw preswylydd am yr Hinsawdd**

*"………Os yw'r Cyngor o ddifrif am ystyried yr hinsawdd ac argyfyngau bioamrywiaeth, rhaid mynd i'r afael â'r rhain yn y gyllideb."*

*"………..Yn fy marn i, rydym ni'n gweld effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn RhCT yn barod, oherwydd rydym ni eisoes wedi gweld effaith drychinebus llifogydd gydol 2020….."*

- Gwella'n ffordd o reoli ardaloedd glaswellt i annog blodau gwyllt a phryfed peillio.
- Ystyried sut rydym yn gweithio gydag eraill i roi opsiynau teithio cynaliadwy ar waith ar draws y Fwrdeistref Sirol, fel y gall pobl ddewis opsiynau carbon isel, gan gynnwys Teithio Lleol.
- Gweithredu er gwella ansawdd yr aer yn y Fwrdeistref Sirol.
- Amlinellu sut rydym yn codi ymwybyddiaeth o materion y newid yn yr hinsawdd ac yn siarad â phreswylwyr o bob oedran, cymunedau, busnesau ac amrywiaeth ehangach o randdeiliaid eraill fel bod gan bawb gyfle i lywio'n ein cynlluniau.
- Herio ein cynnydd wrth cynhyrchu ynni a chyfrifo ôl troed carbon presennol y Cyngor.
- Ystyried sut y gallwn amddiffyn a defnyddio Asedau Natur orau i ddal a storio carbon.
- Cymryd camau cynnar i wneud yn siŵr bod materion y Newid yn yr Hinsawdd yn cael eu hystyried mewn cartrefi ac adeiladau newydd, canol trefi a chynllunio trafnidiaeth fel rhan o waith paratoi Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor.

Er y gwnaeth ein cynnydd cynnar arfau yn ystod y pandemig pan fu'r ffocws ar weithio i gadw cymunedau yn ddiogel, roedd gwaith yn y cefndir yn parhau, gan gynnwys rhoi cyllideb graidd o £100,000 yn ei lle i helpu cyflymu ein gwaith.

Erbyn mis Ebrill 2021, roedd gan y Grŵp Llywio Strategaeth Ddrafft ar y Newid yn yr Hinsawdd yn ei le ac roedd yn gallu dechrau'r Sgwrs ar y Newid yn yr Hinsawdd 'Dewch i Siarad am y Newid yn yr Hinsawdd RhCT' fel bod pawb yn cael cyfle i lywio'n cynlluniau at y dyfodol. Amlinellodd y strategaeth ddrafft sut y byddwn yn lleihau carbon ac yn mynd i'r afael â'r Newid yn yr Hinsawdd ac, yn benodol,

- Beth fyddwn ni'n ei wneud yn y Cyngor ac ar draws ei wasanaethau.

- Beth fyddwn ni'n ei wneud yn y Fwrdeistref Sirol.

Hefyd, dechreuom sgwrs arall 'Dewch i Siarad am Wefru Cerbydau Trydan' a bydd mwy o sgyrsiau Dewch i Siarad yn dilyn. Gallwch weld ein fideo 'Hinsawdd Ystyriol' yma.

**Ein cynlluniau ar gyfer 2021-22**
Rydym yn awyddus i gynnwys cynifer o bobl â phosibl yn y gwaith i fynd i'r afael â her yr hinsawdd yn Rhondda Cynon Taf a rhoi'r cyfle i bobl gael dweud eu dweud. Byddwn yn parhau i siarad â phreswylwyr, cymunedau, busnesau a phartneriaid.
Hefyd, byddwn yn cadarnhau rhai cynlluniau manwl fel y gallwn ddangos ein cynnydd i chi a'n gwaith gyda Llywodraeth Cymru, Bargen Ddinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd a phartneriaid eraill i wneud yn siŵr ein bod ar y trywydd cywir i gyrraedd ein targedau.

**O fewn gwasanaethau'r Cyngor, byddwn hefyd yn parhau i**
- Ddefnyddio llai o ynni yn ein hadeiladau, ein cerbydau a'n cyfarpar.
- Defnyddio'n tir a'n hadeiladau i gynhyrchu ynni y gallwn ei ddefnyddio.
- Ailgylchu mwy o'r gwastraff a gasglwn.
- Gwneud yn siŵr nad yw'r hyn rydym ni'n ei brynu i'r Cyngor heddiw yn niweidiol i bobl, natur na'r blaned yn y dyfodol.
- Helpu staff i ddod o hyd i ffyrdd newydd a gwahanol o weithio fel eu bod yn defnyddio llai ar eu ceir.
- Dod â gwasanaethau'r cyngor yn agosach at bobl neu eu gwneud yn haws cyrraedd atynt ar y bws neu ar drên.

**Ar draws y Fwrdeistref Sirol, mae ein cynlluniau yn cynnwys**
- Defnyddio gwynt, dŵr, gwastraff ac ynni o'r haul i gynhyrchu ynni glân y gallwn ei ddefnyddio mewn adeiladau a chartrefi lleol.
- Defnyddio ac ailgylchu mwy o'r gwastraff a gasglwn.
- Helpu pobl i fynd o gwmpas yn haws gan ddefnyddio mwy o fysiau, trenau a beiciau.
- Gwneud yn siŵr ein bod yn cadw mygdarth o draffig mor isel â phosibl.
- Helpu i osod pwyntiau gwefru er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio ceir trydan.
- Defnyddio ffyrdd naturiol o helpu i atal llifogydd, tanau gwyllt a chadw carbon yn y ddaear.
- Helpu mwy o bobl i ddod at ei gilydd i fwynhau ac amddiffyn natur a bywyd gwyllt ar draws RhCT.

**Mewn cartrefi, gwaith a busnesau, mae ein cynlluniau yn cynnwys**
- Yn achos ein cynlluniau ar gyfer beth rydym ni'n ei adeiladu a ble, gwneud yn siŵr,
  - nad ydynt yn ychwanegu mwy o garbon at yr aer, ac
  - eu bod yn amddiffyn ein bioamrywiaeth a'r carbon sy'n cael ei storio mewn priddoedd, coed a phlanhigion eraill ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Helpu pobl i ddefnyddio llai o ynni yn eu cartref.
- Helpu i wneud yn siŵr nad yw tai newydd yn cael eu hadeiladu ar dir nad adeiladwyd arno eisoes ac y gall pobl eu cyrraedd heb gar.
- Helpu i wneud yn siŵr bod tai ac adeiladau masnachol newydd yn gallu creu a storio'u hynni eu hunain a bod ganddynt bwyntiau gwefru ar gyfer ceir trydan.
- Helpu pobl a landlordiaid i wneud newidiadau i gartrefi fel eu bod yn defnyddio ynni gwyrddach a llai o ynni.
- Annog a helpu busnesau lleol i ddod o hyd i ffyrdd o wastraffu llai, lleihau llygredd ac amddiffyn yr amgylchedd.

- Helpu busnesau lleol i ddod o hyd i nwyddau sy'n llai niweidiol i fyd natur.
- Dod o hyd i ffyrdd o brynu mwy o'r hyn y mae ar wasanaethau'r Cyngor ei angen yn lleol.
- Plannu coed a llwyni yng nghanol trefi.
- Helpu plant a phobl ifanc yn ein hysgolion i ddeall mwy am natur a'r hinsawdd.
- Helpu pobl o bob oedran i hyfforddi neu ailhyfforddi mewn sgiliau newydd fel y gallant ddod o hyd i swyddi a chreu newidiadau mewn cwmnïau a fydd yn helpu i amddiffyn y blaned.

**I bobl sy'n byw ac yn gweithio yn RhCT, ac yn ymweld â hi, mae ein cynlluniau'n cynnwys**

- Darparu gwybodaeth a fydd yn helpu pobl i wneud dewisiadau yn eu bywyd sy'n gallu helpu i roi llai o garbon yn yr aer. Er enghraifft, gwastraffu llai, ailgylchu mwy, gyrru llai, gyrru'n arafach a pheidio â gadel yr injan i redeg pan fydd y car yn aros.
- Annog a helpu pobl i wneud eu cartrefi'n fwy ynni effeithlon.
- Gwneud lle ym Mharc Ynysangharad lle y gall pobl ddysgu am fyd natur lleol, ymarfer sgiliau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau a fydd yn helpu'r hinsawdd a thyfu llysiau ffres i fanciau bwyd.
- Annog mwy o bobl i ymuno ag eraill i fwynhau a helpu byd natur.
- Cynnig tir i bobl a grwpiau fel y gallant dyfu'u ffrwythau a'u llysiau eu hunain a'u rhannu nhw gydag eraill.
- Rhoi mwy o ddewisiadau prydau llysieuol i blant a phobl ifanc mewn ysgolion ac i bobl sy'n cael Pryd ar Glud.

Mae llywodraethau ledled y byd yn deddfu ac yn llofnodi cytundebau i ddangos eu hymrwymiad i gyflymu'r gwaith y mae angen ei wneud i atal y tymheredd rhag codi. Bydd gwledydd yn dod ynghyd mewn cynhadledd fyd-eang 'COP 26' a gynhelir gan Lywodraeth y DU yn Glasgow ym mis Tachwedd 2021, lle y gofynnir iddynt ddangos eu cynlluniau i leihau carbon ac maent yn disgwyl Cynllun Llywodraeth Cymru yn hydref 2021.

Ni fydd y gwaith hwn i fynd i'r afael â'r Newid yn yr Hinsawdd yn dod i ben ac ni all un cynllun nac adroddiad unigol ddweud wrthoch am bopeth rydym ni'n ei wneud i chwarae ein rhan i fynd i'r afael â'r Newid yn yr Hinsawdd, ond mae Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i chwarae ei rhan.

**Mae ein gwaith i fynd i'r afael â'r Newid yn yr Hinsawdd yn cyfrannu at RhCT a Chymru sydd**

| Yn Llewyrchus | Yn Gydnerth | Yn Iachach | Yn Fwy Cyfartal | Â Chymunedau Cydlynus | Â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | Yn Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

# Bioamrywiaeth

**Gwybodaeth Allweddol:**

- Ystyrir bod dros 70% o'r tir yn Rhondda Cynon Taf yn gefn gwlad, ac mae cyfanswm y gorchudd coed oddeutu 33%.
- Amcangyfrifwyd bod gorchudd coed trefol yn 18.5% yn 2013 a bod RhCT 5ed yng Nghymru o ran faint o goed sydd gan y Sir.
- Mae o leiaf 85 math gwahanol o wenyn ar draws yr hen dipiau glo yn RhCT, ynghyd ag amrywiaeth eang o bryfed, cennau, ffyngau a blodau eraill.
- Mae RhCT yn gartref i o leiaf 13 rhywogaeth ystlumod, gan gynnwys yr ystlumod du ac ystlumod pedol lleiaf prin.
- Nodwyd bod dau draean o'r tir yn y Fwrdeistref Sirol yn bwysig iawn i fywyd gwyllt, gan gynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur.
- Bydd 120 hectar o laswelltir yn RhCT yn cael ei reoli ar ffurf dôl yn 2020 – bron i 126 o gaeau Stadiwm y Principality.
- Dyfarnwyd statws Baner Werdd i 10 parc a safle ar draws y Fwrdeistref Sirol oherwydd eu hygyrchedd a'u rheolaeth ragorol, gan gydnabod safonau uchel ein parciau a'n mannau gwyrdd ac awyr agored.
- Yn ôl Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2019, o'r 6,500 o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid yng Nghymru, mae 523 (8%) dan fygythiad difodiant yn y DU, mae 666 (17%) ohonynt dan fygythiad difodiant yng Nghymru, ac mae 73 (2%) ohonynt eisoes wedi diflannu o Gymru.

Bioamrywiaeth yw amrywiaeth bywyd ar y ddaear, yn cynnwys pob planhigyn ac anifail, ynghyd â'r ecosystemau y maent yn byw ynddynt. Ochr yn ochr ag Awdurdodau Lleol eraill, mae dyletswydd ar Gyngor Rhondda Cynon Taf o dan Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gynnal a gwella'i fioamrywiaeth, gan gyfrif am amrywiaeth, graddfa, cyflwr a'r gallu i addasu yn ei ecosystemau lleol. Mae hyn yn ychwanegol at ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd ei hun yn cymell cyrff cyhoeddus i feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau ac i ddiogelu ein hamgylcheddau lleol gyda'r nod o ddod yn Gymru mwy cydnerth a mwy cyfrifol ar lefel fyd-eang.

I ddiwallu Dyletswydd Bioamrywiaeth Deddf yr Amgylchedd, rhaid i'r Cyngor hefyd ddarparu adroddiad i Lywodraeth Cymru bob 3 blynedd yn amlinellu'r hyn a wnaed i wella bioamrywiaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol. Dangosodd yr Adroddiad Bioamrywiaeth cyntaf gan Rondda Cynon Taf, yn 2019, y gwaith cadarnhaol sy'n digwydd ar draws y Cyngor ac mae hefyd yn amlinellu ymhél y gallem wneud yn well. Mae hyn yn cynnwys rhoi pwys ar ein glaswelltiroedd na tharfwyd arnynt a'n cynefinoedd rwbel glo unigryw ynghyd a defnyddio mwy ar dir ein hysgolion i roi cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am natur ac ymhél â byd natur.

Mae bioamrywiaeth yn chwarae rhan enfawr yn y gwaith i fynd i'r afael â'r Newid yn yr Hinsawdd a chydnabuwyd hyn yn Cynllun Corfforaethol 2020-24 y Cyngor, 'Gwneud Gwahaniaeth'. Mae cynlluniau manylach i gefnogi Bioamrywiaeth a materion amgylcheddol eraill yn cael eu datblygu'n fanylach fel rhan o waith Grŵp Llywio'r Cabinet Ar Y Newid Yn Yr Hinsawdd. Cewch ragor o wybodaeth am sut mae'r Cyngor yn chwarae ei ran i fynd i'r afael â'r Newid yn yr Hinsawdd yn Adran 13.

**Er yr heriau a greodd y pandemig, roeddem wedi gallu bwrw ymlaen â llawer o'r gwaith yr oeddem wedi'i gynllunio.**

**Fe wnaeth ein gwaith yn 2020/21 gynnwys**

**Cefnogi Glaswelltir a Blodau Gwyllt yn Rhondda Cynon Taf**
Caniataodd effaith covid ar waith torri porfa gan y Cyngor ddechrau haf 2020 i arddangosfa ysblennydd o flodau gwyllt ffynnu ar ein lleiniau. Hefyd, rhoesom fwy o ardaloedd o RhCT mewn system 'torri a chasglu' o dorri porfa, sy'n rhoi'r amgylchedd gorau i flodau gwyllt dyfu ac sy'n annog gwenyn, pryfed peillio a chreaduriaid eraill. Y peiriannau 'torri a chasglu' wnaeth y gwaith, ond roedd y pandemig wedi cyfyngu ar y cynllun 'Gafael yn eich Rhaca', sy'n gwahodd preswylwyr i helpu mewn ardaloedd nad all y peiriannau eu cyrraedd.
Y newyddion da yw bod Llywodraeth Cymru'n llacio cyfyngiadau Covid, sy'n golygu ein bod ni'n disgwyl gweld mwy o ardaloedd lle y gall blodau gwyllt ffynnu trwy'r system 'torri a chasglu' o dorri porfa ac i weithgareddau 'Gafael yn eich Rhaca' ddychwelyd. Gallwch weld ymhle mae hyn yn digwydd o Fedi 2021 ymlaen ar Dewch i Siarad am Flodau Gwyllt.

- Dod o hyd i ffyrdd o ddal mwy o garbon trwy ddatblygu ein gwaith i adfer/'ail-ddyfrhau' tua 700 hectar o fewndir sydd wedi sychu neu ddirywio e.e. rhwng tyrbinau gwynt ar yr uwchdiroedd.
- Dechrau adolygu tir ym mherchenogaeth gyhoeddus ar draws RhCT i ddod o hyd i safleoedd lle y gallwn adfer mawnogydd.
- Parhau i ddiweddaru Cynllun Gweithredu dros Natur RhCT. Er nad ellid cynnal digwyddiadau i'r cyhoedd a gwirfoddolwyr oherwydd cyfyngiadau Covid, roeddem wedi gallu cynnal rhaglen fisol o ddigwyddiadau ar-lein. Hefyd, roedd y Partneriaeth Natur Leol wedi gallu casglu gwybodaeth am yr hyn i'w gynnwys yn y Cynllun newydd a sut i'w gyflwyno. Cysylltwch â ni os hoffech gymryd rhan.
- Canolbwyntio ar Asedau Naturiol yn RhCT, gan gynnwys ein cynefinoedd rhannol-naturiol helaeth presennol a phriddoedd nas tarfwyd arnynt, adfywio coetiroedd yn naturiol a datblygu 'Isadeiledd Gwyrdd'.
- Defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i blannu oddeutu 300 o goed yn ein parciau a'n mynwentydd. Y nod yw helpu i fynd i'r afael ag effaith y newid yn yr hinsawdd a llygredd mewn ardaloedd trefol, yn ogystal â chefnogi bywyd gwyllt lleol.
- Cwblhau adolygiadau o Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur fel rhan o'r gwaith i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer RhCT.
- Mae preswylwyr wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan yn natblygiad ein cynllun newydd yn ein sgwrs Dewch i ni Siarad am y Cynllun Datblygu Lleol fel y gallant ddweud eu dweud am y mannau lle'r ydym yn adeiladu a sut i amddiffyn ein hadnoddau naturiol arbennig, ein treftadaeth hanesyddol, ein cynefinoedd bywyd gwyllt, ein mannau agored a'n tirweddau prydferth.
- Edrych ar y ffyrdd naturiol y gallwn fynd i'r afael ag effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys
  - cynllun gardd law 'Ponty Prydferth' ym Mill Street, sydd wedi'i ariannu gan Fenter Canol Trefi Llywodraeth Cymru, a
  - rheoli Cors Pant, ger Ysgol y Pant, Pont-y-clun, i gynnal y gorlifdir pwysig hwn; mae fideo ar gael hefyd.
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o greu ardal gymunedol a gwarchodfa natur rwbel glo fel rhan o'r ateb i gael gwared yn ddiogel ar ddeunydd y tirlithriad o afon Rhondda Fach a deunydd ansefydlog arall ar ochr y bryn.

**Mae ein cynlluniau ar gyfer 2021/22 yn cynnwys:**

- Cwblhau'r wefan Bioamrywiaeth a darparu mwy o gyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn Bioamrywiaeth yn RhCT trwy brosiectau 'Dewch i Siarad RhCT'.
- Cynyddu'r ardaloedd rydym ni'n eu rheoli mewn ffyrdd sy'n annog blodau gwyllt i ffynnu trwy system dorri porfa 'torri a chasglu'. Hefyd, byddwn yn parhau i wahodd preswylwyr i 'Gafael yn eich rhaca' a chymryd rhan, trwy ddweud wrthym am y planhigion a welant ac awgrymu mannau eraill lle y gallwn 'dorri a chasglu'.
- Trwy weithio'n rhan o'r Bartneriaeth Natur Leol, byddwn yn adolygu ein cynllun 'Gweithredu dros Natur' i ddangos sut y gallwn helpu natur i ffynnu yn RhCT. Byddwn yn amlinellu pa gamau y mae angen i ni eu cymryd a sut y gall pawb helpu.
- Datblygu prosiectau 'Tirwedd Fyw' i helpu i gyflwyno'r Cynllun Natur Lleol, gan siarad â phreswylwyr a chymunedau. Gall cysylltu safleoedd lleol a grwpiau cymunedol â'i gilydd ddangos sut mae cydweithio o fudd i bawb, yn ogystal â'r bywyd gwyllt.
- Parhau i gefnogi prosiectau Llechweddau Iach ar lethrau Penrhys, Cwm Clydach, tir gerllaw Parc Treftadaeth y Rhondda a Chomin y Graig, Llantrisant.
- Parhau i asesu Ceisiadau Cynllunio o ran eu heffaith ar fioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau rheoli bywyd gwyllt ar gyfer datblygiad, amlygu cyfleoedd i amddiffyn neu wella cynefinoedd a gwneud yn siŵr bod y datblygwr yn cyflawni amodau a chytundebau cynllunio. Er enghraifft, rheoli mannau agored cyhoeddus yn gynaliadwy yn y tymor hir, amddiffyn coed a chloddiau, dolydd a choridorau bywyd gwyllt.
- Gwneud yn siŵr bod y Cynllun Datblygu Lleol yn ystyried ffyrdd naturiol o fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.
- Parhau i archwilio beth yn rhagor y gallwn ei wneud i atal colli carbon a hybu dal mwy o garbon yn y mewndiroedd ar draws y Fwrdeistref Siriol.
- Ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol o godi ymwybyddiaeth staff o'r argyfyngau ar yr hinsawdd a natur sydd wedi'u datgan yng Nghymru, fel eu bod yn llywio popeth a wnawn yn y Cyngor.
- Cyfrannu at Canopi Gwyrdd y Frenhines – i ddathlu Jiwbilî Platinwm Ei Mawrhydi, fel rhan o'n cynlluniau ehangach ar gyfer plannu'r 'Goeden Gywir yn y Man Cywir' ar draws RhCT ac amddiffyn ein coetir hynafol.
- Helpu i gynyddu'r fioamrywiaeth yn ein hysgolion, e.e. helpu natur i ffynnu ar dir diffaith a chael mwy o blant i gymryd rhan yn ymarferol mewn byd natur yn yr ystafelloedd dosbarth awyr agored Toeon Gwyrdd newydd. Bydd toeon gwyrdd yr ystafell ddosbarth hefyd yn cynnig cartref i fwy o blanhigion a phryfed.

Gallwch ddysgu rhagor am y Bioamrywiaeth cyfoethog yn y Fwrdeistref sirol ar ein gwefan.

**Mae ein gwaith i fynd i'r afael â Bioamrywiaeth yn cyfrannu at RhCT a Chymru sydd**

| Yn Llewyrchus | Yn Gydnerth | Yn Iachach | Yn Fwy Cyfartal | Â Chymunedau Cydlynus | Â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | Yn Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## Cynnwys pobl a chymunedau

**Mae gennym hanes da o siarad â phreswylwyr a chymunedau a darganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw. Rydym ni bob amser yn chwilio am ffyrdd gwell a haws i bobl gymryd rhan a rhoi eu barn a'u safbwyntiau am y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Yn 2020/21, nid oeddem wedi gallu cael ein sgyrsiau arferol gyda phobl wyneb yn wyneb felly, lle bynnag y bo'n bosibl, rydym yn parhau i gael y sgyrsiau hyn ar-lein. Roedd ein ffocws ar gyfleu'r wybodaeth gywir ar yr adeg gywir i roi cymorth a thawelwch meddwl i'n preswylwyr trwy gydol pandemig Covid-19.**

Rydym yn darparu mwy o wybodaeth 'hawdd ei darllen' i helpu pobl i roi eu barn i ni. Trwy weithio ochr yn ochr ag Anabledd Dysgu Cymru, lluniom becyn 'hawdd ei ddarllen' i blant a phobl ifanc am ein cynlluniau ar gyfer Ysgol Llyn y Forwyn yng Nglynrhedynog, ochr yn ochr ag arolwg hawdd ei lenwi. Hefyd, lluniom fideo fel y gallai plant weld y cynlluniau yn fanylach.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod allan yn siarad â phreswylwyr yng nghanoli trefi, mewn archfarchnadoedd ac mewn digwyddiadau cymunedol a gynhaliom yn ein parciau a'n mannau cyhoeddus eraill. Rydym wedi darganfod ein bod ni, trwy siarad â phobl wyneb yn wyneb, yn dod i wybod mwy am yr hyn sy'n digwydd mewn cymunedau lle nad yw hynny bob amser yn amlwg.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, i'r graddau ag y bo'n bosibl, rydym wedi parhau i ennyn diddordeb a chynnwys preswylwyr a chymunedau mewn materion sy'n effeithio arnyn nhw fel bod eu lleisiau i'w clywed ym mhenderfyniadau'r Cyngor ac mewn ymateb i'r camau a gymerwn. Hefyd, rydym wedi parhau i gyfarfod â'r tri fforwm ieuenctid i glywed eu pryderon a'u cyfraniadau, gan gynnwys sut mae Covid yn effeithio ar bobl ifanc. Rydym wedi defnyddio Zoom i gynnal cyfarfodydd a sgyrsiau cyhoeddus ac wedi parhau i ddefnyddio arolygon ar-lein. Hefyd, i bobl nad ydynt ar-lein, rhoddom opsiwn y byddem yn rhoi galwad nôl iddyn nhw.

Fe wnaeth ein gwaith eleni gynnwys:

- **Gosod Cyllideb y Cyngor** – roedd preswylwyr yn cwblhau arolwg ar-lein a, hefyd, yn dod i gyfarfodydd 'Zoom' ar-lein i roi eu barn i ni am ein cyllideb 2021-22, lefelau Treth y Cyngor a'n cynlluniau Buddsoddi a Chynilo. Hefyd, cynhaliom gyfarfodydd Zoom gyda chynrychiolwyr pobl ifanc o ysgolion a cholegau a'n Grŵp Cynghori Pobl Hŷn, 'OPAG'. Yn achos y bobl hynny nad oeddent yn gallu cael at arolygon neu gyfarfodydd ar-lein, sefydlom linell gymorth a rhoi help iddynt gwblhau'r arolwg, os oedd angen help arnynt.

- **Arolwg llifogydd –** yn ystod Ionawr 2021 gofynnom i bobl yr oedd y llifogydd a achoswyd gan stormydd ddechrau 2020 wedi effeithio arnynt, i gwblhau arolwg ar-lein fel y gallem ddwyn gwybodaeth leol ynghyd am y llifogydd. Darparodd dros 300 o breswylwyr luniau a dweud wrthym am eu profiadau. Mae'r hyn a ddywedodd pobl wedi llywio ymchwiliadau cyfreithiol Adran-19 i'r llifogydd. Pan fydd yr ymchwiliadau hyn wedi'u cwblhau, bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad ar sail holl ganfyddiadau'r ymchwiliad ac yn gwneud argymhellion ynghylch sut gall y gwahanol sefydliadau sy'n ymwneud ag atal a mynd i'r afael â llifogydd wneud yn well. Gallwch weld rhagor am sut yr ymatebodd y Cyngor i'r llifogydd yn y gwerthusiad LLEOEDD.

- **Cynlluniau ar gyfer Canolfan Gelfyddydau'r Muni, Pontypridd -** Roeddem am gynnwys ein preswylwyr yn ein cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y 'Muni' ym Mhontypridd mewn ffordd wahanol. Gofynnom i bobl rannu'u straeon a'u lluniau am orffennol y Muni fel Capel Wesleaidd a'i chyfnod mwy diweddar. Yna, dechreuom siarad â phreswylwyr a rhanddeiliaid ar-lein ar 'Zoom' am eu syniadau a'u barn am ein cynlluniau ar gyfer ei dyfodol. Hefyd, dangosom luniau o'n cynlluniau yn ffenestri Llys Cadwyn ym Mhontypridd fel y gallai pawb gael cyfle i'w gweld nhw o bellter diogel ac roedd y bobl hynny nad allent ymuno ar-lein yn gallu rhoi eu barn trwy linell gymorth.

- **Adnewyddu Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Agored ynghylch Cŵn yn Baeddu (PSPO)** Er mwyn cael barn preswylwyr a phartïon eraill â budd am adnewyddu'r PSPO ynghylch Cŵn yn Baeddu am dair blynedd arall, cynhaliom arolwg ar-lein a digwyddiad 'galw heibio' rhithwir trwy Zoom. Ar yr un pryd, defnyddiom y Cyfryngau Cymdeithasol i hyrwyddo'r arolwg a 'galw heibio' ac anogom bobl i roi eu barn i ni drwy'r e-bost. Hefyd, darparom rif ffôn ar gyfer llinell gymorth a chyfeiriad rhadbost fel y gallai'r bobl hynny nad allent ymuno ar-lein gymryd rhan yn hawdd. Gallwch weld rhagor am yr ymgynghoriad ar y PSOP, ynghyd â'r canlyniadau, yn y gwerthusiad LLEOEDD.

- **Adolygu'r Map Rhwydwaith Integredig** – Fel rhan o gyllid Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, dechreuom yr adolygiad o Fapiau Rhwydwaith Integredig y Cyngor, a fydd yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer llwybrau cerdded a beicio am y 15 mlynedd nesaf. Fe wnaeth yr adolygiad gynnwys cyfle i breswylwyr ddweud eu dweud am y pethau yr hoffent ei weld, beth sy'n dda ar hyn o bryd ac ymhle y gallem wneud yn well, mewn ymgynghoriad ar-lein a gynhaliwyd ddechrau 2021. Cafwyd dros 650 o ymatebion. Gall Teithio Llesol ddwyn buddion economaidd, iechyd ac amgylcheddol sylweddol i breswylwyr, cymunedau a busnesau, a chyflwynir yr adolygiad i Lywodraeth Cymru yn ystod mis Rhagfyr 2021.

Hefyd, cyflwynom ffordd newydd i bawb sy'n byw ac yn gweithio yn Rhondda Cynon Taf, ac sy'n ymweld â hi, allu rhoi eu barn a'u safbwyntiau am ein prosiectau. Mae 'Dewch i Siarad RhCT' yn adnodd ymgysylltu ar-lein newydd sy'n rhoi sawl ffordd wahanol o gymryd rhan, gan gynnwys trwy arolygon hawdd eu cwblhau, polau piniwn cyflym a ffyrdd syml o adael syniadau a straeon. Y ddau brosiect cyntaf, Dewch i Siarad am y Newid yn yr Hinsawdd a Dewch i Siarad am Wefru Cerbydau Trydan oedd ein prosiectau peilot ar gyfer y safle ac mae'r gwersi a ddysgwyd wedi ein helpu i lywio prosiectau 'Dewch i Siarad' eraill.

Bydd rhoi ffyrdd ar-lein a rhithwir ar waith i bobl roi eu barn a'u safbwyntiau i ni yn parhau i ddatblygu, ond ni fyddant yn disodli'r wybodaeth leol werthfawr a gawn trwy fynd allan i siarad â phobl. Rydym yn awyddus i ailddechrau'r sgyrsiau hyn gydag unigolion a grwpiau cynrychioliadol cyn gynted ag y bydd hi'n ddiogel gwneud hynny. Mae ein cynlluniau at eleni wedi'u hamlinellu'n fanylach isod.

Gyda'r ffocws ar fynd i'r afael ag effaith y pandemig, roedd mwy o angen cyfleu cyngor clir a rhoi gwybod i breswylwyr am Covid-19 yn RhCT, y cymorth sydd ar gael gan y Cyngor a'n partneriaid a sut roedd gwasanaethau yn addasu er mwyn canolbwyntio ar gadw pobl yn ddiogel.

Er mwyn rhoi rhywfaint o gyd-destun lleol i wybodaeth a ddaeth gan y Llywodraethau am gyfyngiadau Covid, roeddem yn rhoi gwybodaeth am sut roedd y wybodaeth honno'n berthnasol yn RhCT ar tudalen we bwrpasol ar gyfer Covid-19 a thrwy ein sianeli ar y Cyfryngau Cymdeithasol yn rheolaidd. Oherwydd bod y wybodaeth genedlaethol yn newid mor aml ac mor gyflym, ac oherwydd y dryswch rhwng penderfyniadau Cymru a Lloegr, roeddem am wneud y wybodaeth yn glir ac yn hawdd i bawb yn RhCT ei gweld, gan gynnwys trwy ddefnyddio graffeg. Hefyd,

defnyddiom sianeli'r Cyfryngau Cymdeithasol, @rctcbc a Facebook, fideos a'n prif Gwefan i ddarparu gwybodaeth bwysig arall i breswylwyr, i fusnesau ac i gymunedau trwy gydol y gwahanol lefelau cyfyngiadau, y mae dim ond ychydig o blith y cannoedd o enghreifftiau wedi'u rhestru isod

- ble y gallai preswylwyr gael help ymarferol i gael bwyd a siopa.
- darparu cymorth trwy ein Canolfannau Cydnerthedd Cymunedol.
- cyllid i fanciau bwyd a chymorth iechyd meddwl yn ystod y cyfnod atal byr.
- sut gallai busnesau gael gafael ar grantiau a sut gallai preswylwyr gael help ariannol a oedd ar gael neu help tuag at ôl-ddyledion rhent.
- negeseuon iechyd cyfredol, gan gynnwys arhoswch gartref i bobl â symptomau Covid.
- ble a phryd y gallai preswylwyr a chyflogwyr yn yr ardal gael profion yn y gymuned.
- y camau yr oedd angen i breswylwyr wybod am pryd a ble y byddent yn cael brechiadau.
- trefniadau agor ysgolion a chludiant ysgol.
- peryglon 'Sgamwyr' a wnaeth barhau i gymryd mantais ar fregusrwydd pobl.
- ble y gallai pobl mewn perygl o ddioddef trais neu gamdriniaeth gael help.

Dyma ddim ond ychydig o'r wybodaeth a gyhoeddom a gallwch weld mwy o lawer yn ein 'Ystafell Newyddion'.

Wrth i wasanaethau'r Cyngor ailagor ochr yn ochr â bywydau ein preswylwyr, rydym yn cynllunio ymlaen ar gyfer 2021/22 ac mae ein cynlluniau yn cynnwys

- parhau i gynnwys a siarad â phreswylwyr a chymunedau am faterion sy'n effeithio arnynt a'u hannog nhw i gymryd rhan fel bod mwy o leisiau i'w clywed ym mhenderfyniadau'r Cyngor, gan ddychwelyd i sgyrsiau wyneb yn wyneb pan fydd hi'n ddiogel gwneud hynny, gan gynnwys ein sgwrs barhaus ar yr Hinsawdd a'n cynlluniau ar gyfer cyfleusterau hamdden, chwaraeon a ffitrwydd.
- gwneud yn siŵr bod ein trefniadau ar gyfer cynnwys ac ymgysylltu â phreswylwyr a chymunedau yn berthnasol o hyd yn dilyn eu profiadau o'r pandemig.
- gwneud yn siŵr bod y Cyngor yn bodloni ei dyletswydd gyfreithiol newydd i 'gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol a gwella tryloywder' – mae hyn yn golygu gwneud mwy i ennyn diddordeb pobl a'u cael i gymryd rhan yng ngwaith y Cyngor, a'i gwneud hi'n haws iddynt gymryd rhan yn y penderfyniadau mae'r Cyngor yn eu gwneud.
- parhau i'w gwneud hi'n haws i breswylwyr gael at ein harolygon a'n gwybodaeth, trwy ddefnyddio mwy o ddeunyddiau hawdd eu darllen a sicrhau eu bod ar gael yn fwy. Hefyd, byddwn yn hyfforddi'n staff i lunio deunyddiau Cymraeg Clir.
- parhau i ddefnyddio mwy o ymgysylltu digidol, trwy ddefnyddio mwy o'r cyfryngau cymdeithasol a digidol.
- Parhau i ddatblygu ymwneud ac ymgysylltiad 'rhithwir', gan wneud yn siŵr bod lleisiau pobl nad ydynt yn gallu manteisio ar TG a thechnoleg i'w clywed.

**Mae ein gwaith i gynnwys pobl a chymunedau yn cyfrannu at RhCT a Chymru sydd**

| Yn Llewyrchus | Yn Gydnerth | Yn Iachach | Yn Fwy Cyfartal | Â Chymunedau Cydlynus | Â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | Yn Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## Gwrando ar eich adborth a dysgu ohono

Mae gennym hanes da o siarad â'n preswylwyr ac rydym yn parhau i wella sut rydym ni'n cael y sgyrsiau hyn, ond mae angen i ni ddysgu hefyd o'r hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym pan fyddant yn ffonio, yn e-bostio neu'n cysylltu â ni drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Caiff gwasanaethau'r Cyngor filoedd o gysylltiadau gan breswylwyr a busnesau bob dydd. Efallai mai ymholiad, gofyn am wasanaeth, talu bil neu fwcio ar gyfer ein canolfannau hamdden fydd ycysylltiadau hyn.

Yn 2020-21

1. deliodd Canolfan Gyswllt y Cyngor â 465,229 o gysylltiadau gan gwsmeriaid, gan gynnwys negeseuon e-bost, y cyfryngau cymdeithasol, Gwifren Achub Bywyd (Lifeline), bwciadau, taliadau a cheisiadau..
2. O fewn ein Cynllun Adborth Corfforaethol,
    a. daeth 66% o'r cysylltiadau trwy wefan y Cyngor.
    b. cynyddodd nifer y negeseuon e-bost o 8.5% i 20% yn 2019/20.
    c. fe wnaeth y cysylltiadau dros y ffôn ostwng o 14% i 6% yn 2019/20.
    gan nad oedd trefniadau canolfan gyswllt arferol y Cyngor ar gael am gyfnod yn ystod cyfyngiadau Covid.

Gallwch weld rhagor am y ffordd rydym ni'n defnyddio technoleg ddigidol i wella'n gwasanaethau i gwsmeriaid yn Adran 6.

Fel rhan o brosesau Cwynion, Canmoliaeth a Sylwadau ffurfiol y Cyngor, cafodd y Cyngor:

2. 750 cwyn
3. 221 canmoliaeth
4. 132 sylw

Yn ei adroddiad diweddaraf ar gyfer 2019/20, dywedodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru iddo gael 39 cwyn ar gyfer RhCT. Dyma'r ail isaf o blith y 22 Cyngor yng Nghymru

Pan fyddwn yn ystyried sut mae ein gwasanaethau yn gwneud, rydym yn ystyried beth mae ein preswylwyr yn ei ddweud wrthym ac, yn bwysicach na hynny, beth rydym ni'n ei wneud gyda'r wybodaeth hon.

Mae'r wybodaeth hon yn werthfawr am ei bod yn ein helpu i ddeall beth mae preswylwyr yn ei feddwl, ymhle y mae angen i ni weithredu a sut y gallwn wella. Mae'n ein helpu i ddeall anghenion preswylwyr, busnesau, pobl sy'n gweithio yn y Fwrdeistref Sirol a phobl sy'n ymweld â hi.

Hefyd, defnyddiwn system Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion ffurfiol a dderbyniwn drwy ein cyfryngau cymdeithasol a'n system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM). Mae cynghorwyr yn gallu gwirio'r wybodaeth hon mewn adroddiadau i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Hefyd, mae'r adroddiadau hyn yn amlinellu'r hyn a wnaed i wella gwasanaethau yn sgil adborth mewn adroddiadau blaenorol.

Hefyd, rydym yn adrodd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu fel y gall Cynghorwyr weld yr ymatebion a gafwyd trwy Cynllun Adborth Corfforaethol y Cyngor. Mae hyn hefyd yn cynnwys datblygiadau a gwelliannau i'r cynllun yn y 6 mis blaenorol. Fel rhan o'n trefniadau, rydym hefyd yn darparu adroddiadau chwarterol i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (yr Ombwdsmon). Mae'r adroddiadau hyn yn darparu gwybodaeth am nifer y sylwadau, canmoliaeth a chwynion a gawsom a deilliannau'r rhain. Pe bai cwsmer yn anghytuno â chanlyniad cwyn ar ôl i'r Cyngor ymchwilio iddi, gall gyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i ofyn am ymchwiliad annibynnol.

Fel Cyngor, mae'n bwysig ein bod yn gallu dangos tystiolaeth i ni ddysgu o adborth ein preswylwyr a chan Awdurdodau Lleol eraill lle y cawsant argymhellion gan yr Ombwdsmon am welliannau. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Ombwdsmon i'n helpu i gymharu ansawdd ein gwasanaethau, ein prosesau a'n polisïau â Chynghorau eraill ledled Cymru fel y gallwn wella. Cyhoeddwyd adroddiad diweddaraf yr Ombwdsmon ym mis Tachwedd 2020, Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019/2020. Diben yr Adroddiad Blynyddol yw adrodd ar berfformiad swyddfa'r Ombwdsmon dros y flwyddyn, gan roi diweddariad am ddatblygiadau a chyflwyno unrhyw negeseuon allweddol sy'n codi o'r gwaith a wnaeth yn ystod y flwyddyn.

**Fe wnaeth ein gwaith yn 2020/21 gynnwys:**

- Parhau i ymateb i adborth ffurfiol, yn enwedig cwynion. Er tarfu oherwydd pandemig Covid, o'r 750 o gŵynion a gawsom, cafodd 95% ohonynt eu datrys yng Ngham 1 a 5% ohonynt yng Ngham 2. Dyma'r un lefel gwasanaeth a ddarparwyd cyn y pandemig.
- Defnyddio gwybodaeth ac adborth a gafwyd trwy'r cyfryngau cymdeithasol a sianeli digidol e.e. i helpu llywio sut yr ymatebodd gwasanaethau i gyfyngiadau Covid.
- Cyflwyno Polisi Cynllun Adborth Cwsmeriaid newydd, sy'n bodloni gofynion Comisiynydd y Gymraeg a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Mae ein cynlluniau ar gyfer 2021/22 yn cynnwys:**

- Defnyddio ein gwefan newydd o'r enw 'Dewch i Siarad RhCT' i hybu sgyrsiau â phreswylwyr ar bynciau penodol e.e. y Newid yn yr Hinsawdd ac adborth mwy cyffredinol gan breswylwyr ar wasanaethau'r Cyngor.
- Darparu mwy o wybodaeth am yr hyn a wnaethom o ganlyniad i'r hynny y dywedodd pobl wrthym.
- Rhoi system newydd ar waith fydd yn cryfhau'r ffordd yr ydym yn cofnodi yn adrodd ar adborth cwsmeriaid ac yn ei ddefnyddio i lywio gwelliant i wasanaethau.
- Darparu mwy o wybodaeth am lefel y gwasanaeth y gall ein cwsmeriaid ei ddisgwyl.
- Gwella sut rydym ni'n dal cwynion, sylwadau a chanmoliaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Gwyddom fod rhaid i ni wella yn y ffordd rydym ni'n rhoi gwybod i'n preswylwyr am yr hyn a wnaethom gyda'u hadborth, a dyma fydd ein ffocws yn 2021/22.

**Cyfrannu at RhCT a Chymru sydd**

| Yn Llewyrchus | Yn Gydnerth | Yn Iachach | Yn Fwy Cyfartal | Â Chymunedau Cydlynus | Â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | Yn Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## Rhoi yn Ôl

Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Cyngor, Cynghorwyr a staff wedi cefnogi llawer o elusennau yn eu hamser eu hunain, mewn sawl ffordd wahanol, gan roi'n ôl i'r gymuned a wasanaethant. Mae'r cyfyngiadau a achosodd Covid-19, yn enwedig staff yn gweithio gartref, wedi golygu bod llawer o'r gweithgareddau codi arian arferol, fel gwerthu cacennau, diwrnodau gwisgo dillad anffurfiol a digwyddiadau wedi'u noddi, wedi bod yn llai amlwg. Fodd bynnag, mae staff wedi dod o hyd i ffyrdd eraill o gefnogi'u cymunedau a'u helusennau lleol.

**Rhoi Rhoddion –** Er yr heriau a wynebodd bob un ohonom dros y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd ymdeimlad cryf o gymuned o hyd wrth i breswylwyr, busnesau a staff cefnogi cymunedau a phobl yr oedd angen help arnynt. Parhaodd staff, yn ogystal â phreswylwyr, i gefnogi ein Apêl Siôn Corn blynyddol i wneud yn siŵr nad oedd yr un plentyn yn colli allan ar rodd adeg y Nadolig. I fodloni rheolau Llywodraeth Cymru ar gadw pellter cymdeithasol a hylendid, gofynnodd Apêl Siôn Corn am dalebau rhodd yn hytrach na'r teganau newydd neu'r rhoddion eraill arferol. Cafwyd 743 o dalebau rhodd, yn eu plith, rhodd o £1,000 gan Elusen y Maer.

**Kilimanjaro i Glydach**

Mae aelod o'n staff, James, yn godwr arian selog i Ymchwil Canser Cymru. Roedd James yn bwriad dilyn ei daith gerdded 70km yng Ngwlad yr Iâ yn 2019 i fyny trwy ddringo Kilimanjaro ym mis Chwefror 2020, cyn i gyfyngiadau Covid beri bod hynny'n amhosibl. Felly, daeth o hyd i ffyrdd eraill o godi arian yn ystod y cyfnod clo, gan gynnwys:

4. Rhedeg, beicio neu gerdded 2.6 milltir y dydd am 26 diwrnod.
5. Cwblhau 'dim 10 munud y dydd' yn ddyddiol am 30 niwrnod yn ystod y gaeaf, yn Llun Clydach oer.

Ynghyd â gweithgareddau eraill i godi arian, cododd James dros £16,100 yn y flwyddyn ddiwethaf.

Meddai James "Rwy'n mwynhau'r her ac mae'n wych gallu rhoi rhywbeth yn ôl, a hyd yn oed mewn cyfnod anodd, mae cael cefnogi mor arbennig gan bobl sydd bob amser yn barod i roi wedi creu argraff fawr".

**Rhoi Arian –** Parhaodd staff i roi arian i elusennau yn hytrach nag anfon cardiau Nadolig ac, eleni, dywedodd llawer mwy o staff eu bod yn rhoi i elusennau a chynhalion gwisiau a digwyddiadau rhithwir ar gyfer Diwrnod Trwynau Coch.

**Rhoi hanfodion –** Ar ddechrau'r pandemig, cafodd staff y Cyngor eu ailddosbarthu i ganolfannau dosbarthu bwyd i helpu dosbarthu cyflenwadau i breswylwyr agored i niwed a phreswylwyr a oedd yn gwarchod yn y fwrdeistref sirol, yn ogystal â dosbarthu parseli bwyd. Fe wnaeth hyn hefyd gynnwys gwasanaeth casglu/dosbarthu presgripsiynau, a cherdded cŵn. Roedd unrhyw fwyd a oedd yn weddill yn y canolfannau dosbarthu'n cael ei roi i elusennau Digartrefedd.

Hefyd, gwirfoddololodd staff y Cyngor symud o'u swyddi arferol i roi cefnogaeth i'r Gymuned a gweithio yn y Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu. Yn ymgymryd â rolau newydd, roedd 120 o staff yn gweithio mewn Hybiau Cymunedol, 95 ohonynt yn darparu galwadau ffôn i breswylwyr a oedd yn gwarchod a 30 ohonynt mewn banciau bwyd. Cynorthwyodd 40 o staff â phrofion Covid yn ein cymunedau. Trosglwyddwyd 5 o'n staff Iechyd Galwedigaethol i weithio mewn canolfannau brechu a hyfforddodd 30 o staff pellach yn frechwyr fel y gallwyd cyflwyno'r brechlyn yn gyflymach ac yn fwy effeithlon. Yn ogystal, derbyniodd 275 o staff hyfforddiant i gefnogi ein cartrefi gofal a chynorthwyo â gofal cartref rhag ofn y byddai prinder staff.

**Rhoi llesiant**

**Pantomeim y Nadolig**
Ni fu'n bosibl cynnal 'Panto' teuluol traddodiadol y Cyngor yn ein theatrau yn 2020, felly fe'i rhoesom ar-lein yn rhad ac am ddim. Caniataodd hyn i blant a theuluoedd fwynhau ychydig o hud y Panto dros gyfnod yr ŵyl. Roedd hwn ar ffurf pum stori bantomeim, bob prynhawn rhwng 19 a 24 Rhagfyr, gyda stori newydd bob dydd. Ar gyfartaledd, gwyliodd 2,000 o aelwydydd bob stori ar YouTube, gyda disgrifiad sain ac Iaith Arwyddion Prydain hefyd.

**Ras Rithwir Nos Galan**
Un arall o'n digwyddiadau blynyddol yr effeithiodd cyfyngiadau Covid arno oedd ein ras 5 milltir ar hyd y ffordd, ar Nos Galan, yn Aberpennar. Er mwyn i ni gadw ysbryd y ras yn fyw a pheidio â siomi'r miloedd o redwyr, symudom y digwyddiad ar-lein. Nid oedd modd i ni groesawu'r Rhedwr Dirgel arferol na'r cyffro y mae'r digwyddiad yn dod ag ef yn draddodiadol i Aberpennar, ond roeddem wedi gallu denu 2,600 o bobl i gymryd rhan mewn ras rithwir, a roddodd fis i gystadleuwyr gwblhau'r pellter a lanlwytho'r digwyddiad, o gymharu â 1,700 o redwyr yn 2019.

**Her Ffotograffiaeth**
I ddathlu Mis Cerdded ym mis Mai 2020 ac i annog preswylwyr i wneud y mwyaf o'u teithiau cerdded, cynhaliom her Ffotograffiaeth Ffôn Clyfar, a wnaeth annog preswylwyr i fynd allan am dro a thynnu ffotograffau o unrhyw beth a oedd yn adlewyrchu'r haf iddyn nhw.

**Rhoi Cyfleoedd**
Recriwtio 26 o Raddedigion a 33 Phrentis, sy'n fwy na'n niferoedd arferol, fel bod mwy o bobl ifanc yn cael cyfleoedd gwaith yn ystod y cyfnodau heriol hyn.

**Taflu Sbotolau**
Ar bobl a grwpiau yn ein cymunedau, e.e. Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Mis Hanes Pobl Dduon a llawer o ymgyrchoedd Ymwybyddiaeth Iechyd. Parhaom godi ymwybyddiaeth o PRIDE Cymru a'i ddigwyddiad ar-lein amgen ym mis Awst 2020 a noddom drafodaeth banel, The Rainbow United, a wnaeth fwrw golwg ar y ffordd y gall pobl o bob rhan o'r gymuned gefnogi ei gilydd.

**Rhoi Gwaed**
Hefyd, fe wnaethom barhau i annog staff i roi gwaed, gan roi'r cyfle i wneud hynny yn ystod amser gwaith, os oedd angen. Ers y pandemig, mae staff wedi parhau i fynychu sesiynau a gynigir yn rheolaidd, i gynnal stoc cyflenwadau gwaed.

**Rhoi Cymorth**
trwy alluogi elusennau i ddefnyddio adeiladau, parciau a chaeau chwarae'r cyngor fel y gallant gynnal gweithgareddau mewn cymunedau, pan fo'n ddiogel gwneud hynny, ac yn fyd-eang fel partner yn PONT. Mae PONT yn elusen a ariennir gan bobl leol ac mae'n seiliedig ar gyfeillgarwch, ymrwymiad a pharch, a darparu cymorth a chysylltiadau cymuned i gymuned ar gyfer Mbale, Wganda. Ymhlith pethau eraill, mae PONT wedi darparu ambiwlansys beiciau modur, wedi hyfforddi miloedd o weithwyr gofal iechyd ac wedi gefeillio â thros 100 o ysgolion lleol.

**Cyfrannu at RhCT a Chymru sydd**

| Yn Llewyrchus | Yn Gydnerth | Yn Iachach | Yn Fwy Cyfartal | Â Chymunedau Cydlynus | Â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | Yn Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## Gweithio nawr er llesiant cenedlaethau'r dyfodol

Yn syml, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddeddf yng Nghymru sy'n gwneud yn siŵr nad yw'r penderfyniadau a wneir heddiw ar draul llesiant y cenedlaethau sy'n dilyn.

Mae'r Ddeddf yn berthnasol i 44 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru, gan gynnwys RhCT, ac mae'n gosod dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i wella llesiant Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol ei breswylwyr.

Ers i'r ddeddf ddod i rym, rydym wedi bod yn gwneud yn siŵr ein bod yn gwreiddio'r hyn sy'n ofynnol o dan y ddeddf fel y daw'n ail natur i bob gwasanaeth. Mae ein Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2020-24 'Gwneud Gwahaniaeth', yn amlinellu sut y byddwn yn gwella llesiant Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol ein preswylwyr, trwy ein blaenoriaethau, sef POBL, LLEOEDD a FFYNIANT.

Hefyd, mae'r Ddeddf yn gofyn i ni gyfrannu at saith Nod Llesiant cenedlaethol a chymhwyso pum ffordd o weithio i helpu herio'r hyn a wnawn.




Mae cymhwyso'r Pum Ffordd o Weithio yn golygu ein bod ni

- yn cydbwyso anghenion tymor byr â chynllunio at y dyfodol.
- gweithio gyda phartneriaid eraill i fodloni ein hamcanion.
- cynnwys pobl sydd â diddordeb yn ein gwaith a cheisio'u barn.
- buddsoddi adnoddau mewn atal problemau yn llwyr neu eu hatal rhag gwaethygu.
- ystyried effeithio ein gwaith ar waith cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill.

Byddwn yn gweld llawer o enghreifftiau o'r ffordd yr ydym wedi cymhwyso'r Ffyrdd hyn o Weithio trwy gydol yr adroddiad hwn, ond gwyddom fod mwy i'w wneud.

Yn ogystal, mae'r ddeddf yn golygu bod angen i ni feddwl mwy am ein gwasanaethau sy'n gweithio yn y cefndir fel eu bod nhw, hefyd, yn helpu i gyflawni ein cynlluniau a bodloni'r gofynion Llesiant. Mae'r gwasanaethau 'ystafell gefn' hyn yn cynnig y cymorth gorau posibl i'n gwasanaethau rheng flaen fel y gallwn ni, fel Cyngor, barhau i ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau a'u cyflwyno ar y cyflymder y mae ei angen ac i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r Ddeddf yn disgrifio gwaith y gwasanaethau 'swyddfa gefn' hyn fel 'Gweithgareddau Craidd', sy'n *"debygol o sicrhau'n fwyaf effeithiol y math o newid y mae ei angen"*.

| Gweithgaredd Craidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Cynnydd RhCT |
|---|---|
| Cynllunio Corfforaethol | Mae hyn yn cynnwys gosod Amcanion Llesiant a fydd yn gwella llesiant Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol ein preswylwyr. Yn RhCT, fel rhan o gytuno ar ein Cynllun Corfforaethol newydd, cytunodd Cynghorwyr y dylid ystyried mai ein Blaenoriaethau yw ein Hamcanion Llesiant. Bydd y Cynllun hwn, 'Gwneud Gwahaniaeth', yn llywio'n gwaith rhwng 2020 a 2024. Mae'r prosesau perfformio sydd wrth wraidd y ffordd rydym ni'n cyflwyno ein blaenoriaethau yn cynnwys sut rydym ni'n herio'n hunain i wneud yn well trwy ein trefniadau hunanwerthuso a hunanasesu.<br><br>Mae ein profiad a'n dealltwriaeth o'n cryfderau a'r meysydd lle y gallwn wella yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i fodloni gofynion perfformiad y ddeddf newydd, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.<br><br>Rydym yn parhau i gynyddu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ffordd y dylid cymhwyso'r Ddeddf, gan ddysgu o adborth preswylwyr ac arfer da cydnabyddedig. |
| Cynllunio Ariannol | Mae ein strategaeth gyllidebol yn allweddol i gyflawni ein Blaenoriaethau. Rydym yn gwario ein cyllidebau ar y pethau sydd bwysicaf i breswylwyr a chymunedau, gan gyfeirio ein hadnoddau at ein blaenoriaethau a dod o hyd i ffyrdd o weithio'n fwy effeithlon, gweithio'n well gyda phartneriaid a rhannu ein hadnoddau o fewn heriau ariannol sy'n parhau.<br><br>Mae cymhwyso egwyddorion y Ddeddf i bob cynllunio ariannol yn her. Mae setliadau ariannol hirdymor yn ansicr ac, weithiau, mae amodau grant yn cyfyngu ar gyfleoedd i elwa ar gyfleoedd cyllid un-tro. Er yr heriau hyn, rydym yn gweithio'n galed i wneud y mwyaf o gyfleoedd sy'n deillio o unrhyw arian ychwanegol y gallwn ei ddefnyddio i gyflawni ein blaenoriaethau.<br><br>Yn 2020/21, fe wnaethom reoli ein cytundebau er gwaethaf effeithiau ariannol difrod sylweddol gan stormydd a phandemig digynsail, a chytunom ar gynnydd o 2.65% yn Nhreth y Cyngor, yr isaf yng Nghymru yn 2021/22. |
| Cynllunio'r Gweithlu *dolenni mewnol yn unig | Mae ein *strategaeth AD yn amlinellu sut y byddwn yn cyflawni ein blaenoriaethau trwy<br>• Recriwtio a chadw'r gweithwyr gorau posibl yn y farchnad lafur, a<br>• Datblygu staff er mwyn i'r gweithlu gyflawni ei botensial, trwy gael y sgiliau, y gwydnwch a'r gallu gofynnol i fodloni heriau a chyfleoedd y dyfodol.<br><br>Mae ein blaenoriaethau hefyd yn gyrru cynllunio'n gweithlu. Nod ein *Cynllun y Gweithlu yw sicrhau bod ein staff wedi cael eu hyfforddi a'u datblygu, a'u bod yn gallu bodloni'r heriau a wynebwn yn awr ac yn y dyfodol, fel bod y gwasanaeth i breswylwyr, cymunedau a busnesau y gorau y gall fod. Mae ein Cynllun y Gweithlu'n amlinellu sut y byddwn yn gwneud yn |

| Gweithgaredd Craidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Cynnydd RhCT |
|---|---|
| | siŵr bod y bobl gywir gyda'r sgiliau cywir gennym yn y lle cywir, ar yr amser cywir.<br><br>Yn ystod 2020/21, rhoddwyd prawf ar ein staff fel na wnaed erioed o'r blaen ac maent wedi gweithio'n ddiflino trwy gydol y llifogydd a'r pandemig, gan ddangos cryfder sefydliad sy'n ymrwymo i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i breswylwyr, cymunedau a busnesau. Hefyd, rydym wedi parhau i recriwtio graddedigion a phrentisiaid, a darparu cyfleoedd cyflogaeth i breswylwyr yn y cyfnodau mwyaf heriol. |
| Caffael | Rydym yn parhau i wneud yn siŵr bod yr hyn rydym ni'n ei brynu i'r Cyngor o fudd i gymdeithas ac yn cael effaith gyfyngedig ar yr amgylchedd, a bod deilliannau llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn cael eu cynnwys yn ein tendrau. Y llynedd, fe wnaethom hefyd ddod o hyd i Gyfarpar Diogelu Personol digonol ac addas, ynghyd â chyflenwadau eraill yr oedd eu hangen i gadw ein staff a'n gwasanaethau i weithio'n ddiogel, a'u caffael.<br><br>Hefyd, rydym yn paratoi i weithredu 'Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2021' a ddaw i rym ddechrau 2022. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar bob gwasanaeth cyhoeddus "*i sicrhau eu bod yn gyfrifol yn gymdeithasol wrth ymgymryd â chaffael cyhoeddus, gan ddefnyddio pŵer y pwrs cyhoeddus er budd cyffredinol pobl a chymunedau Cymru*". Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn adolygu ein Strategaeth Gaffael i sicrhau ei bod yn bodloni'r dyletswyddau newydd ac yn helpu i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.<br><br>Mae'r trefniadau sydd ar waith gennym yn golygu ein bod ni eisoes mewn sefyllfa dda i fodloni'r ddyletswydd newydd hon. Er enghraifft, prynu trydan a gynhyrchir yn gyfan gwbl, 100%, o ffynonellau ynni adnewyddadwy a gwario gyda busnesau lleol. O'n gwariant o £232M gyda chyflenwyr yn 2020/21, gwariwyd bron i £63M gyda busnesau o fewn RhCT, £151M yn ne-ddwyrain Cymru a £155M yng Nghymru, y cyfan yn cefnogi'r economi a'r gweithlu lleol ac o fudd iddynt. Ond, gwyddom fod mwy y mae'n rhaid i ni ei wneud a, hefyd, rydym yn ystyried sut y gallwn ddefnyddio'r argymhellion yn adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, 'Caffael Llesiant yng Nghymru', a gyhoeddwyd yn gynt eleni, ac arfer gorau i gryfhau ein trefniadau. |
| Rheoli ein Hasedau | Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae cyfyngiadau Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar y ffordd y defnyddiwyd adeiladau'r Cyngor. Mae staff swyddfa wedi gweithio'n wahanol, gartref, gyda llawer mwy o'n gwasanaethau'n cael eu darparu 'ar-lein'. Bydd ein profiad dros y flwyddyn ddiwethaf yn ein helpu i gynllunio a llywio'r defnydd ar ofod swyddfa yn y dyfodol.<br>Rydym yn rheoli ein hasedau i'n helpu i gyflawni ein Gweledigaeth, sef gwneud Rhondda Cynon Taf 'y lle gorau yng Nghymru i fyw, i weithio ac i |

| Gweithgaredd Craidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Cynnydd RhCT |
|---|---|
| | chwarae, lle y mae pobl a busnesau yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus', ac i gyflawni ein blaenoriaethau. Rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadeiladau er budd ein preswylwyr a'n cymunedau e.e. defnyddio ein hysgolion yn gymunedol a rhaglen RhCT Gyda'n Gilydd, sy'n cefnogi grwpiau a sefydliadau lleol yn ystod y broses o 'gymryd drosodd' y cyfrifoldeb am reoli adeiladau neu dir y Cyngor.<br><br>Hefyd, mae'n rhaid i ni lunio'r wadn fel bo'r troed, gan gymryd pob cyfle i leihau costau rhedeg y Cyngor a gostwng Ôl Troed Carbon y Cyngor i 'Sero Net' erbyn 2030. Ym mis Mehefin 2020, adroddom i Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd mai'r holl Allyriadau Net ar gyfer y Cyngor oedd 98,757 tunnell fetrig o Garbon Deuocsid a'i gyfatebol (98,757 tCO2e), gan ddarparu'r data sylfaen i'w ddefnyddio i fesur ein cynnydd. Gwyddom fod mwy y mae angen i ni ei wneud i gryfhau'r data yn yr Ôl Troed ac i fodloni'r Canllaw Sector Cyhoeddus ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-net a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, a bydd hyn yn parhau'n flaenoriaeth i'r Cyngor. |
| Rheoli Risgiau | Rydym yn nodi risgiau tymor byr, canol a hir y bydd angen cymryd camau lliniaru yn eu cylch i'n helpu i gyflawni ein Blaenoriaethau Corfforaethol. Amlinellir y rhain yn ein Cofrestr Risg Strategol. |
| Rheoli ein Perfformiad | Rydym yn parhau i ddarparu gwybodaeth am yr hyn a wnawn a pha mor dda y gwnawn hynny, yn helaeth ar ein gwefan. Mae ein trefniadau cynllunio a monitro perfformiad yn canolbwyntio ar gyflawni ein blaenoriaethau. Mae'r adroddiad hwn yn un o'r ffyrdd rydym yn gwneud y wybodaeth hon yn fwy hygyrch i bobl, i gymunedau ac i'n partneriaid. Rydym yn gwneud yn siŵr bod popeth a wnawn yn canolbwyntio ar yr hyn y dywedodd pobl ei fod yn bwysig iddynt ac rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd a gwahanol o gynnwys preswylwyr a chymunedau yn ein gwaith ac yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.<br><br>Rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd o allu rhannu data perthnasol gyda'n partneriaid i'n helpu ni i wella pob gwasanaeth cyhoeddus yn RhCT a chryfhau'r wybodaeth sydd ar gael gennym. Hefyd, rydym yn parhau i lobïo cyrff cenedlaethol e.e. Data Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Llywodraeth Cymru, i wella mynediad at ystod ehangach o wybodaeth gyson, amserol a pherthnasol am Dueddiadau'r Dyfodol, a fydd yn ein helpu gyda'n cynllunio tymor hir. |

Gyda ffocws clir ar yr ymateb i Covid-19 a chynllunio ar gyfer adfer, ni fu'n bosibl i'n rheoleiddwyr annibynnol, Archwilio Cymru, gynnal adolygiad wedi'i amserlennu yn ystod 2020 o'n hymagwedd at weithredu'r Ddeddf.

Fodd bynnag, rydym yn parhau i adeiladu ar ganfyddiadau o'n hadolygiad diweddaraf i gryfhau ein prosesau. Roedd canfyddiadau'r adolygiad hwn o fuddsoddiad ar gyfer cyfleusterau hamdden yn

gyffredinol ar y cyfan, h.y. "*Ceir enghreifftiau amlwg o'r modd y mae'r Cyngor yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'w fuddsoddiad mewn cyfleusterau hamdden, ond mae cyfleoedd i ddatblygu cynlluniau tymor hwy a chynnwys pobl yn y broses o lunio'r ddarpariaeth hamdden ar gyfer y dyfodol".* Byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i'n helpu ni i wella sut rydym ni'n datblygu ein cynlluniau newydd ar gyfer hamdden a fydd yn ymddangos yn nes ymlaen eleni.

Yn ogystal â dysgu o'r adolygiadau hyn, rydym hefyd

1. yn defnyddio cyngor, arweiniad ac adborth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, adroddiadau Archwilio Cymru ac arfer gorau i herio'r hyn a wnawn, sut rydym yn parhau i wreiddio'r Ddeddf yn ein gwaith, ac i lobïo am fwy o gefnogaeth genedlaethol lle bo'r angen.
2. yn cymhwyso'r hyn rydym ni'n ei ddysgu o'n prosiectau peilot ein hunain yn y Cyngor i brofi ein trefniadau a'u gwella ymhellach.
3. yn parhau i weithio gyda chyrff cenedlaethol, e.e. Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fel y gallwn, ar y cyd, wella'r ffordd rydym ni'n uno gwahanol bolisïau cenedlaethol.
4. yn gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol i ddod o hyd i wybodaeth gryfach a mwy cyson am dueddiadau yn y dyfodol a fydd yn ein helpu ni i wella'n meddwl tymor hir.
5. yn parhau i chwilio am ateb w fydd yn caniatáu/galluogi rhannu data priodol gyda phartneriaid.
6. yn cyfrannu'n gadarnhaol at waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ac yn cefnogi'r gwaith hwnnw. Yn 2021/22, mae hyn yn cynnwys yr Asesiadau Llesiant a Phoblogaeth.

Gwyddom nad allwn wneud popeth ein hunain a bod gennym hanes cadarn o weithio gydag eraill, sydd wedi'i gryfhau fwy fyth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Byddwch yn gweld llawer o enghreifftiau trwy gydol yr adroddiad hwn. Hefyd, rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaethau rhanbarthol, fel Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a phartneriaethau lleol llai. Gallwch weld rhai enghreifftiau o sut a ble rydym yn gweithio gydag eraill ar ein tudalen Gweithio gydag Eraill ar ein gwefan. Hefyd, mae llawer o enghreifftiau cyffredin eraill ohonom yn siarad ac yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill fel y gallwn oresgyn anawsterau lleol cyffredin. Roedd cryfder y perthnasoedd hyn yn allweddol i pa mor gyflym yr oeddem yn gallu ymateb i heriau lleol yn deillio o Covid-19, yn enwedig gyda'r Bwrdd Iechyd a'r Trydydd Sector, lle gweithiom i ddarparu cymorth uniongyrchol i breswylwyr a chymunedau yn eu cymunedau.

Hefyd, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i weithio mewn partneriaeth ffurfiol â chyrff cyhoeddus eraill mewn Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i wasanaethau cyhoeddus sy'n cwmpasu ardal y Cyngor weithio'n rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan ddarganfod sut y gallant wneud y gwahaniaeth mwyaf i bobl a chymunedau trwy gydweithio'n well.

Gan fod RhCT yn gweithio gyda llawer o'r un cyrff cyhoeddus â CBS Merthyr Tudful, e.e. Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Heddlu De Cymru a chyn Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, yn 2016, cytunodd y Cynghorau ddod ynghyd i lunio BGC ar y cyd, sef Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf (BGC), yn cwmpasu ardaloedd Cwm Taf, sef Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Ym mis Ebrill 219, ymunodd ardal Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr â BIP Cwm Taf i greu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (CTM).

Ar hyn o bryd, nid oes cynlluniau clir ar waith i ehangu BGC Cwm Taf i adlewyrchu'r newidiadau i ffiniau'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae ymrwymiad i weithio'n agosach, a mwy o weithio rhanbarthol ac integreiddio gwell rhwng gwaith yr amrywiol Fyrddau Partneriaeth e.e. y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, i ddefnyddio adnoddau partneriaeth yn well. Mae tystiolaeth o hyd yng ngwaith BGCau Cwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr i lunio Asesiad Lles ar y Cyd i gwmpasu ardal CTM. Bwriedir cwblhau Asesiad Lles newydd CTM yn 2022 a bydd yn adnewyddu ac yn disodli'r Asesiadau ar gyfer y ddwy ardal ar wahân a gwblhawyd yn 2017. Bydd yr Asesiad yn gyrru ac yn llywio'r trefniadau newydd a fydd yn dwyn y ddau BGC ynghyd ar gyfer Cynllun Llesiant ar y cyd newydd ddechrau 2023.

Ar yr un pryd, bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio ar Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Bydd y ddau Fwrdd yn rhannu adnoddau, data a gwybodaeth i leihau dyblygu a gorgyffwrdd cymaint â phosibl.
Amlinellodd BGC Cwm Taf sut y byddai'n gwella llesiant ardal Cwm Taf trwy bedwar Amcan Llesiant yn ei Gynllun Lles cyntaf, a gyhoeddwyd yn 2018. Dyma'r Pedwar Amcan Llesiant

| | |
|---|---|
| Cymunedau sy'n Llewyrchu | hyrwyddo cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus sy'n gwella lles trigolion ac ymwelwyr ac adeiladu ar ein hasedau cymunedol. |
| Pobl Iach | helpu pobl i fyw bywydau hir ac iach a goresgyn unrhyw heriau. |
| Economi Gref | i dyfu economi leol gref gyda chludiant cynaliadwy sy'n denu pobl i fyw, gweithio a chwarae yng Nghwm Taf. |
| Mynd i'r Afael ag Unigrwydd ac Unigedd | byddwn yn gweithio mewn ffyrdd newydd i sianelu cryfderau'n cymunedau, gan gynnwys gwirfoddoli, i fynd i'r afael yn fwy effeithiol â'r unigrwydd ac unigedd sy'n aml yn bodoli o fewn llawer ohonynt. |

Mae'r Cyngor yn bartner arweiniol ar gyfer amcan Cymunedau sy'n Llewyrchu ac mae'n chwarae rhan weithgar hefyd yn y tri Amcan Llesiant arall. Cewch fwy o wybodaeth am waith y BGC a'i gynnydd ar ei wefan. Mae'r ffordd rydym ni'n gweithio gyda'n partneriaid yn y BGC wedi'i disgrifio trwy gydol yr arddodiad hwn. Cyhoeddodd y BGC ei adroddiad blynyddol cyntaf ym mis Gorffennaf 2019 a chyhoeddwyd ei adroddiad diweddaraf ym mis Gorffennaf 2021.

Yng nghylch diweddaraf y BGC, gwelwyd rhai heriau ond un o'r cryfderau yn ddiau oedd llwyddiant gwaith partneriaeth wrth reoli ac ymateb i bandemig Covid-19. Roedd y cydweithio a'r perthnasoedd a gafodd eu meithrin yn y BGC yn golygu y gellid paratoi a gweithredu strwythurau ymateb yn gyflym i fodloni'r heriau a wynebodd bob partner, gan gynnwys defnyddio'r hybiau a'r rhwydweithiau cymunedol y gwnaeth y Bwrdd eu peilota.

Hefyd, mae'r BGC wedi cryfhau ei ymrwymiad i weithio'n rhanbarthol, yn fwyaf nodedig o ran rhagnodi cymunedol, gweithio o fewn y strwythurau Profi, Olrhain, Amddiffyn rhanbarthol a gweithio gyda'r Centre for Local Economic Strategies (CLES). Diben y prosiect yw mynd ar drywydd caffael cynyddol, sy'n helpu i angori sefydliadau, fel gwasanaethau cyhoeddus, i gyflawni'u blaenoriaethau craidd yn well.

Yn ogystal, mae gwaith y BGC wedi parhau gyda Model Proffilio Bregusrwydd y Blynyddoedd Cynnar. Nod y model yw amlygu lefel unigol yr angen ymhlith teuluoedd, gan gynnwys ymchwilio i rwystrau posibl rhag rhannu gwybodaeth a'u dileu. Bydd yr anghenion hyn yn cael eu cymharu â'r meini prawf cymhwysedd sy'n seiliedig ar ddaearyddiaeth ar gyfer cymorth Dechrau'n Deg. Ar hyn o bryd, mae'r model Proffilio Bregusrwydd drafft yn cael ei lunio'n derfynol at ddiben peilot yn

RhCT, gan roi pwyslais sylweddol ar atal ac amlygu'n gynnar, gyda'r ffocws ar well targedu unigolion y mae angen cymorth arnynt, gan gynnwys cyn beichiogi ac yn ystod beichiogrwydd.

Hefyd, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi amlinellu chwe maes gwaith y dywedodd pobl ledled Cymru wrthi yw'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r wlad ac ymhle y gallai gael yr effaith fwyaf. Dyma'r meysydd hyn

1. Sgiliau – mae ein gwaith yn cynnwys helpu pobl i gael gwaith ac i gael cyflogaeth gwell â thâl. Am ragor o wybodaeth, gweler Adran 9 **Ffyniant.**
2. Tai – mae ein gwaith yn cynnwys cynyddu nifer y tai o ansawdd sydd ar gael a nifer y tai fforddiadwy er mwyn cynnig mwy o ddewis o dai i breswylwyr. Am ragor o wybodaeth, gweler Adran 9 **Ffyniant.**
3. Trafnidiaeth – mae ein gwaith yn cynnwys cadw'r Fwrdeistref Sirol i symud, gan gynnwys gwelliannau i ffyrdd a phalmentydd ac i drafnidiaeth gyhoeddus, gan wella ansawdd ein haer hefyd. Am ragor o wybodaeth, gweler Adran 8 **Lleoedd.**
4. Defnydd tir a chreu lleoedd – mae ein gwaith yn cynnwys ystyried ymagwedd cwbl wahanol at symudedd yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd er mwyn creu cynllun symudedd carbon sero, sy'n gyfiawn yn gymdeithasol. Mae hyn yn symud symudedd i ffwrdd o'r car trwy ddileu'r amodau sy'n peri bod ceir yn angenrheidiol. Am ragor o wybodaeth, gweler Adran 9 **Ffyniant.**
5. Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod – mae ein gwaith yn cynnwys helpu plant a phobl ifanc a'u teuluoedd i ymdopi â'r anawsterau a wynebant, gan gynnwys trwy ein Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth, a thrwy cynnig cyfleoedd gwaith i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Am ragor o wybodaeth, gweler Adran 7 **Pobl** ac Adroddiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Gorffennaf 2021.
6. System Iechyd a Lles – mae ein gwaith yn cynnwys cyflwyno model rhagnodi cymdeithasol er mwyn cyfeirio pobl at ymyriadau yn y gymuned, gan gynnwys dosbarthiadau ymarfer corff, dosbarthiadau addysg oedolion, Dydd Gwener Digidol, clybiau darllen Llyfrgelloedd, ac ati. Am ragor o wybodaeth, gweler Adran 7 **Pobl**.

Gallwch roi eich barn a'ch profiadau ynghylch blaenoriaethu'r Comisiynydd ar Llwyfan y Bobl a gweld Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf y Comisiynydd, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020. Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi cynnydd pob corff cyhoeddus y mae'r Ddeddf yn berthnasol iddo, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wrth weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ers iddi ddod yn gyfraith yn 2015.

## Rhai o’r ffyrdd yr ydym yn cyfrannu at y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol

| Nod Llesiant Cened-laethol | POBL<br>Sicrhau bod pobl yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus | LLEOEDD<br>Lle mae pobl yn falch o fyw, gweithio a chwarae | FFYNIANT<br>Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd a chyflawni eu potensial a ffynnu |
|---|---|---|---|
| Llewyrchu | • Cefnogi Plant a Phobl Ifanc trwy roi dechrau gwych iddynt mewn bywyd trwy ein rhaglen Teuluoedd Cydnerth. | • Cadw pobl a thraffig i symud ar ffyrdd a phalmentydd sy’n cael gofal da.<br>• Datblygu cynlluniau a fydd o fudd i gymunedau nawr ac yn y dyfodol. | • Cynorthwyo busnesau i addasu ac arallgyfeirio.<br>• Adeiladu cartrefi newydd<br>• Cynorthwyo pobl i ddatblygu sgiliau newydd.<br>• Darparu ysgolion lle y gall plant gyflawni orau ag y gallant. |
| Cydnerth | • Leihau tarfu ar safleoedd a deunydd gwastraff trwy amserlenni adeiladu byrrach a defnyddio dulliau adeiladu modiwlaidd wrth adeiladu ein cyfleusterau Gofal Ychwanegol. | • Buddsoddi yn ein Mannau Gwyrdd a rhoi pwys arnynt.<br>• Cynyddu mesurau lliniaru llifogydd. | • Hyrwyddo bioamrywiaeth trwy amddiffyn cynefinoedd presennol lle y bo’n bosibl a chreu ardaloedd newydd ar gyfer bywyd gwyllt ar safleoedd ein hysgolion.<br>• Integreiddio bioamrywiaeth i drefniadau cynllunio. |
| Iachach | • Helpu pobl i gadw mor iach ag y gallant trwy annog mwy o weithgarwch mewn lleoliad sy’n gywir i’r unigolyn e.e. gartref, yn ein canolfannau hamdden, mewn mannau gwyrdd tu allan ac mewn cyfleusterau cymunedol mewn ysgolion.<br>• Cynorthwyo â chyflwyno brechiadau a phrofion Covid-19. | • Datblygu a chynnal statws y Faner Werdd yn ein parciau a’n safleoedd.<br>• Ailagor ein parciau yn dilyn gwaith trwsio oherwydd llifogydd.<br>• Parhau i fynd i’r afael â throseddau amgylcheddol.<br>• Rhoi Llwybrau Cerdded ar waith i breswylwyr ac ymwelwyr a llwybrau diogel i’r ysgol i blant a phobl ifanc. | • Darparu cymorth llesiant i blant a phobl ifanc.<br>• Dod o hyd i ffyrdd o amddiffyn ansawdd yr aer a hybu iechyd trwy deithio llesol ac amwynderau lleol wrth gynllunio datblygiadau newydd. |
| Mwy Cyfartal | • Gwneud yn siŵr bod preswylwyr yn gallu cael at wasanaethau, ni waeth beth yw eu cefndir neu’u hamgylchiadau. | • Cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol ar gyfer Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb.<br>• Gwneud yn siŵr bod ein preswylwyr o bob oedran yn gallu mwynhau ein parciau a’n mannau gwyrdd trwy fynediad gwell a mannau newid.<br>• Sicrhau bod cymorth ar gyfer cam-drin yn y cartref ar gael i bawb y mae ei angen arnynt. | • Darparu nwyddau mislif i helpu mynd i’r afael â thlodi mislif i ferched a menywod yn ein cymunedau.<br>• Rhoi benthyg dyfeisiau a mifi i blant, phobl ifanc a cheiswyr swyddi i’w helpu i barhau ag addysg a hyfforddiant ar-lein.<br>• Rhewi prisiau mewn Canolfannau Hamdden a phrisiau isel yn y Lido. |

| Nod Llesiant Cened-laethol | POBL<br>Sicrhau bod pobl yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus | LLEOEDD<br>Lle mae pobl yn falch o fyw, gweithio a chwarae | FFYNIANT<br>Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd a chyflawni eu potensial a ffynnu |
|---|---|---|---|
| Cymunedau Cydlynus | • Helpu pobl i aros yn eu cartref eu hunain yn hirach a'u galluogi nhw i gyfrannu at gymunedau a chryfhau perthnasoedd cymdeithasol.<br>• Parhau â 'Bwyd a Hwyl' yn ystod gwyliau'r ysgol. | Cadw pobl yn ddiogel a'u helpu nhw i deimlo'n ddiogel trwy<br>• ymateb i geisiadau'r gymuned am weithredu.<br>• mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>• amddiffyn pobl a allai fod yn fregus yn wyneb troseddau carreg y drws. | • Gwella tai i'n holl breswylwyr a chreu cymdogaethau dymunol lle y gall cymunedau ffynnu. |
| Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | • Darparu a hyrwyddo mwy o gyfleoedd i'n preswylwyr gyfathrebu â'r Cyngor a'i gilydd yn Gymraeg. | • Gweithredu enwau lleoedd safonol Cymraeg a Saesneg ar ein holl arwyddion newydd a'n gohebiaeth, gan ddiogelu treftadaeth Gymreig trwy warchod enwau lleoedd Cymraeg. | • Dathlu diwylliant a hanes yr ardal yn ein theatrau a'n parciau a datblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd.<br>• Hybu RhCT fel cyrchfan i ymwelwyr, gan gynnwys yr Eisteddfod. |
| Cyfrifol yn Fyd-eang | • Ein gwaith gyda PONT, sefydliad elusennol i wirfoddolwyr yn RhCT sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau ym Mbale, Dwyrain Wganda, ac sy'n anelu at gefnogi sefydliadau Wgandaidd sydd â'r potensial i fynd i'r afael â thlodi yn eu trefi a'u pentrefi. | • Cyflymu ein hailgylchu a'n hailddefnyddio<br>• Datblygu ein cynlluniau i fynd i'r afael ag effaith y Newid yn yr Hinsawdd a'i leihau ar draws gwasanaethau'r Cyngor a'r Fwrdeistref Sirol i gyrraedd targedau 2030. | • Cefnogi Mentrau Masnach Deg.<br>• Datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy fel Ffynnon Thermol Ffynnon Taf. |